# Datganiadau o Bolisi Rhaglenni'r BBC

2006/2007

# Cynnwys

tudalen


**Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol** 3

**Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd** 4

## Teledu

BBC One ....... 6
BBC Two ....... 11
BBC Three ....... 18
BBC Four ....... 23
CBeebies ....... 28
Sianel CBBC ....... 32

## Radio

BBC Radio 1 ....... 36
BBC Radio 2 ....... 40
BBC Radio 3 ....... 44
BBC Radio 4 ....... 48
BBC Radio Five Live ....... 52
BBC Radio Five Live Sports Extra ....... 57
1Xtra ....... 60
BBC 6 Music ....... 63
BBC 7 ....... 66
BBC Asian Network ....... 70

## Cyfryngau newydd

bbc.co.uk ....... 76
BBCi ....... 80
BBC jam ....... 83

## Newyddion

BBC News 24 ....... 86
BBC Parliament ....... 90

## Gwledydd a rhanbarthau

BBC English Regions ....... 94
BBC Scotland ....... 98
BBC Cymru Wales ....... 104
BBC Northern Ireland ....... 109

**Ymrwymiadau pellach** ....... 115

# Datganiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Yn y cyflwyniad i Ddatganiadau o Bolisi Rhaglenni (SoPPs) y llynedd dywedais fod y BBC yn creu gwerth cyhoeddus trwy wasanaethu ei chynulleidfaoedd fel defnyddwyr ac fel aelodau o gymdeithas ehangach trwy ei hamrywiaeth o raglenni a gwasanaethau.

Mae diwyg y Datganiadau wedi newid eleni i adlewyrchu'r ffaith fod gan y BBC drefniadau llywodraethu newydd.  Fodd bynnag, wrth i chi eu darllen gobeithio y gwelwch ein bod yn parhau i ddangos ymrwymiad parhaus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ac i ddarparu rhagoriaeth a gwerth yn ein holl wasanaethau.

Rydym yn cynnig rhaglenni teledu, radio a chyfryngau newydd amrywiol, yn ogystal â gwasanaethau heblaw darlledu fel y cerddorfeydd. Datblygodd ein hymdrechion i ddarparu'r gorau ym maes gwybodaeth, addysg, adloniant a chyfranogiad eleni gyda gwasanaethau arloesol fel yr Archif Creadigol a chynlluniau peilot fel BBCiplayer (yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr fydd yn cynnwys prawf gwerth cyhoeddus).

Am y tro cyntaf eleni mae gennym bwrpas cyhoeddus newydd: helpu i greu Prydain ddigidol.  Yn ddieithriad, mae holl wasanaethau'r BBC nawr yn darparu rhywfaint o ryngweithgarwch digidol – boed yn bod-ddarlledu neu'n wefan – gyda'r nod o annog a chynnwys pawb, ac i'n cyflwyno i holl fanteision y dyfodol.  Mae'n addas, felly, mai ar-lein yn unig y mae'r Datganiadau o Bolisi Rhaglenni i'w cael eleni.

**Mark Thompson**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol**

Ebrill 2006

# Pwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd

## Ein pwrpas

I gyfoethogi bywydau pobl gyda rhaglenni a gwasanaethau sy’n hysbysu, addysgu a diddanu.

## Ein gweledigaeth

Bod y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd.

## Ein gwerthoedd

- Ymddiriedaeth yw sail y BBC: rydym yn annibynnol, diduedd a gonest.
- Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn.
- Rydym yn ymfalchïo mewn darparu ansawdd a gwerth am arian.
- Creadigrwydd yw enaid ein sefydliad.
- Rydym yn parchu ein gilydd ac yn dathlu ein hamrywiaeth fel y gall pob un wneud ei orau.
- Un BBC ydym: mae pethau mawr yn digwydd wrth i ni weithio gyda’n gilydd.

## Pwrpas y BBC

Mae'r BBC yn sefydliad unigryw sy'n eiddo i bobl Prydain ac yn annibynnol ar ddiddordebau gwleidyddol a masnachol.

Pwrpas y BBC, sydd heb newid fawr ddim mewn 80 mlynedd, yw cyfoethogi bywyd pob unigolyn yn y DU beth bynnag eu hoed, incwm, rhyw, hil neu grefydd trwy ddarparu rhaglenni sy'n hysbysu, addysgu a diddanu.

Mae'r BBC yn rym sylweddol yng nghymdeithas y DU, ac yn cyfrannu at ansawdd bywyd y gymdeithas gyfan trwy ei rhaglenni a'i gwasanaethau. Er mwyn parhau i wneud hyn yn llwyddiannus, mae'n rhaid iddi fod o fudd i bawb fel unigolion yn gyson a pharhaus. Dylai gyffwrdd bywydau pobl mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at eu mwynhad fel unigolion, eu hunangyflawniad, a'u gallu i gymryd rhan yn ein cymdeithas.

Mae'r BBC yn creu gwerth cyhoeddus mewn chwe phrif ffordd:

- **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil**: mae'r BBC yn cefnogi bywyd dinesig a thrafodaeth genedlaethol trwy ddarparu newyddion a gwybodaeth ddibynadwy a diduedd sy'n helpu pobl i wneud synnwyr o'r byd a'u hannog i gymryd rhan ynddo.

- **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**: mae'r BBC yn cyfoethogi bywyd diwylliannol y DU trwy ddod â thalent a chynulleidfaoedd at ei gilydd i dorri tir newydd, i ddathlu ein treftadaeth ddiwylliannol, ac i ehangu'r drafodaeth genedlaethol.

- **Hyrwyddo addysg a dysgu**: drwy gynnig byd o gyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol i gynulleidfaoedd o bob oed ym mhob cyfrwng, mae'r BBC yn cynorthwyo i greu cymdeithas gyda gwybodaeth a sgiliau cadarn.

- **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU**: trwy alluogi gwahanol gymunedau'r DU i weld beth sydd ganddynt yn gyffredin a'r hyn sy'n eu gwahaniaethau, mae'r BBC yn ceisio creu cymdeithas unedig a goddefgar drwy well dealltwriaeth.

- **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd**: mae'r BBC yn cefnogi cyfraniad y DU at y byd drwy fod yn un o ddarparwyr newyddion a gwybodaeth ryngwladol mwyaf dibynadwy'r byd a thrwy arddangos y gorau o ddiwylliant y DU i gynulleidfa fyd-eang.

Ac – am y tro cyntaf eleni:

- **Adeiladu Prydain ddigidol**: mae'r BBC yn arweinydd dibynadwy ar gyfer tywys pobl amhrofiadol neu ansicr i'r byd digidol newydd, yn lle diogel i blant, yn ffynhonnell ddibynadwy a chywir ar yr awyr ac ar-lein i'r sawl sydd am gael gwybodaeth, ac yn bartner llawn her i'r defnyddiwr mwy profiadol.

Wrth i'r amgylchedd darlledu ddatblygu – ar draws y llwyfannau teledu, radio a chyfryngau newydd sy'n datblygu – ac wrth i gymdeithas newid, bydd y BBC yn parhau i'n cefnogi wrth weithio a chwarae, gan ddarparu gwerth cyhoeddus yn ei holl raglenni a gwasanaethau amrywiol.

# Teledu

## BBC One

### Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod BBC One yw cael ei gwerthfawrogi fwy nag unrhyw sianel deledu arall yn y DU, gyda'r dewis ehangaf o raglenni o ansawdd ar unrhyw rwydwaith prif ffrwd yn y DU. Rydym yn ymroddedig i ehangu apêl rhaglenni o bob math trwy ddarparu amrywiaeth o bynciau i gynulleidfa eang. Byddwn yn darlledu digwyddiadau chwaraeon a materion cenedlaethol a rhyngwladol, yn rhoi llwyfan i raglenni arloesol ac yn archwilio ffyrdd newydd o gyflwyno pynciau arbenigol.

### Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy[1]** |
|---|---|
| Mae gan BBC One enw da am adlewyrchu syniadau o bob math yn ei rhaglenni comedi, adloniant, drama a chelfyddydol, ac am roi llwyfan i'r doniau creadigol gorau yn y DU a thu hwnt, ddoe a heddiw.<br>Yn benodol eleni:<br>• Bydd BBC One yn cynyddu'r buddsoddiad mewn drama a'r nifer o ddramâu a ddarlledir ar nos Sadwrn gyda drama deuluol (*Robin Hood*) a chyfres newydd ganol wythnos (*New Street Law*).<br>• Bydd yna gyfres newydd ym maes y celfyddydau a cherddoriaeth, *The Impressionists*, a pherfformiad byw o *Les Misérables* o Hyde Park, Llundain.<br>• Bydd comedïau newydd yn cynnwys comedi sefyllfa gan Lee Mack (*Not Going Out*) a French and Saunders yn *Jam a Jerusalem.*<br>• Bydd y sianel yn parhau i gynnal ei rhaglenni adloniant llwyddiannus gyda *Strictly Dance Fever* ac *Only Fools on Horses*. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 45 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth. |

[1] Oni nodir fel arall, mae ymrwymiadau oriau drwy'r ddogfen hon yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol, ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod rhaglenni newyddion BBC One yw ennill bri am gyflwyno adroddiadau a dadansoddiadau o safon, sy'n rhoi sylw llawn i straeon rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol.<br><br>Nod ein rhaglenni materion cyfoes yw parhau gyda'r safonau uchaf o ran bod yn gwbl ddiduedd a thrylwyr, buddsoddi mewn ymchwiliadau hirdymor ac adlewyrchu safbwyntiau o bob math.<br><br>Darlledir tri bwletin newyddion cenedlaethol a rhyngwladol bob diwrnod o'r wythnos, gyda newyddion am 10pm chwe diwrnod yr wythnos, a newyddion rhanbarthol wedi'i gynnwys ym mhob prif fwletin rhwydwaith. Byddwn yn parhau i gynnig rhaglenni newyddion arbennig ar straeon arwyddocaol wrth iddynt ddigwydd ac yn darlledu BBC News 24 dros nos ar BBC One. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 90 awr o raglenni materion cyfoes, gydag o leiaf 48.5 awr o hynny yn yr oriau brig. Bydd *Panorama* yn parhau yn ei slot presennol ar nos Sul ac yn cynnwys wyth rhaglen arbennig yn yr oriau brig. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Un o brif uchelgeisiau BBC One yw sicrhau bod pob math o bynciau arbenigol a difrifol ar gael ac yn berthnasol i gynulleidfa brif ffrwd eang.<br><br>Mae gan y sianel enw da am ei rhaglenni natur a gwyddoniaeth. Mae llawer o'n rhaglenni yn archwilio meysydd gwybodaeth anghyfarwydd mewn ffyrdd arloesol ac unigryw, gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf yn aml fel teledu diffiniad uchel. Byddwn yn darparu cyfleoedd dysgu ychwanegol ar-lein neu drwy deledu rhyngweithiol.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn darlledu rhaglenni dogfen unigol ym maes gwyddoniaeth (*Krakatoa*) a hanes (*Hannibal*) ac ail gyfres o *Planet Earth*.<br>• Bydd rhaglen ddogfen bwysig a gyflwynir mewn dwy ran gan David Attenborough (*State of the Planet*) a rhifyn arbennig o *Test the Nation* yn ganolog i gyfraniad y sianel at dymor Newid yn yr Hinsawdd y BBC.<br>• Bydd yna gyfres wyddonol arwyddocaol gyda Robert Winston, *The Gift of Life*. | • Bydd rhaglenni gwyddoniaeth, byd natur ac addysgol yn ffurfio rhan o'n hymrwymiad i 650 awr o raglenni ffeithiol newydd. |

| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Fel prif sianel deledu brif ffrwd y BBC, mae gan BBC One gyfrifoldeb arbennig o ran ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol o bwys sy'n uno pobl ledled y DU.<br><br>Rydym hefyd wedi ymroi i weithio gyda'n cydweithwyr ledled y DU i gynhyrchu a darlledu rhaglenni sy'n adlewyrchu eu bywydau, diddordebau a phrofiadau.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Cwpan y Byd FIFA – bydd BBC One yn cyflwyno'r gorau o'r digwyddiad chwaraeon pwysig hwn.<br>• Bydd yna gyfres grefyddol fawr newydd, *The Miracles of Jesus*.<br>• Bydd BBC One yn treialu sioe gylchgrawn yn gynnar min nos ganol wythnos. | • O leiaf 80 awr o raglenni crefyddol (fel rhan o gyfanswm o 112 awr ar BBC One a BBC Two).<br>• 260 awr o raglenni chwaraeon.<br>• Ymrwymiad ar y cyd gyda BBC Two i ddarparu cyfanswm o 500 awr o raglenni plant. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC One yn allweddol fel llwyfan i'r BBC helpu cynulleidfa eang i geisio dirnad digwyddiadau a materion byd-eang.<br><br>Mae'r *Ten O'Clock News* yn aml yn arwain gyda straeon rhyngwladol pwysig neu straeon o'r DU sydd â goblygiadau byd-eang iddynt. Trwy ei chymysgedd o raglenni trafod fel *Question Time*, gall y sianel gyflwyno archwiliad o newyddion rhyngwladol a materion cyfoes i gynulleidfa eang.<br><br>Bydd *Panorama* yn parhau i fynd i'r afael â datblygiadau ym materion rhyngwladol, gan sicrhau bod gwylwyr yn cael gwybod ffeithiau a chyd-destun straeon rhyngwladol pwysig.<br><br>Bydd ein darllediadau chwaraeon yn parhau i fod yn elfen allweddol o'n hymrwymiad i sicrhau bod ein rhaglenni rhyngwladol yn parhau i fod yn ddeniadol ac apelgar i gynulleidfa prif ffrwd y DU. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC One yn defnyddio technolegau digidol newydd yn rheolaidd i wella profiad y gynulleidfa o'i rhaglenni. Er enghraifft, bydd yn defnyddio technolegau rhyngweithiol wrth ddarlledu chwaraeon a digwyddiadau pwysig, gan alluogi gwylwyr i reoli mwy ar yr hyn y maent yn ei wylio, sut a phryd.<br><br>Fel prif wasanaeth teledu'r BBC, mae gan BBC One swyddogaeth bwysig o ran cefnogi gwasanaethau eraill y BBC, yn enwedig y sianeli digidol, gan arddangos eu rhaglenni yn rheolaidd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Lleihaodd cynulleidfa'r BBC y llynedd, ond mae'n parhau i gyrraedd mwy o bobl nag unrhyw rwydwaith arall yn y DU.  Y llynedd, darlledwyd rhaglenni oedd â'r nod o wella enw da y BBC am ansawdd a rhagoriaeth, gyda llwyddiannau amlwg i'w gweld ym myd y ddrama (*Bleak House*, *Doctor Who*), byd natur (*Life in the Undergrowth*) a'r celfyddydau (*A Picture of Britain*).  Roedd tymor Affrica yn llwyddiannus hefyd o ran codi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu gwledydd Affrica is-Saharaidd.

Yn 2006/2007 byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni a fydd yn gwella enw da y BBC am ansawdd.

Eleni, bydd y sianel yn ceisio:

- **Cynnal ansawdd ac effaith trwy raglenni ffeithiol arwyddocaol ac ymrwymiad cynyddol i ddarparu rhaglenni materion cyfoes oriau brig.** Bydd yna raglenni pwysig sy'n ymwneud â byd natur, gwyddoniaeth, y celfyddydau a chrefydd, a bydd ymrwymiad y sianel i ddarlledu rhaglenni materion cyfoes yn yr oriau brig yn cynyddu i 48.5 awr, gan gynnwys wyth raglen arbennig o *Panorama*.

- **Gostwng nifer yr ailddarllediadau.** Byddwn yn parhau i weithio tuag at ein targed penodedig o lai na 8.5% o ailddarllediadau, gangynnwys trosglwyddiadau o sianeli digidol, yn ystod yr oriau brig erbyn diwedd 2006/2007.

- **Ehangu'r gynulleidfa gyda dramâu poblogaidd i'r teulu a rhaglenni adloniant a all ddenu cynulleidfa iau,** gan adeiladu ar lwyddiant *Doctor Who* ar nos Sadwrn gyda mwy o ddramâu i'r teulu a drama gynnar min nos ganol wythnos, ac ar lwyddiant *Strictly Come Dancing* gyda mwy o raglenni adloniant o ansawdd uchel sy'n eang eu hapêl.

- **Cadarnhau ei henw da fel y sianel ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol** trwy ddarlledu Cwpan y Byd FIFA a digwyddiadau eraill.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.
- 70% o raglenni a 90% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (darlledIad cyntaf ac ailddarllediad).
- Cynnal y patrwm cyffredinol cyfredol o raglenni newyddion gydol y dydd, sef o leiaf 1,380 awr o raglenni newyddion rhwydwaith, gydag o leiaf 275 awr yn yr oriau brig (6–10.30pm).
- O leiaf 3,920 awr o raglenni newyddion rhanbarthol, gydag o leiaf 2,010 awr yn yr oriau brig.

Yn ogystal, mae BBC One yn rhannu'r ymrwymiadau canlynol:

- 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau sy'n agos at yr oriau brig (e.e. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One [ymrwymiad BBC One a BBC Two].
- O ran materion cyfoes, bydd BBC One a BBC Two rhyngddynt yn darparu o leiaf 365 awr o raglenni rhwydwaith, gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.
- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol ym mhob genre ar BBC One a Two, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.
- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau cynyrchiadau, y tu allan i'r M25.
- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

# BBC Two

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC TWO yn sianel amrywiol sy'n cyfuno pynciau ffeithiol difrifol ac arbenigol gyda chomedi ddyfeisgar a drama unigryw i gyflwyno rhaglenni heriol a deallus i gynulleidfa eang.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae dysgu ffurfiol ac anffurfiol yn gonglfeini amserlen BBC Two, sy'n cynnig rhaglenni ffeithiol gan mwyaf gyda manteision o ran addysg a dysgu.<br><br>Dyma gartref go iawn amrywiaeth eang o bynciau arbenigol – gan gynnwys byd natur, gwyddoniaeth a busnes – ac amrywiaeth o raglenni gan y Brifysgol Agored.<br><br>Ein huchelgais sylfaenol yw ehangu gorwelion ein gwylwyr, gan eu cyflwyno i feysydd gwybodaeth anghyfarwydd yn aml. Bydd llawer o'n rhaglenni yn cael eu cefnogi gan ddeunyddiau teledu rhyngweithiol neu ar-lein.<br><br>Bydd cyfresi ffeithiol cyfarwydd fel *Horizon*, *Timewatch* a *Natural World* yn ymroi i chwilota am y straeon gorau posib, a'u cyflwyno yn y ffordd orau. Ategir y rhain eleni gan raglenni arwyddocaol fel *Galapagos* a *Caribbean*.<br><br>Byddwn yn parhau'n gartref i'r rhaglenni plant gorau gydag amrywiaeth eang o raglenni i'r gynulleidfa heb wasanaeth digidol trwy gyfrwng CBBC a CBeebies ar draws sawl genre - o newyddion i ddramâu i raglenni cylchgrawn. Yn fwy ffurfiol, byddwn yn darlledu rhaglenni ysgolion bob bore o'r wythnos.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Bydd BBC Two yn darlledu cyfres hanes, *The Secret Road to Nuremburg*. | • Byddwn yn cynhyrchu 500 awr o raglenni ffeithiol newydd.<br><br>• Byddwn yn rhannu ymrwymiad gyda BBC One i ddarparu 500 awr o raglenni plant. |

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae gan BBC Two ymrwymiad cryf i'r celfyddydau, cerddoriaeth, drama, comedi a ffilm. Rydym yn ceisio sicrhau rhagoriaeth greadigol ac yn ceisio adeiladu ar ein henw da ym maes y celfyddydau a rhaglenni comedi a drama wreiddiol ac arloesol a darparu cartref i ddiddordebau'r genedl.<br><br>Bydd *The Culture Show* yn rhoi lle rheolaidd i newyddiaduriaeth yn canolbwyntio ar ddiwylliant a'r celfyddydau yn ystod yr oriau brig, gan ategu ein hymrwymiad hirdymor i ddarlledu a chyflwyno'r celfyddydau gydol y flwyddyn trwy ein rhaglenni rheolaidd *Arena* a *Newsnight Review*.<br><br>Byddwn yn parhau i ddarparu pob math o raglenni a sylwebaeth ar berfformiadau cerddorol, yn gerddoriaeth gyfoes a chlasurol. Bydd hyn yn cynnwys darlledu Proms y BBC, a pherfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus eraill ar raddfa fawr.<br><br>Bydd rhai o raglenni BBC Four yn cael eu darlledu ar BBC Two a byddwn yn parhau i ddatblygu'r berthynas agos hon, gan gynnwys dangos rhaglenni gorau BBC Four yn amserlen 'Four on Two'.<br><br>Byddwn hefyd yn gweithio gyda BBC Three, gan gyflwyno ei comedïau gwreiddiol i gynulleidfaoedd ehangach.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Bydd rhaglenni celfyddydol yn cynnwys *The Power of Art* a gyflwynir gan Simon Schama, tra ym maes cerddoriaeth bydd BBC Two yn parhau i roi sylw i'r cyfansoddwyr mawr gyda'r rhaglen *In Search of Tchaikovsky*.<br>• Bydd BBC Two yn lansio comedi newydd gan Steve Coogan ac yn darlledu addasiad o'r nofel *The Line of Beauty*, a enillodd Wobr Booker. | • Byddwn yn darparu o leiaf 200 awr o raglenni celfyddydol a cherddoriaeth |

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| --- | --- |
| Mae BBC Two yn cynnig cymysgedd o raglenni dadansoddi'r newyddion, cyfresi a rhaglenni unigol ar faterion cyfoes sy'n trafod materion a safbwyntiau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol yn ddiduedd, yn onest ac yn deg.<br><br>Mae'n darllediadau o San Steffan a'r seneddau a'r cynulliad cenedlaethol, cynadleddau gwleidyddol a darllediadau gwleidyddol yn hyrwyddo dinasyddiaeth ac yn rhoi llwyfan amlwg i drafodaeth wleidyddol. Ein nod yw cynnig mwy o raglenni gwleidyddol ac archwilio pynciau heriol yn fanylach na sianeli prif ffrwd eraill.<br><br>*Newsnight* yw ein prif raglen newyddion a materion cyfoes o hyd, sy'n dod â chyfweliadau o bwys i'r gynulleidfa. Rydym yn ehangu'r rhaglen y tu hwnt i'w hamserlen arferol yn gyson er mwyn trafod materion pwysicaf y dydd yn fwy manwl.<br>Yn benodol eleni:<br>• Bydd BBC Two yn cyfrannu at dymor Newid yn yr Hinsawdd y BBC gyda rhaglenni fel *If the Oil Runs Out*.<br>• Bydd y rhaglenni dogfen yn cynnwys *Parole Board* sy'n dilyn bywyd a gwaith swyddogion parôl. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 100 awr o newyddion.<br>• Byddwn yn darlledu o leiaf 240 awr o faterion cyfoes. |

| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Rydym yn cydnabod amrywiaeth ein cynulleidfaoedd ac yn gweithio i roi cyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd, yn ogystal â gwasanaethu anghenion unigryw, arbenigol.<br><br>Rydym yn rhoi sylw i lawer o brif ddigwyddiadau chwaraeon y DU a byddwn yn parhau i ddarlledu'r digwyddiadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar y sianel ac sy'n dod â chymunedau ynghyd.<br><br>Byddwn yn parhau i fodloni dyheadau a diddordebau'r gynulleidfa mewn perthynas â phob math o weithgareddau hamdden, fel moduro (*Top Gear*), garddio (*Gardeners' World*) a phêl-droed (*Match of the Day 2*).<br><br>Rydym yn ymroddedig i roi sylw i straeon a threftadaeth leol ar y sianel. Byddwn yn darlledu perfformiadau o bob cwr o'r DU, gan gynnwys traddodiadau a digwyddiadau diwylliannol unigryw i'r gwledydd a'r rhanbarthau unigol, fel yr Eisteddfod.<br><br>Rydym yn rhoi llwyfan i amrywiaeth o raglenni arbennig sydd wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd yn yr Alban, yn Nghymru a Gogledd Iwerddon ac â'r nod o archwilio materion lleol ac adlewyrchu natur amrywiol y cenhedloedd rheini yn ôl iddynt.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Bydd *Restoration Village* yn ehangu cysyniad *Restoration* o adeiladau unigol i bentrefi ledled y DU.<br><br>• Bydd *Springwatch* yn dychwelyd, gan archwilio cynefinoedd anifeiliaid ledled y DU. | • Byddwn yn darlledu 430 awr o chwaraeon.<br><br>• Byddwn yn darparu o leiaf 20 awr o raglenni crefyddol (fel rhan o ymrwymiad i 112 awr ar draws BBC One a BBC Two). |

| Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd | Ymrwymiadau mesuradwy |
| --- | --- |
| Bydd BBC Two yn cynnal ei harlwy creiddiol o faterion rhyngwladol trwy gyfrwng This World, a bydd rhaglenni pellach yn ystyried trywyddau a ffyrdd newydd o drin pynciau er mwyn dod â pherspectif rhyngwladol i gynulleidfa ehangach<br><br>Bydd ein rhaglenni dadansoddi materion cyfoes a newyddion yn parhau i gynnwys pwyslais rhyngwladol unigryw. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd egluro’r cysylltiadau cynyddol rhwng materion rhyngwladol ac eleni, byddwn yn canolbwyntio’n arbennig ar straeon fel newid yn yr hinsawdd, lle mae cyd-ddibyniaeth yn dod yn fwyfwy amlwg.<br><br>Bydd ein rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddydol hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i ddod â’r gorau yn y byd i wylwyr y DU.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Bydd BBC Two yn parhau i roi sylw i faterion rhyngwladol yn y rhaglen *This World*, a bydd y rhaglenni sy’n deillio o’r rhaglen honno yn edrych ar ddulliau newydd o gyflwyno safbwynt rhyngwladol i gynulleidfa eang.<br><br>• Bydd yna gyfresi dogfen pwysig hefyd ar fywyd yn Tsieina heddiw, cyfres ar nodweddion eithafol bywydau pobl sy’n byw ger y Cyhydedd, a rhaglenni arbennig i ddathlu 200 mlynedd ers Deddf Dileu Caethwasiaeth. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Two yn cysylltu ei rhaglenni llinol i gynnwys rhyngweithiol, yn arbennig agweddau ffeithiol, gan alluogi cynulleidfaoedd i ddilyn eu diddordebau personol i’r graddau y mae’r defnyddiwr ei hun yn ei ddymuno.<br><br>Rydym hefyd yn darparu gwefannau pwrpasol ar gyfer rhaglenni i lawer o raglenni’r sianel.<br><br>Eleni:<br><br>• Fel rhan o arbrawf, bydd BBC Two yn arbrofi gyda gwefan well i ddefnyddwyr band eang. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Cafodd BBC Two flwyddyn lwyddiannus iawn yn 2005/2006 gyda'i chomedi newydd (*The Catherine Tate Show*), ei rhaglenni dogfen (*The Lost World of Mitchell a Kenyon*) a rhaglenni ffeithiol cyfoes (*Dragon's Den*, *Who Do You Think You Are?*, *Monastery*). Cafodd yr amserlen gynnar min nos ganol wythnos ei chyflwyno'n llwyddiannus gyda rhaglenni newydd fel *Masterchef Goes Large* a *Strictly Come Dancing It Takes Two*. Cafwyd llawer o raglenni arloesol, a dulliau newydd o gyflwyno'r mathau o raglenni sydd wedi dod ag enw da i BBC Two sef rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol arbenigol.

Y flaenoriaeth am y flwyddyn i ddod bydd cryfhau cyrhaeddiad drwy gyfnerthu arlwy rhaglenni ffeithiol poblogaidd a chomedi. Ein gobaith hefyd yw ehangu mynediad i gynnwys rhaglenni'r sianel trwy gyfrwng llwyfannau newydd fel rhyngrwyd band eang.

Eleni, mae'r sianel yn ceisio:

- **Cynnal y cyraheddiad uchaf posib ar gyfer y sianel** trwy gynyddu i'r eithaf effaith genre megis comedi, drama, chwaraeon a rhaglenni nodwedd cyfoes

- **Parhau i gryfhau'r amrywiaeth o raglenni ffeithiol poblogaidd sy'n apelio i gynulleidfaoedd iau**, er enghraifft gyda fformatau ffeithiol mewn meysydd pwnc fel busnes (fel *The Apprentice*).

- **Atgyfnerthu rhaglenni comedi BBC Two** gyda chyfresi eraill o *QI*, *Kath a Kim* ac *Extras*, **a chwilio am dalent a rhaglenni newydd**.

- **Archwilio sut gall band eang ddwysáu perthynas BBC Two gyda chynulleidfaoedd** trwy arbrofi gyda fersiwn well o'r wefan i ddefnyddwyr band eang.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

- 70% o raglenni a 80% o raglenni oriau brig i fod yn rhai gwreiddiol (darllediad cyntaf ac ailddarllediad).

Yn ogystal, mae BBC Two yn rhannu'r ymrwymiadau canlynol:

- O ran materion cyfoes, bydd BBC One a BBC Two rhyngddynt yn darparu o leiaf 365 awr o raglenni materion cyfoes rhwydwaith, gydag o leiaf 105 awr yn yr oriau brig.

- O leiaf 6,580 awr o raglenni rhanbarthol ym mhob genre, gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol ar gyfer BBC One.

- Dylai o leiaf 95% o raglenni rhanbarthol gael eu gwneud yn yr ardal berthnasol [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

- 1,030 awr o raglenni rhanbarthol yn yr oriau brig, a 355 awr arall ar adegau sy'n agos at yr oriau brig (e.e. yr awr bob ochr i'r oriau brig) ac eithrio newyddion ar BBC One [ymrwymiad BBC One a BBC Two].

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 20 o'r oriau cynyrchiadau, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

# BBC Three

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod BBC Three yw rhoi cyfle i ddoniau a rhaglenni arloesol sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd iau yn bennaf. Mae'r sianel yn ymrwymo i ddarlledu cymysgedd o newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth, y celfyddydau, cynnwys ffeithiol sy'n cynnig gwybodaeth a rhaglenni am faterion rhyngwladol, ynghyd â chyfresi drama, comedi ac adloniant unigryw o'r radd flaenaf.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Three yn ymroddedig i arloesed creadigol, datblygu doniau newydd a bod yn feiddgar. Un o'n prif amcanion yw bod yn hafan greadigol a phwysig ar gyfer arbrofi i'r BBC a chyfrannu'n sylweddol ac mewn modd unigryw at economi greadigol y DU.<br><br>Rydym yn ymroddedig i gomedi a drama newydd o Brydain, ac yn rhoi llwyfan reolaidd i awduron a pherfformwyr newydd a'u syniadau. Rydym hefyd yn rhoi'r cyfle i awduron a pherfformwyr sefydledig roi cynnig ar bethau newydd, gwahanol.<br><br>Byddwn yn parhau i geisio gadael ein hôl ar yr amserlen yn y ffordd rydym yn ymdrin â'n rhaglenni: o berfformiadau a digwyddiadau cerddorol i wneud rhaglenni mewn ffordd sy'n denu cynulleidfaoedd iau a'u cynorthwyo i ymddiddori mewn cynnwys nad ydynt yn dod ar ei draws fel arfer.<br><br>Rydym yn mwynhau perthynas gref iawn gyda'r sector cynhyrchu annibynnol, ac rydym yn disgwyl darparu llwyfan i raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r BBC a thu hwnt i Lundain.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Bydd digwyddiadau cerddorol yn cynnwys digwyddiad byw ar raddfa fawr ar y stryd yn portreadu Dioddefaint Crist.<br>• Bydd sawl rhaglen gomedi Brydeinig newydd hefyd, gan gynnwys *Supermodel* gan awdur comedi newydd, ac *I'm with Stupid* a *Little Miss Jocelyn*, a fydd yn cynnwys doniau o gefndiroedd amrywiol.<br>• Bydd y sianel yn hyrwyddo mentrau doniau i chwilio am y genhedlaeth nesaf o wneuthurwyr rhaglenni dogfen ac animeiddwyr.<br>• Gwahoddir y gynulleidfa i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ysgrifennu geiriau cân bop yn *Only Words*. | • Byddwn yn darparu o leiaf 50 awr o raglenni cerddoriaeth a chelfyddydol newydd.<br><br>Gweler ein hymrwymiadau statudol hefyd (ar ddiwedd yr adran hon) sy'n cynnwys ein hymrwymiadau cyffredinol i darddiadau, cynhyrchu rhanbarthol a chynhyrchu annibynnol. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Fel gwasanaeth digidol yn unig gydag un o'r lefelau uchaf o fuddsoddiad mewn rhaglenni yn y BBC, rydym yn ganolog yn ymdrechion y BBC i adeiladu Prydain ddigidol.<br><br>Rydym hefyd yn ymroddedig i arloesedd technolegol ac yn ceisio bod ar y blaen wrth fanteisio ar dechnolegau newydd. Rydym yn defnyddio llwyfannau cyfryngau lluosog i alluogi cynulleidfaoedd i gael mynediad i'n cynnwys mewn ffyrdd sy'n berthnasol a defnyddiol iddynt. Byddwn yn parhau i arbrofi gyda thechnolegau newydd sy'n rhan gyffredin o fywydau ein gwylwyr.<br><br>Rydym yn cydweithio gyda gwasanaethau teledu eraill y BBC i hyrwyddo manteision gwasanaethau digidol, drwy ddangos perfformiadau am y tro cyntaf neu gynnig cyfle arall i wylio rhaglenni BBC One neu BBC Two, a thrwy ychwanegu dyfnder ac effaith at eu rhaglenni gyda chynnwys atodol neu ddeilliedig.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn cefnogi prosiect comedi newydd ar gyfer doniau newydd yn seiliedig ar y cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a'i gyflwyno ar y rhyngrwyd.<br>• Byddwn yn parhau i ddangos rhaglenni am y tro cyntaf drwy ryngrwyd band eang. | • Bydd 20% o'n rhaglenni'n cynnig cymorth rhyngweithiol. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Three yn ceisio creu enw da i'w hun am raglenni sy'n cynyddu gwybodaeth pobl drwy fynd i'r afael â meysydd newydd mewn ffyrdd sy'n teimlo'n wahanol, yn newydd ac yn ddiddorol i gynulleidfaoedd iau.<br><br>Byddwn yn defnyddio dulliau a fformatau gwreiddiol mewn meysydd ffeithiol arbenigol fel gwyddoniaeth, busnes, magu plant, credo a hil, hyrwyddo dysgu anffurfiol ac ehangu gorwelion unigolion.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn dinoethi chwedlau gwyddonol yn *Bad Science* ac yn cynnig cyfres gyda mynediad heb ei debyg i ysgol ym Mhrydain, ynghyd â darlledu cyfres newydd o *Honey We're Killing the Kids*. | • 50 awr o raglenni ffeithiol newydd a fydd yn cynyddu gwybodaeth. |

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae newyddion, materion cyfoes a rhaglenni dogfen yn rhan bwysig o'r arlwy amrywiol a gynigir gan BBC Three.<br><br>Mae'n hanfodol bod cyflwyniad y gwahanol fathau o raglenni ar y sianel yn diwallu anghenion ein cynulleidfa o oedolion ifanc, mewn amrywiaeth o fformatau, ac felly rydym yn ceisio darlledu rhaglenni arloesol ac unigryw.<br><br>Cyflwynir newyddion mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i gynulleidfa iau: mae bwletinau penawdau newyddion rheolaidd, byr, fin nos yn diwallu anghenion cynulleidfa sy'n gofyn llawer ac sydd wedi arfer gwylio sianeli newyddion parhaus a chyrchu'r rhyngrwyd.<br><br>Mae'n rhaglenni materion cyfoes a dogfen wedi eu cynllunio i adlewyrchu bywyd yn y DU mewn ffordd sy'n apelio at ein gwylwyr, ac sy'n barod i wynebu materion dadleuol wrth chwilio am y gwir.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn darparu bwletin newyddion bob awr hyd at hanner nos yn ystod yr wythnos.<br><br>• Bydd rhaglenni materion cyfoes a dogfen yn cynnwys cyfresi newydd o *Mischief* a rhaglen ddogfen ar fywyd mewn carchar yn y DU. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 15 awr o raglenni materion cyfoes newydd.<br><br>• Bydd tua 15% o'r oriau darlledu yn cynnwys newyddion, materion cyfoes, addysg, cerddoriaeth a'r celfyddydau. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Nod BBC Three yw cyflwyno cynulleidfa iau benodol i amrywiaeth eang o raglenni ym mhob genre, yn enwedig pynciau na fyddent wedi cael profiad ohonynt fel arall o bosib. Rydym hefyd yn gobeithio creu effaith barhaus trwy ymdrin â phynciau sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd iau a sut y maen nhw'n byw eu bywydau. Bydd cysylltiadau teuluol yn parhau yn nodwedd gref.<br><br>Rydym yn awyddus iawn i adlewyrchu amrywiaeth ac agweddau amlddiwylliannol cymdeithas y DU yn ein rhaglenni, drwy bortreadau ar y sgrin ac yn y cynnwys y byddwn yn rhoi sylw iddo. | 33% o gyllideb gymwys i'w wario ar raglenni wedi eu cynhyrchu y tu allan i'r M25. |

| **Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Sianel Brydeinig yw BBC Three yn y bôn sy'n ymrwymedig i dalent a chynnwys o'r DU. Ond rydym yn cydnabod nad ydym yn bodoli mewn gwagle ac felly o bryd i'w gilydd byddwn hefyd yn ceisio sbarduno diddordeb y gynulleidfa mewn materion byd-eang yn ein rhaglenni materion cyfoes neu fynd i'r afael â safbwynt ehangach y gwylwyr ar y byd mewn meysydd rhaglenni eraill. Fodd bynnag, nid yw'r cynnwys hwn yn ganolog yn rhaglenni'r sianel.<br>Yn benodol eleni:<br>• Bydd Jonathan Ross yn cyflwyno dwy raglen ddogfen newydd ar Japan gyfoes. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006 darlledodd BBC Three raglenni cryf, yn enwedig rhaglenni comedi a ffeithiol, a gynorthwyodd y sianel i gyrraedd mwy o'i chynulleidfa darged. Mewn wythnos arferol, mae BBC Three yn cyrraedd tua chwarter y gwylwyr 25-34 oed mewn cartrefi digidol. Llwyddodd y sianel i ehangu amrywiaeth ei rhaglenni ffeithiol sy’n cynyddu gwybodaeth, gyda llwyddiant y rhaglen ddogfen (*The Week the Women Went*) ac ym maes magu plant gyda *The House of Tiny Tearaways*. Roedd trydedd gyfres *Little Britain* yn llwyddiant i’r sianel, a rhoddwyd llwyfan i dalentau comedi newydd y DU hefyd gyda *Tittybangbang*. Parhaodd y sianel i arloesi ar lwyfannau gwahanol, gan gynnig cynnwys drwy gyfrifiaduron band eang a dyfeisiadau symudol.

Yr her i BBC Three yn y flwyddyn nesaf fydd cynnal momentwm y twf hwn a'i amcanion strategol allweddol yw:

- **Ehangu apêl a chyrhaeddiad** drwy ei raglenni aml-genre, yn arbennig drwy ehangu'r amrywiaeth o raglenni ffeithiol unigryw sy’n cynyddu gwybodaeth, gan barhau i ymestyn disgwyliadau cynulleidfaoedd BBC Three fel llwyfan i gomedi arloesol Prydain a cheisio bod yn fwy cyson a chryf yn y rhaglenni cynnar min nos.
- **Cynyddu enw da'r sianel am ddulliau newydd o gynhyrchu rhaglenni**, gan gynnwys digwyddiadau cerddorol arloesol, mawr eu heffaith a chyfleoedd newydd i'r gynulleidfa gymryd rhan a chyfrannu at ganlyniad y rhaglenni. Bydd hefyd yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o lwyfannau digidol i sbarduno arloesedd ac ehangu mynediad i gynnwys y sianel a rhyngweithio gyda'r cynnwys hwnnw.
- **Creu mentrau newydd ar gyfer doniau newydd** i'w meithrin a'u datblygu.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 80% o oriau, a 70% o oriau brig, yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, heb gynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Sicrhau bod o leiaf 25% o oriau cymwys yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol.

- Bydd o leiaf 90% o oriau rhaglenni yn tarddu o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 20 o'r oriau cynyrchiadau, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

# BBC Four

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Sianel ar gyfer cynulleidfaoedd sydd eisiau rhagor o ddyfnder ac amrywiaeth yn yr hyn maent yn ei wylio yw BBC Four. Gyda'r nod o gael ei gweld fel y sianel deledu fwyaf deallusol a diwylliedig ym Mhrydain, mae BBC Four yn gyfuniad unigryw o raglenni dogfen, perfformiadau, cerddoriaeth, ffilmiau a rhaglenni nodwedd amserol sy'n cynnig dewis amgen i'r rhaglenni prif ffrwd arferol.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae cyfleu bwrlwm ein bywyd creadigol a diwylliannol yn ganolog i BBC Four.<br><br>Ym maes cerddoriaeth, byddwn yn gweithio gyda rhannau eraill o'r BBC, yn enwedig BBC Two a BBC Radio 3, i adlewyrchu bywyd cerddorol y wlad mewn amrywiaeth eang iawn o gerddoriaeth - clasurol, jazz, gwerin, cerddoriaeth y byd, roc oedolion a cherddoriaeth ysgafn - a dod â'r perfformiadau a'r perfformwyr gorau sydd ar gael o bob gwlad a rhanbarth at ei gilydd i gynulleidfa eang y DU.<br><br>Mae amrywiaeth a dyfnder cyffelyb i'w weld yn y celfyddydau a diwylliant yn amrywio o arlunio, pensaernïaeth a ffotograffiaeth i lenyddiaeth a syniadau. Gydag eraill, mae BBC Four yn cyfrannu'n ymarferol at fywyd llenyddol ac artistig y DU.<br><br>Rydym yn ymroddedig i raglenni gwreiddiol gan amrywiaeth o gyflenwyr ar draws sawl genre gwahanol.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Cynnig tymor o Ffilmiau Mud Prydeinig.<br><br>• Cefnogi cystadleuaeth Côr y Flwyddyn gyda thymor Corau.<br><br>• Archwilio bywyd Evelyn Waugh yn *The Waughs – Fathers and Sons*. | Gweler ein hymrwymiadau statudol (ar ddiwedd yr adran hon) sy'n cynnwys ein hymrwymiadau cyffredinol i darddiadau, oriau brig a chynhyrchu rhanbarthol. |

| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae BBC Four yn ceisio bod yn hafan i'r ffilmiau, y teledu a'r rhaglenni dogfen rhyngwladol ac ieithoedd tramor gorau.<br><br>Mae naws byd-eang unigryw yn ein rhaglenni yn cynorthwyo pobl i gael gwell dealltwriaeth o ddigwyddiadau, pobl a diwylliannau'r byd, a rhoi diwylliant y DU mewn cyd-destun byd-eang. Rydym yn llais i bobl o bedwar ban byd, gan sicrhau bod eu straeon a'u profiadau'n cael eu clywed ac rydym yn darlledu rhaglenni wedi'u his-deitlo yn ystod oriau brig.<br><br>Ym maes adloniant, mae gan BBC Four swyddogaeth unigryw i gyflwyno'r diwylliant creadigol gorau o bedwar ban byd a denu'r gynulleidfa i ymddiddori ynddo. Trwy gyfrwng cyfresi *Saturday Cinema* a *Storyville,* rydym yn ymroddedig i fod yn gartref sefydledig i ffilmiau a rhaglenni dogfen rhyngwladol yn y DU.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Cwblhau ei thrioleg o Ogledd Corea gyda *Crossing the Line*.<br>• Cyflwyno cyfres chwe rhan ar Balas Versailles.<br>• Parhau i ddatblygu effaith ei Wobrau Sinema Byd blynyddol. | • Byddwn yn dangos o leiaf 20 o ffilmiau rhyngwladol newydd am y tro cyntaf.<br>• Byddwn hefyd yn darlledu o leiaf 30 o raglenni dogfen newydd o bedwar ban byd. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Four yn cyflwyno gwerth addysgol mewn rhaglenni o bob math sy'n aml yn cynnig dadansoddiad llawer mwy trylwyr na'r rhelyw.<br><br>Mae mwyafrif ein rhaglenni yn rhai ffeithiol ac yn cynyddu gwybodaeth y gynulleidfa. Maent yn cynnwys rhaglenni ffeithiol arwyddocaol ynghyd â rhai ar bynciau penodol. Er enghraifft, rydym yn gallu cynnig gwell cyd-destun a dyfnder drwy ein cynnwys ein hun (y mae ymrwymiad statudol i'w ddarparu) a thrwy gynnyrch sy'n uniongyrchol gysylltiedig â rhaglenni ar sianeli eraill y BBC. Byddwn yn archwilio materion cymhleth yn drylwyr, gan gyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau i'n gwylwyr.<br><br>Rydym yn ceisio bod yn fywiog, herio a difyrru, a sbarduno ymateb gan y gwylwyr sy'n mynd y tu hwnt i gyfnod rhaglen unigol.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Archwilio effaith y 18fed ganrif yn drylwyr – *The Century That Made Us* – gyda thymor o raglenni.<br>• Archwilio hanes anthropoleg gyda thymor o raglenni.<br>• Parhau i ddarlledu *Journeys from the Centre of the Earth* i weld sut mae daeareg wedi effeithio ar ddiwylliant ymylon y Môr Tawel yn *Ring of Fire*. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Four yn sianel ddigidol. Mae'n gymysgedd o raglenni wedi'u cynllunio i apelio at grŵp oed hŷn sydd wedi bod yn llai parod i fanteisio ar deledu digidol yn draddodiadol. Byddwn yn parhau i ddarparu amserlen sy'n frith o raglenni sy'n herio a chyfoethogi ar draws amrywiaeth eang o bynciau ac arddulliau.<br><br>Bydd ein gwefan a'n grwpiau trafod ar-lein yn parhau i annog y cymunedau rhithwir hyn i rannu safbwyntiau a syniadau.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Adeiladu ar lwyddiant y gyfres ryngweithiol aml-lwyfan *Digital Picture of Britain*.<br><br>• Sbarduno cynulleidfaoedd i gymryd rhan yn y tymor Newid yn yr Hinsawdd drwy eu hannog i neilltuo amser cyfrifiadur ar gyfer prosiect modelu'r hinsawdd lleol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Four yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd o bob math archwilio diddordebau arbennig – o gerddoriaeth werin i sinema mewn ieithoedd tramor.<br><br>Byddwn yn parhau i roi sylw i ddigwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd a mynegi diwylliant lleol, gan gynnwys ein hymrwymiad parhaus i *Celtic Connections*.<br><br>Mae BBC Four hefyd yn helpu cynulleidfaoedd i ddathlu amrywiaeth Prydain a'i chymdeithas trwy adlewyrchu'r gymdeithas honno yn ei chyfanrwydd.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Darlledu o ŷ yl tân Llychlynol Shetland *Up Helly Aa.*<br><br>• Archwilio cwlt ffuglen wyddonol Prydain gyda *Si Fi Britannia*. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Four yn diwallu angen pobl i ddeall digwyddiadau cyfoes yn eu cyd-destun cywir.<br><br>Mae *The World*, bob nos o'r wythnos yn ystod oriau brig yn ganolog i ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes y sianel. Mae hon a rhaglenni materion cyfoes fel *Storyville* yn darparu cipolwg rhyngwladol ar y byd.<br><br>Mae trafodaethau a chyfweliadau hir yn parhau yn rhan bwysig o gymysgedd y sianel.<br><br>Yn benodol eleni, bydd BBC Four yn:<br><br>• Cryfhau ei hymrwymiad i gyfweliadau hir gyda chyfres newydd *Mark Lawson Talks To...*<br><br>• Archwilio bywyd gwledig gyda *The Perfect Village*.<br><br>• Archwilio problemau heneiddio yn y drydedd o raglenni dogfen personol Ray Gosling. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006 gadawodd BBC Four ei marc gyda chyfresi celfyddydau arloesol (*Animation Nation*, *Asian Invasion gyda Jonathan Ross*), cerddoriaeth (*African Rock 'n' Roll Years*), gwleidyddiaeth (*Tory! Tory! Tory!*) a rhaglenni dogfen arsylwadol (*African Schol*, *A Very English Village*). Cynyddwyd y rhaglenni hanes a gwyddoniaeth hefyd gyda chynnydd o 25%yn y buddsoddiad mewn rhaglenni ffeithiol arbenigol.

Roedd tymhorau pwysig yn cynnwys *The Lost Decade*, *Folk Britannia*, *Lefties* and *Tory! Tory! Tory!*, *Europe Today* a thymor o ffilmiau Prydeinig, wythnos o ddathlu pen-blwydd *Arena* yn 30, Bob Dylan, Hitler's Helpers, Ghost Stories a Conan Doyle.

Mae cynulleidfaoedd yn cysylltu'n gynyddol â chynnyrch rhaglenni'r sianel ar y wefan - llwythwyd 80,000 o ffotograffau arni yn ystod y fenter *Digital Picture of Britain* ac mae rhaglenni BBC Four yn ymddangos yn gyson ymhlith yr 20 rhaglen ar-alw a wylir fwyaf ar y BBC.

Derbyniodd mwy a mwy o bobl y sianel yn ystod y flwyddyn a blaenoriaeth barhaus y sianel fydd parhau â'r twf hwn drwy ehangu ei hapêl. Byddwn yn gwneud hyn yn 2006/2007 drwy:

- **Barhau i ehangu apêl BBC Four** gyda chomedi arloesol, rhaglenni drama cyfoethocach ac amrywiaeth ehangach o nosweithiau thema ar bob math o bynciau.

- **Comisiynu tymhorau mwy o raglenni cysylltiedig:** drwy adeiladu ar lwyddiant *The Lost Decade*, bydd BBC Four yn creu tymhorau 18fed Ganrif ac Anthropoleg yn y flwyddyn nesaf.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 70% o oriau, a 50% o oriau brig, yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, heb gynnwys ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Bydd o leiaf 70% o raglenni BBC Four yn tarddu o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau cynyrchiadau, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU.

# Cbeebies

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae CBeebies yn cynnig cymysgedd o raglenni newydd o ansawdd uchel sydd wedi'u cynhyrchu'n y DU i addysgu a difyrru cynulleidfa ieuengaf y BBC. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o raglenni cyn-ysgol sydd â'r nod o annog dysgu trwy chwarae ymhlith plant pump oed ac iau, a hynny mewn amgylchedd sy'n ddiogel bob amser.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Bydd CBeebies yn parhau i gynnig cymysgedd o addysg ac adloniant ar sail 'dysgu trwy chwarae'.<br><br>Caiff y rhan fwyaf o'r cynnwys ei gysylltu â Chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a'i ddatblygu a'i gynhyrchu gan arbenigwyr plant iau. Mae enghreifftiau'n cynnwys *Number Jacks* (teitl gwaith) a *Something Special.* Mae gan CBeebies ymrwymiad i ddarlledu mwy o raglenni addysgol na sianeli eraill sy'n targedu cynulleidfa debyg.<br><br>Mae bbc.co.uk/cbeebies a'n gwasanaethau teledu rhyngweithiol yn parhau i gynnig cynnwys addysgol ac adloniadol i blant, rhieni a gwarchodwyr.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd CBeebies yn lansio ei ymgyrch *Healthy Eating Active*.<br><br>• Bydd *Springwatch*, rhan o dymor ledled y BBC, yn cynnig y cyfle i gynulleidfa ieuengaf y wlad gael blas unigryw ar natur yn y gwanwyn. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Bydd CBeebies  yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni o'r DU, sy'n ei wneud yn unigryw yn y farchnad.<br><br>Bydd y cynnwys yn ennyn diddordeb plentyn mewn pob math o bynciau o gelf a choginio i gerddoriaeth a rhythm. Mae enghreifftiau'n cynnwys *Boogie Beebies* (gyda'i gymysgedd o ddawnsio a chaneuon), *Big Cook Little Cook* (coginio) a *Doodle Do* (cynllunio a gwneud).<br><br>Bydd rhaglenni cylchgrawn fel *Tikkabilla* yn cynnig taith o ddarganfod a dysgu tra bydd ein rhaglenni drama a storïol, er enghraifft *The Roly Mo Show*, yn parhau i danio dychymyg plant. Bwriadwn gyd-gynhyrchu rhaglen animeiddio o safon yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Mae bbc.co.uk/cbeebies yn estyniad naturiol i'r gwasanaeth teledu ac yn darparu cynnwys gwreiddiol ychwanegol, gemau a chyfleoedd creadigol i blant iau ryngweithio a chymryd rhan gyda'u hoff gynnwys.<br><br>Byddwn yn parhau i annog cyfranogiad creadigol yn y sianel yn ddyddiol, o ddathlu pen-blwyddi i ddefnyddio'r cymwysiadau teledu rhyngweithiol a ddatblygir yn benodol i gefnogi ac ategu rhaglenni'r sianel.<br><br>Eleni byddwn yn:<br><br>• Lansio animeiddiadau newydd yn y DU gydag *Underground Ernie* ac ail dymor o *Charlie and Lola*.<br><br>• Darlledu rhaglenni arloesol newydd, gan gynnwys *Jackanory Jr* ac *In the Night Garden*. | • Bydd 75% o'n buddsoddiad mewn rhaglenni newydd o'r DU.<br><br>Gweler ein hymrwymiadau statudol (ar ddiwedd yr adran hon) sy'n cynnwys ein hymrwymiadau cyffredinol i darddiadau, cynhyrchu rhanbarthol a chynhyrchu DU/UE. |

| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae ymdeimlad o berthyn yn bwysig i blant bach. Mae *Balamory*, ein drama unigryw i blant iau, yn parhau gyda straeon sydd â'r nod o feithrin ymdeimlad o gymuned a chyflwyno plant i sgiliau cymdeithasol sylfaenol. Mae *Me Too* yn adlewyrchu bywyd yn y feithrinfa a'r byd mawr y tu allan, gan gyflwyno plant bach i brofiadau a chymunedau newydd.<br><br>Nod CBeebies fydd chwalu ffiniau posib rhwng plant trwy bortreadu pobl o bob math o gefndiroedd a chydag amrywiaeth o alluoedd.<br><br>Eleni:<br>• Byddwn yn lansio amserlen newydd i adlewyrchu ffordd o fyw plant iau yn fwy effeithiol gyda pharthau sy'n cyd-fynd yn well â'u patrymau bob dydd.<br>• Bydd yr amserlen newydd yn cynnwys bloc wedi'r ysgol feithrin er mwyn cryfhau'n cysylltiad â gwylwyr hynaf ein hystod oedran.<br>• Byddwn hefyd yn lansio parth 'deffro' newydd i gyd-fynd â'r parthau archwilio, posau, gweithgarwch a thawelu. | • Bydd CBeebies yn darparu dros 4,500 awr o raglenni .<br>• Bydd chwarter ein horiau darlledu'n ddeunydd newydd, gan gynnwys rhaglenni a gomisiynir y tu allan i Lundain. |

| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae CBeebies yn sianel ddigidol. Bydd cynnwys digidol rhyngweithiol yn cyd-fynd â'n holl raglenni llinol ar gyfer plant iau, o adrodd straeon i weithgareddau gwneud a chredu, gan alluogi cynulleidfaoedd i gymryd rhan neu i gyfoethogi eu profiad o raglenni.<br><br>Er mwyn amlygu manteision digidol i'r gynulleidfa nad ydynt yn derbyn gwasanaeth digidol, mae CBeebies yn cyd-ddarlledu rhai o'r rhaglenni gorau o'r sianeli digidol ar barthau ar BBC One a BBC Two. Rydym hefyd yn defnyddio ein hamser i hyrwyddo pobl i ddefnyddio llwyfannau digidol. | • 500 awr o raglenni plant ar BBC One a BBC Two (yn cynnwys CBBC). |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Y llynedd, gostyngodd nifer y bobl a oedd yn gwylio CBeebies fymryn wrth i nifer y cartrefi digidol gynyddu, ond CBeebies oedd yn dal i gyrraedd y mwyaf o bobl ym marchnad plant iau teledu digidol y DU, a chynyddodd nifer cyffredinol y gwylwyr. Roedd cynnydd sylweddol yng ngwasanaeth ar-lein CBeebies hefyd, gyda'r ymweliadau â'i dudalennau bron a dyblu dros y flwyddyn.

Fodd bynnag, wrth edrych tua'r dyfodol a'r cynnydd yn nifer y cartrefi digidol wrth i sianeli newydd fod ar gael - yn arbennig ar Freeview - gallwn ddisgwyl gweld rhywfaint o ostyngiad mewn perfformiad mewn termau real.

Yn 2006/2007 bydd CBeebies yn parhau i ddarparu'r cynnwys a'r gwasanaethau y mae ein gwylwyr ifanc a'u rhieni am eu derbyn. Er mwyn gwneud hyn, ein blaenoriaethau allweddol yw:

- **Newid strwythur ein hamserlen**, lleihau nifer yr ailddarllediadau i wylwyr a'u hannog i wylio ar wahanol adegau o'r dydd a pharhau i wylio am gyfnod hirach.

- **Cyflwyno mwy o gynnwys o'r DU** ledled yr arlwy o raglenni, gan gynnwys *Jackanory Jr* ac *In the Night Garden*.

- **Cryfhau'n hymrwymiad i'n gwylwyr ar ben ucha'n ystod oedran targed.**

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 80% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Bydd o leiaf 90% o raglenni'r sianel yn tarddu o'r DU/UE.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU

# Sianel CBBC

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae Sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg unigryw ar gyfer plant 6 i 12 oed, gan eu hannog i ddarganfod mwy am eu diddordebau presennol neu eu hysgogi i ddatblygu rhai newydd a’u cynorthwyo i ddeall a gwerthfawrogi’r byd o’u cwmpas. Mae’r sianel yn rhoi pwyslais ar annog cyfranogiad.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae Sianel CBBC yn cynnig cynnwys sy’n cynorthwyo plant i ddeall a dysgu am faterion sy’n wynebu’r byd y maent yn byw ynddo.<br><br>Prif ganolbwynt y gwaith hwn yw *Newsround*, yr unig wasanaeth newyddion yn y DU sy'n targedu plant. Cafodd ei ehangu'n ddiweddar trwy lansio modiwl dysgu ar-lein sy’n rhoi cyfle i'n gwylwyr iau ddatblygu sgiliau newyddiadurol sylfaenol a rhannu eu straeon.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Darlledu dwy raglen ddogfen *Newsround Investigates* am y tro cyntaf a fydd yn rhoi sylw manwl i losgi bwriadol a thlodi plant.<br>• Drama newydd ar y bomio yn Llundain, gan roi safbwynt gwahanol i blant ar y digwyddiadau.<br>• Byddwn yn dechrau adfywio amrywiaeth ac effaith ein portffolio rhaglenni ffeithiol. | • Byddwn yn darparu o leiaf tri bwletin newyddion byw bob dydd.<br>• Byddwn yn darparu 85 awr o newyddion. |

| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Nod llawer o raglenni ffeithiol a rhaglenni eraill Sianel CBBC yw rhoi cyfle i blant ddysgu a datblygu sgiliau bywyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys y rhaglenni ffeithiol newydd *Beat the Boss*, *Level Up* a *Roar.*<br><br>Mae'n rhaglenni teledu yn cael eu hategu a'u gwella gan ein presenoldeb eang a chynhwysfawr ar y we. Byddwn yn parhau i archwilio technolegau newydd i sicrhau bod ein gwefan yn cynnig lle diogel ar y we lle gall plant ddarganfod mwy am bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw a chysylltu â phlant eraill mewn amgylchedd diogel.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn lansio ymgyrch *Healthy Eating Active* ac yn cymryd rhan yn yr ymgyrch *Sport Relief* ledled y BBC gyda deunydd gwreiddiol ychwanegol.<br>• Byddwn yn dathlu Pen-blwydd y Frenhines yn 80.<br>• Byddwn yn darlledu *Evacuation*, sioe realiti ddogfen lle bydd grŵp o blant o'r ddinas yn cael eu tynnu o'u cartrefi i fyw yn y wlad a phrofi bywyd ar fferm yn y 1940au. | • Darlledu dros 1,000 awr o raglenni ffeithiol ac ysgol. |
| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae Sianel CBBC yn buddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni cartref gwreiddiol i greu amserlen amrywiol gyda blas unigryw y DU arni gydol y dydd.<br><br>Mae'n rhaglenni drama ac adloniant, fel *The Story of Tracy Beaker and Kerching!*, yn grymuso plant trwy fwydo'u dychymyg a chynnig tipyn o ryddhad o bwysau eu bywydau bob dydd.<br><br>Mae'n cysylltiadau cyflwyno byw unigryw yn galluogi'r gynulleidfa i ryngweithio gyda'r rhaglenni ar unwaith a byddwn yn parhau i gymryd gofal wrth gyflwyno cynnwys sydd wedi'i gynhyrchu'n arbennig ar eu cyfer mewn ffyrdd priodol sy'n apelio atynt. Byddwn yn ceisio cyd-gynhyrchu rhaglen animeiddio o safon yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Bydd gan Sianel CBBC gydbwysedd tebyg o raglenni gwreiddiol a rhaglenni o ffynonellau eraill gydol y dydd gan gynnwys yn ystod oriau brig. Bydd y gwasanaeth hefyd yn darparu amserlen gymysg yn ystod oriau brig ac yn parhau i beidio ag ail-ddangos gormod o raglenni ar y sianel.<br><br>Bydd uchafbwyntiau eleni'n cynnwys:<br><br>• Rhaglenni drama ac adloniant newydd, fel *Young Dracula* a *Raven Adventure*, sy'n deillio o'r gyfres lwyddiannus *Raven*.<br>• Bydd *Jackanory* yn dychwelyd i Sianel CBBC.<br>• Rhaglenni animeiddio newydd o'r DU gyda *Shaun the Sheep* a *The Secret Show*. | • Byddwn yn darparu 650 awr o raglenni drama.<br>• Byddwn yn darparu 150 awr o gyflwyno byw. |

<table>
<tr><th>Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae Sianel CBBC yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o wynebau ar y sgrin a bydd yn parhau i bortreadu pobl o bob math o gefndiroedd a chydag amrywiaeth o alluoedd.<br><br>Byddwn yn parhau i gyfrannu at gyflwyno'n cynulleidfa i weithgarwch a chyfrifoldeb cymunedol drwy raglenni fel Blue Peter, gyda'i apeliadau elusennol a straeon rheolaidd, lleol sy'n ysbrydoli; Newsround, sy'n portreadu'r byd rydyn ni'n byw ynddo; ac ymgyrchoedd eraill ledled y BBC.<br><br>Bydd gwledydd BBC Two yn ymuno â Sianel CBBC i ddarparu ar gyfer plant y mae eu gwyliau haf yn cychwyn yn gynharach yn y flwyddyn.<br><br>Bydd uchafbwyntiau eleni'n cynnwys:<br>• Desperado, cyfres ddrama newydd sy'n ymwneud â hynt a helynt tîm pêl-fasged cadair olwyn.<br>• Dathlu pen-blwydd Grange Hill yn 30 oed.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
<tr><th>Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Rydym yn canolbwyntio ar raglenni o'r DU, ond byddwn yn parhau i gynnig y cyfle i'n gwylwyr weld y byd a'i bobloedd a'i ddiwylliannau amrywiol drwy lu o raglenni. Byddwn yn parhau i wella cynnwys lleol drwy ddarlledu'r rhaglenni plant rhyngwladol gorau.<br><br>Eleni:<br>• Bydd pedwaredd gyfres Serious… yn mynd â grŵp o blant i'r Andes i brofi bywyd ym mynyddoedd De America.<br>• Bydd Blue Peter yn parhau â'i draddodiad cyfoethog o gyflwyno'r byd i blant y DU.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
<tr><th>Adeiladu Prydain ddigidol</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae Sianel CBBC yn sianel ddigidol. Bydd cynnwys digidol rhyngweithiol yn cyd-fynd â'n rhaglenni llinol ledled pob genre, gan alluogi cynulleidfaoedd i gymryd rhan neu i gyfoethogi eu profiad o raglenni. Mae bbc.co.uk/cbbc yn gysylltiad pwysig gyda'r gynulleidfa yn y grŵp oedran hwn ac mae'n parhau i ddenu mwy o ddefnyddwyr gwahanol i'r gwasanaeth.<br><br>Er mwyn amlygu manteision digidol i'r gynulleidfa nad ydynt yn derbyn gwasanaeth digidol, mae Sianel CBBC yn darlledu rhai o'r rhaglenni gorau o'r sianeli digidol ar BBC One a BBC Two. Rydym hefyd yn defnyddio ein hamser i annog pobl i fanteisio ar lwyfannau digidol.</td><td>• 500 awr o raglenni plant ar BBC One a BBC Two (yn cynnwys CBeebies).</td></tr>
</table>

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Eto'r llynedd, perfformiodd Sianel CBBC yn gryf mewn marchnad sy'n mynd yn fwy a mwy cystadleuol, a chyrraedd lefelau newydd ymhlith plant digidol.  Bu twf sylweddol yn bbc.co.uk/cbbc hefyd, gyda chynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 50% mewn ymweliadau â'n tudalennau. Fodd bynnag, bydd lansio gwasanaethau newydd wedi'u targedu ar Freeview yn rhoi pwysau cynyddol ar y sianel a disgwylir i gyfran a chyrhaeddiad ostwng mewn termau real.

Un her sy'n wynebu Sianel CBBC yw sicrhau bod ei rhaglenni yn addas ac yn gyffrous ar gyfer plant 6-12 oed sydd wedi cyrraedd croesffordd yn eu bywydau lle mae eu chwaeth a'u ffasiynau'n newid yn gyson.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i ddarparu rhaglenni arloesol, addas, o ansawdd uchel gyda chyfleoedd addysgu a rhyngweithio ym mhob genre ac yn yr amserlen drwyddi draw, gan gyfrannu effaith ychwanegol at y rhaglenni a ddarlledwn. Ein blaenoriaethau allweddol yw:

- **Lansio rhaglenni newydd**, gan gynnwys rhaglen gylchgrawn ffeithiol a dramâu newydd o'r DU fel *I Spy*.

- **Gwella'n darpariaeth ryngweithiol ac ar-lein** gyda chynnwys newydd fel *Sianel CBBC World* a safle gemau wedi'i ail-lansio sy'n rhannol yn darparu gwasanaethau i blant ag anghenion addysgol arbennig.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- Bydd 70% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd a'r holl ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Bydd CBBC yn sicrhau bod o leiaf 90% o raglenni'r sianel yn tarddu o'r UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Ac ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC:

- Gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol, sef 25% o'r oriau a gynhyrchir, y tu allan i'r M25.

- Cynnal yr amrywiaeth eang gyfredol o raglenni a gynhyrchir y tu allan i'r M25, a'r amrywiaeth eang o ganolfannau cynhyrchu gwahanol a ddefnyddir ledled y DU

# Radio

# BBC Radio 1

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio 1 yn cynnig gwasanaeth cyffrous o ansawdd uchel i gynulleidfa ifanc. Mae'n chwarae'r gerddoriaeth newydd orau ac yn cynnig detholiad cynhwysfawr o sesiynau stiwdio byw, cyngherddau a darllediadau o wyliau. Nod y rhwydwaith yw rhoi sylw i bob math o gerddoriaeth ifanc gyda rhestr ganeuon eang a chasgliad amrywiol o DJs arbenigol. Mae hefyd yn darparu cynnyrch llafar wedi'i deilwra, gan gynnwys newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori, gyda gwasanaethau ar-lein a rhyngweithiol integredig.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae gan Radio 1 ymrwymiad sylfaenol i gerddoriaeth newydd. Ein nod yw gweithio ar ran y rhai sy'n creu cerddoriaeth yn y DU, gan gefnogi creadigrwydd a rhoi llwyfan i artistiaid newydd a mathau newydd o gerddoriaeth.<br><br>Yn ystod y dydd mae rhestr ganeuon eang yn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle i wrandawyr glywed traciau a pherfformwyr newydd, gan fynd y tu hwnt i'r amlwg. Rydym yn rhoi cefnogaeth gref i dalent newydd y DU ac yn arwain y ffordd wrth gyflwyno'r gerddoriaeth newydd orau i gynulleidfa eang.<br><br>Gyda'r nos mae portffolio o DJs arbenigol blaenllaw yn rhoi hwb i ddatblygiad artistiaid arloesol ym maes cerddoriaeth ac yn hyrwyddo'r goreuon i'w chwarae ar draws rhaglenni yn ystod y dydd.<br><br>Mae cerddoriaeth fyw yn elfen hollbwysig ac mae'n cael lle blaenllaw iawn yn yr amserlen, gyda sesiynau stiwdio gan y bandiau diweddaraf cyn bwysiced â chyngherddau gan artistiaid cyfarwydd. Rydyn ni hefyd yn darlledu o ddigwyddiadau byw o bob math.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn gweithio gyda rhannau eraill o'r BBC i lansio fersiwn cerddoriaeth gyfoes newydd o'r Proms.<br><br>• Byddwn yn canolbwyntio mwy ar ddigwyddiadau o bob cwr o'r DU, yn enwedig yr Alban, gyda *Radio 1's Big Weekend* yn Dundee a mwy o raglenni o *T in the Park*. | • Bydd o leiaf 40% o'r amserlen wedi'i neilltuo i gerddoriaeth arbenigol neu raglenni llafar.<br><br>• Yn y rhaglenni prif ffrwd, bydd o leiaf 45% o'r gerddoriaeth yn 'newydd' (cyn ei rhyddhau neu o fewn mis i'w rhyddhau),ac o leiaf 40% gan berfformwyr o'r DU.<br><br>• Byddwn yn darlledu o ryw 25 o ddigwyddiadau a gwyliau mawr byw yn y DU a thramor.<br><br>• Byddwn yn darlledu dros 250 o sesiynau |

| | |
|---|---|
| | newydd a pherfformiadau *Live Lounge* . |
| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae Radio 1 yn cyflogi tîm ymroddedig o newyddiadurwyr i ddarparu gwasanaeth wedi'i deilwra, gan gyflwyno'r newyddion mewn iaith ac arddull sy'n apelio at wrandawyr ifanc. Rydym yn cynnig gwasanaeth newyddion mwy cynhwysfawr na gorsafoedd masnachol sy'n targedu cynulleidfa debyg.<br><br>Mae ein rhaglenni *Newsbeat* poblogaidd yn cael lle canolog yn amserlen y dydd, gyda bwletinau newyddion a chwaraeon rheolaidd ac adran arbennig ar-lein i'w hategu. Nod *Newsbeat* yw cynnig agenda newyddion i'n gwrandawyr trwy ganolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol iddyn nhw, gan annog gwrandawyr sy'n gwrando er mwyn clywed cerddoriaeth yn bennaf i roi sylw i bob math o bynciau.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn rhoi mwy o sylw i faterion technolegol ac iechyd pobl ifanc - gan adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr ifanc yng nghyswllt y meysydd hyn. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 310 awr o newyddion, chwaraeon a materion cyfoes. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae bbc.co.uk/radio1 yn cynnig gwasanaeth rhyngweithiol cynhwysfawr, gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol am raglenni a digwyddiadau, ynghyd â newyddion ac eitemau arbennig.<br><br>Byddwn yn parhau i arbrofi gyda'r dechnoleg ddiweddaraf i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni disgwyliadau a gofynion diweddaraf y gynulleidfa.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd mwy o nodweddion rhyngweithiol, gan gynnwys fideo band eang ar gyfer rhai digwyddiadau byw, fel bod modd i wrandawyr wrando ar ein cynnyrch ar draws amrywiaeth o blatfformau. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Trwy raglenni fel *Sunday Surgery* rydym yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion sy'n wynebu pobl ifanc heddiw. Anogir gwrandawyr i rannu eu profiadau yn ogystal â chael gwybodaeth a chyngor.<br><br>Mae tîm *One Life* yn gyfrifol am gynnyrch gweithredu cymdeithasol ar-lein, gan gynnig cyngor cyson ar amrywiaeth o faterion personol, iechyd a phryderon eraill.<br><br>Mae rhaglenni dogfen yn rhoi sylw manwl i amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys mathau newydd o gerddoriaeth, bywyd cyfoes a materion gwleidyddol sy'n effeithio ar oedolion ifanc.<br><br>Gall cerddorion newydd sydd am roi hwb i'w gyrfa ymweld â *OneMusic* sy'n rhoi cyngor a chyfle i artistiaid ifanc gael eu gwaith wedi'i adolygu gan arbenigwyr sefydledig.<br><br>Eleni byddwn yn:<br><br>• Gweithio gyda'r Adran Iechyd ar fenter iechyd rhywiol.<br><br>• Cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth iechyd meddwl. | • Byddwn yn comisiynu o leiaf 40 rhaglen ddogfen newydd. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Nod Radio 1 yw dod â gwrandawyr ifanc o wahanol gymunedau daearyddol a cherddorol at ei gilydd. Byddwn yn parhau i ddarparu fforwm ar-lein i'r gynulleidfa drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin.<br><br>Mae digwyddiadau byw yn adlewyrchu amrywiaeth eang o gerddoriaeth gan artistiaid y DU ac mae'n digwyddiadau ni yn aml yn canolbwyntio ar feysydd sydd heb gael sylw hyrwyddwyr masnachol.<br><br>Mae rhaglenni arbennig rheolaidd yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon yn meithrin perthynas ar lawr gwlad ac yn helpu i ddatblygu doniau lleol.<br><br>Eleni:<br><br>• Wrth sôn am Gwpan pêl-droed y Byd byddwn yn sicrhau ein bod yn adlewyrchu agweddau a diddordebau ym mhob cwr o'r DU. | • Byddwn yn darlledu tua 200 awr o raglenni arbennig gwreiddiol o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Rhoddwn bwyslais mawr ar gefnogi artistiaid o'r DU a gweithredu fel eu llysgennad i weddill y byd, ond rydym hefyd yn dod â'r gerddoriaeth fyd-eang gyfoes orau a mwyaf cyffrous i sylw cynulleidfaoedd y DU.<br><br>Mae darlledu o ddigwyddiadau cerddorol rhyngwladol o bwys wrth ein galluogi i roi sylw i artistiaid o bedwar ban byd nad ydynt yn ymweld â'r DU yn aml. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Llynedd, rhoddodd Radio 1 sylw i amrywiaeth ehangach o ddigwyddiadau byw o wyliau ledled y DU ac ar draws y byd. Roedd mentrau creadigol yn cynnwys dathlu 25 mlynedd o gerddoriaeth 'punk', ymestyn penwythnosau'r haf i gynnwys dydd Gwener a 'Radio 1 Sex Tour' i ddwyn sylw i faterion iechyd rhywiol.

Mae maint y gynulleidfa wedi cynyddu ar draws llawer o'r amserlen. Fodd bynnag, bach yw'r ymwybyddiaeth o rai rhaglenni arbenigol o hyd ac mae denu aelodau iau'r gynulleidfa darged yn parhau i fod yn her allweddol.

Yn 2006/2007 bydd yr orsaf yn mynd i'r afael â hyn trwy:

- **Symleiddio strwythur yr amserlen** a mynd ati i hyrwyddo a chyhoeddi rhaglenni'n well, gan geisio cynyddu ymwybyddiaeth o'n holl raglenni arbenigol a chynyddu eu cynulleidfa.
- **Datblygu cynnwys rhyngweithiol** sy'n ategu ein rhaglenni ar-yr-awyr, yn enwedig ychwanegu elfennau gweledol lle bo'n briodol a manteisio ar y technolegau symudol diweddaraf i sicrhau bod ein gwrandawyr yn gallu gwrando ar Radio 1 ble bynnag a phryd bynnag y dymunant.
- **Parhau i sicrhau bod ein rhaglenni yn parhau i fod yn wahanol i** radio masnachol, gan fynd ati i fonitro'n rheolaidd, yn enwedig cymorth Radio 1 i gerddoriaeth newydd ac artistiaid y DU yn ystod rhaglenni'r dydd.

## Ymrwymiadau statudol

Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i'n haddewid gwirfoddol y bydd o leiaf 10% o oriau cymwys ar ein rhwydweithiau radio analog cenedlaethol yn nwylo cynhyrchwyr annibynnol.

# BBC Radio 2

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio 2 yn cyflwyno amrywiaeth eang o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol i'r gwrandawyr wrth roi cefnogaeth benodol i artistiaid hen a newydd o Brydain; cerddoriaeth fyw, trwy gyngherddau a sesiynau stiwdio; a chyfansoddi caneuon. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cynnig newyddion, materion cyfoes, rhaglenni dogfen, comedi, darlleniadau, cynnyrch crefyddol ac ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol - i gyd gyda'r nod o apelio at gynulleidfa eang.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae'n rhaglenni yn cynnwys amrywiaeth dihafal o sawl genre cerddorol, gan gynnwys bandiau mawr, cerddoriaeth glasurol ysgafn, bandiau pres, reggae, cerddoriaeth organ, jazz, soul, gwerin, gwlad, blues a cherddoriaeth gysegredig. Bydd ein hamserlenni'n cael eu trefnu o gwmpas cyfresi rheolaidd, yn cael eu cyflwyno gan arbenigwyr credadwy sydd hefyd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â gwrandawyr heb wybodaeth arbenigol.<br><br>Bydd rhaglenni fel *Big Band Special*, *Bob Harris Country*, sioe rhythm a blues *Paul Jones* a Gwobrau Jazz y BBC yn parhau i adlewyrchu perfformiadau byw gan berfformwyr sy'n adnabyddus yn y DU ac ym mhedwar ban byd.<br><br>O ran comedi, byddwn yn comisiynu rhaglenni gwreiddiol a datblygu fformatau newydd, gan adeiladu ar lwyddiant cyfresi fel *Radio Rivron* a *Clive Anderson's Chatroom.*<br><br>Bydd rhaglenni dogfen ar nos Sadwrn a nos Fawrth yn adlewyrchu ac egluro diwylliant poblogaidd.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd y digwyddiadau allweddol a ddarlledir yn cynnwys Gŵyl Werin Caergrawnt, Guilfest a The Brits.<br>• Byddwn yn parhau i gefnogi doniau newydd trwy fentrau fel y Wobr Werin i Bobl Ifanc, Unawdydd Pres Ifanc a Chorydd y Flwyddyn.<br>• Byddwn yn comisiynu trefniannau cerddorol newydd gan dalentau trefnu blaenllaw i'w defnyddio yn *Friday Night is Music Night, Big Band Special* a *Listen to the Band.* | • Byddwn yn darlledu amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth nag unrhyw orsaf radio sylweddol arall yn y DU, gyda thros 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol.<br>• Byddwn yn darlledu dros 60 awr o gerddoriaeth theatr gerdd a ffilm.<br>• Byddwn yn darlledu dros 100 awr o raglenni celfyddydau. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae gan Radio 2 draddodiad o ddefnyddio'i hymgyrchoedd dysgu i helpu gwrandawyr o bob oed i fod yn rhan ymarferol o'r byd modern a'i heriau.<br><br>Bydd ein menter dysgu cerddoriaeth, *Sold on Song*, yn parhau i gysylltu cyw gyfansoddwyr caneuon a phobl â diddordeb yn y gelfyddyd honno gyda chyfansoddwyr caneuon sydd wedi ennill eu plwyf, digwyddiadau lleol a dosbarthiadau meistr cerddoriaeth.<br><br>Eleni, bydd Radio 2 yn:<br><br>• Lansio menter ddrama a fydd yn gwahodd gwrandawyr i ysgrifennu darn byr i'w ddarlledu, gyda chefnogaeth gweithdai ysgrifennu ledled y DU ac ar-lein.<br><br>• Sefydlu Clwb Cerddoriaeth a fydd yn mynd ati i gysylltu cyflwynwyr cerddoriaeth, sydd i gyd yn arbenigwyr cydnabyddedig yn eu meysydd cerddorol eu hunain, gyda gwrandawyr er mwyn sicrhau eu bod yn rhannu eu harbenigedd y tu hwnt i ffiniau darlledu traddodiadol. Bydd y Clwb hefyd yn dod â gwrandawyr at ei gilydd, gan greu cymunedau o ddiddordebau cerddorol. | • Byddwn yn darlledu amserlen sy'n cynnwys tua un rhan o dair o raglenni llafar. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Bydd ein darllediadau crefyddol yn adlewyrchu holl amrywiaeth crefyddau a chredoau Prydain. Mae gweithredu cymdeithasol yn elfen ganolog o'n rhaglenni llafar hefyd.<br><br>Mae'n gwefan yn rhan annatod o'r rhwydwaith, a ddefnyddir i annog cyfraniadau gan wrandawyr drwy'r e-bost, pleidleisio ar-lein a systemau sylwadau - gan gynhyrchu amrywiaeth o safbwyntiau o bob cwr o'r DU.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd sawl ymgyrch gweithredu cymdeithasol yn cael ei lansio, gan gynnwys *Student Essentials* a fydd yn darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr a'u teuluoedd wrth iddynt dderbyn eu canlyniadau a chynllunio eu dyfodol.<br><br>• Byddwn yn darlledu *Don't Start Me Talking*, cyfres a fydd yn olrhain ymatebion personol gan bobl ledled y DU i gerddoriaeth a'i effaith ar eu bywydau. | • Byddwn yn darlledu dros 170 awr o raglenni crefyddol gan roi sylw i amrywiaeth eang o grefyddau. |

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae newyddion a materion cyfoes ar gyfer cynulleidfa eang yn rhan allweddol o gymysgedd Radio 2 gydol yr amserlen, gan gynnwys pytiau yn y slotiau brecwast ac amser gyrru prysur, a chynnwys mwy sylweddol yn ystod y dydd.<br><br>Mae sioe *Jeremy Vine* yn parhau i ddiddanu'r gynulleidfa yn ystod y dydd gyda chymysgedd hwylus o straeon, cyfweliadau a chyfle i bobl ffonio i mewn.<br><br>Bydd y sioe amser gyrru yn dal i gynnwys slot newyddion busnes dyddiol, yn dadansoddi materion busnes a'u gwneud yn hygyrch i gynulleidfa brif ffrwd.<br><br>Bydd Radio 2 yn parhau yn brif bartner darlledu radio ar gyfer *Plant mewn Angen* y BBC. | • Byddwn yn darlledu dros 800 awr o newyddion a rhaglenni materion cyfoes gwreiddiol, gan gynnwys bwletinau newyddion rheolaidd. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Drwy ein rhaglenni dogfen, rydym yn ceisio dod ag amrywiaeth eang o gerddoriaeth, hanes a diwylliant rhyngwladol i gynulleidfa'r DU.<br><br>Byddwn hefyd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau cerddorol dramor unwaith eto gan gynnwys *South by Southwest* – sy'n hyrwyddo cerddoriaeth o Brydain yn America – a Gwobrau'r Gymdeithas Canu Gwlad.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd rhaglenni dogfen yn cynnwys archwiliad ynghylch sut mae cerddoriaeth Asiaidd yn y DU wedi datblygu yn *Birmingham to Bollywood*.<br>• Byddwn yn dilyn hynt a helynt y gantores Joan Armatrading wrth iddi fynd yn ôl at ei gwreiddiau yn *Joan's Journey to St Kitts*.<br>• Byddwn yn rhoi blas ar hanes cerddorol yr Unol Daleithiau gyda'r canwr Americanaidd, Randy Newman. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae bbc.co.uk/radio2 bellach yn rhan annatod o'n gwasanaeth, sy'n galluogi gwrandawyr i gysylltu gyda ni a chyda'i gilydd.<br><br>Drwy'r wefan gall gwrandawyr hefyd gyrchu Radio Player y BBC i ddal i fyny gyda rhaglenni y gwnaethant eu methu a gwrando ar-alw.<br><br>Rydym yn parhau i gynyddu cysylltiadau allanol y we a chydweithredu â gwefannau trydydd parti - yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â digwyddiadau Radio 2, ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a mentrau rhaglenni. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Arweiniodd amrywiaeth, ansawdd ac arloesedd rhaglenni Radio 2 at ennill gwobr Gorsaf y Flwyddyn unwaith eto yng Ngwobrau Academi Radio Sony 2005.

Mae'r rhwydwaith yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth ei gynulleidfa, ac rydym yn amserlennu a chomisiynu rhaglenni i adlewyrchu'r uchelgais parhaus a hirdymor hwn.

Yn y flwyddyn nesaf ein blaenoriaethau allweddol fydd:

- **Parhau i geisio denu cynulleidfa fwy amrywiol** i raglenni drwy'r dewis o bynciau, cyfranwyr a chyfweliadau. Yn benodol, rydym yn bwriadu clustnodi cyfranwyr allweddol o'r cymunedau Asiaidd ac Affro-Caribïaidd ar gyfer sioe *Jeremy Vine* ac ar gyfer ein rhaglenni celfyddydau.

- **Ehangu ein hymrwymiad i bortffolio Radio'r BBC o gomedi radio** drwy gomisiynu perfformwyr, ysgrifennu a fformatau newydd, gan geisio dod â thalent ffres i brif ffrwd comedi'r DU.

- **Cynnal ein hymrwymiad i raglenni cerddoriaeth fyw**, gan adlewyrchu detholiad o ddigwyddiadau a pherfformiadau cerddoriaeth allweddol o’r DU ac yn rhyngwladol, a chyflwyno pob math o gyngherddau a sesiynau stiwdio.

## Ymrwymiadau statudol

Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i'n haddewid gwirfoddol y bydd o leiaf 10% o oriau cymwys ar ein rhwydweithiau radio analog cenedlaethol yn nwylo cynhyrchwyr annibynnol.

# BBC Radio 3

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio 3 yn gartref i gerddoriaeth glasurol, a hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni jazz, cerddoriaeth y byd, drama a'r celfyddydau. Mae'n canolbwyntio ar gyflwyno cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth sydd wedi'i recordio'n arbennig o bob cwr o'r DU a thu hwnt, gan gynnwys cyfraniadau gan grwpiau perfformio'r BBC ei hun.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Rydym yn ymroi i gyflwyno cerddoriaeth o bob cwr o'r DU, gan gynnwys cyngherddau a digwyddiadau o bob math o wyliau a lleoliadau, fel Gŵyl Caeredin, WOMAD a Gŵyl Jazz Llundain. Rydym hefyd yn darlledu pob cyngerdd BBC Proms.<br><br>Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid, gan gynnwys grwpiau perfformio'r BBC a cherddorfeydd annibynnol, gwyliau, a sefydliadau celfyddydol eraill, fel bod cyfle i'n gwrandawyr ni fwynhau cymaint o berfformiadau â phosib.<br><br>Byddwn yn parhau i roi pwyslais mawr ar gerddoriaeth glasurol newydd, fel darlledwr a chomisiynydd.<br><br>Bydd rhaglenni llafar yn cwmpasu pob math o bynciau celfyddydol a diwylliannol, ac yn trafod byd o syniadau. Bydd dramâu a chomisiynau ysgrifenedig eraill yn parhau'n rhan allweddol o arlwy amrywiol yr orsaf.<br><br>Eleni:<br>• Wrth ddarlledu holl opera epig Wagner, y Ring Cycle, mewn un diwrnod, bydd Radio 3 yn adeiladu ar ei gynllun darlledu cyfansoddiadau cyflawn i roi hwb ychwanegol i'w gynnyrch cerddoriaeth glasurol.<br>• Yn ystod y flwyddyn, bydd y rhwydwaith yn rhoi pwyslais arbennig ar gerddoriaeth o Brydain, gan roi sylw i rai meysydd o'n diwylliant cerddoriaeth sydd wedi eu hesgeuluso braidd. | • Cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth a recordiwyd yn arbennig fydd 50% o raglenni cerddoriaeth y rhwydwaith.<br>• Bydd rhaglenni byw yn cynnwys o leiaf 500 perfformiad byw neu rai wedi'u recordio'n arbennig.<br>• Byddwn yn comisiynu dros 30 o weithiau cerddorol newydd.<br>• Byddwn yn comisiynu 30 o raglenni dogfen ar bynciau celfyddydol a diwylliannol. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Yn ogystal â darlledu rhaglenni, mae Radio 3 yn defnyddio prosiectau allgymorth ac addysgol, a'i wasanaethau rhyngweithiol, i gyflwyno pob math o gerddoriaeth i'r gwrandawyr.<br><br>Ein nod yw rhoi ein rhaglenni cerddoriaeth fyw yn eu cyd-destun. Yn ystod achlysur blynyddol BBC Proms er enghraifft, byddwn yn cynhyrchu rhaglenni ategol ac yn rhoi gwybodaeth berthnasol ar ein gwefan.<br><br>Rydym yn ymrwymedig i gerddorion amatur, ac yn annog ein gwrandawyr i feithrin eu creadigrwydd eu hunain, a chynnig technolegau cynhyrchu cerddoriaeth ar-lein iddynt.<br><br>Unwaith eto byddwn yn helpu cerddorion ifanc ac artistiaid eraill sy'n cychwyn ar eu gyrfaoedd trwy gynllun Artistiaid y Genhedlaeth Newydd a chystadleuaeth Côr y Flwyddyn BBC Radio 3.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn parhau i ehangu cyngherddau *Making Tracks* i bobl ifanc gan ddefnyddio cerddorfeydd y BBC.<br>• Gyda'i gilydd, bydd cystadleuaeth Côr y Flwyddyn BBC Radio 3 a'r rhaglen gorawl newydd *The Choir* yn annog cerddorion amatur i fynd ati i greu cerddoriaeth. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Bydd pob un o gerddorfeydd a chantorion y BBC yn gwneud gwaith allgymorth, gan gyflwyno cerddoriaeth glasurol a chorawl i amrywiaeth o gymunedau a grwpiau oed ym mhob cwr o'r DU, ac annog y gymuned i gymryd rhan mewn cerddoriaeth.<br><br>Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i wrandawyr ryngweithio gyda ni, ac i fynegi eu creadigrwydd ar yr awyr.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd *Listen Up!* yn rhan bwysig o amserlen yr hydref, gan adlewyrchu a dathlu gwaith cerddorfeydd proffesiynol ac amatur ledled y DU. | • Byddwn yn gwario 40% o'n cyllideb y tu hwnt i'r M25. |

| **Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae Radio 3 yn ymroddedig i gyflwyno darlun o gerddoriaeth a’r celfyddydau sy’n ymestyn y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol i’w gwrandawyr. Byddwn yn parhau i weithio’n ddiwyd gyda’n partneriaid darlledu ym mhedwar ban byd i gyflwyno uchafbwyntiau cerddorol y tu allan i’r DU.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd Radio 3 yn parhau i gyflwyno digwyddiadau cerddorol y DU i'n partneriaid darlledu yn yr Undeb Darlledu Ewropeaidd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Byddwn yn mynd i’r afael â materion cyfoes mewn rhaglenni fel *Night Waves*, *Music Matters* a *lebrecht.live*, gan roi cyfle i feirniaid ddweud eu dweud a thrin a thrafod materion o safbwynt diwylliannol.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn hybu penwythnos o ddigwyddiadau llafar wedi'u seilio ar faterion cyfoes o bwys; a bydd cyfle i'r cyhoedd drin a thrafod y cwestiynau pwysig dan sylw. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Rydym yn darlledu ar-lein, ac mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni ar gael mewn gwasanaeth 'ar-alw' yn bbc.co.uk/radio3 ar ôl y darllediad gwreiddiol. Mae'r wefan a'r gwasanaeth ar-alw yn ein galluogi i ddod â'r gorau o berfformiadau'r byd i wrandawyr y DU a rhoi cyfle ehangach i bobl wrando arnynt.<br><br>Rydym yn annog ein gwrandawyr i ryngweithio gyda ni ac i brofi eu doniau cerddorol ar-lein, gan roi’r modd iddynt wneud hynny.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd Radio 3 yn gwneud darllediadau y Ring Cycle yn haws ei deall, trwy ddarparu is-deitlau Saesneg ar lwyfannau digidol, gan gynnwys DAB. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Y llynedd, llwyddodd Radio 3 i fodloni neu ragori ar ei holl ymrwymiadau rhaglenni o ran cerddoriaeth fyw, perfformiadau cerddorol, gweithiau cerddorol newydd a rhaglenni dogfen, a gwariant rhanbarthol. Cafodd darllediadau o weithiau cyflawn Beethoven a Bach groeso mawr gan y gynulleidfa – rhaglenni a oedd yn elfennau unigryw a phwysig o'n harlwy ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Y brif her i Radio 3 unwaith eto yw cynnal ei chylch gwaith unigryw tra'n parhau i apelio at gynulleidfaoedd eang.

Yn ystod y flwyddyn i ddod:

- Ar ôl llwyddiant tymhorau Beethoven a Bach, **bydd Radio 3 yn parhau i ddarlledu rhaglenni arbennig** sy’n denu sylw i’w rhaglenni, gan gynnwys Ring Cycle Wagner mewn un diwrnod, diwrnod cyfan o gerddoriaeth Seisnig ar Ddygwyl Siôr, cerddi rhyfel Wilfred Owen, a gŵyl Delius, Bradford.

- **Bydd Radio 3 yn cynnig gwasanaethau testun gwell ar ei lwyfannau digidol**, yn paratoi pecynnau priodol ar gyfer arbrawf pod-ddarlledu'r BBC, a defnyddio'r rhyngrwyd i annog mwy o wrandawyr i deimlo’n rhan o berfformiadau a recordiadau.

## Ymrwymiadau statudol

Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i'n haddewid gwirfoddol y bydd o leiaf 10% o oriau cymwys ar ein rhwydweithiau radio analog cenedlaethol yn nwylo cynhyrchwyr annibynnol.

# BBC Radio 4

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio 4 yn defnyddio grym geiriau i gynnig rhaglenni treiddgar sydd â’r nod o syfrdanu, symbylu, dadlennu a diddanu. Nod y rhwydwaith yw cynnig newyddion a materion cyfoes trylwyr a threiddgar ac mae’n ceisio denu ac ysbrydoli’r gynulleidfa gyda chymysgedd unigryw o raglenni ffeithiol, dramâu, darlleniadau a chomedi.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

<table>
<tr><th>Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>
Mae Radio 4 yn ddarparwr newyddion a materion cyfoes trylwyr blaenllaw. Rydym yn dod ag adroddiadau a dadansoddiadau manwl gywir ac awdurdodol o faterion cartref a byd-eang i wrandawyr drwy raglenni dyddiol - fel Today, The World at One a PM - a bwletinau newyddion wythnosol a rhaglenni dilynol.
Trwy'n rhaglenni newyddion a'n rhaglenni newyddiadurol ehangach, rydym yn adlewyrchu realiti cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyfoes y DU a chynnig dealltwriaeth o bob math o faterion cyfoes i wrandawyr.
Byddwn yn cyflwyno'r newyddion diweddaraf gyda rhaglenni fel File on 4 a phwyso a mesur materion yn The Week in Westminster ac Analysis.
Byddwn yn darparu dadansoddiadau diduedd, treiddgar a sylweddol o ymgyrchoedd y pleidiau ar gyfer yr etholiadau lleol ym mis Mai.
Yn benodol eleni, byddwn yn cyflwyno:
<ul>
<li>Cyfres bwysig ar newid yn yr hinsawdd.</li>
<li>A thymor o raglenni i nodi hanner can mlynedd ers Argyfwng Suez a Gwrthryfel Hwngari.</li>
</ul>
</td><td>
<ul>
<li>Byddwn yn darlledu o leiaf 2,500 awr o newyddion a rhaglenni materion cyfoes.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Radio 4 yw un o gonglfeini bywyd diwylliannol y DU ac mae ar flaen y gad o ran cynnal a datblygu crefft drama radio, gyda chomisiynau gan awduron newydd a sefydledig.<br><br>Rydym hefyd yn neilltuo oriau sylweddol ar gyfer archwilio llenyddiaeth a'r celfyddydau'n gyffredinol, drwy raglenni dogfen, trafod ac adolygiadau. Byddwn yn parhau i ddarparu amrywiaeth o raglenni yn ymwneud â llenyddiaeth, fel *Bookclub*, *Open Book* a *A Good Read*.<br><br>Radio 4 yw cartref comedi radio, ac mae'n datblygu llawer o'r rhaglenni a'r doniau comedi sy'n datblygu a chael cartref ar y teledu.<br><br>Rydym yn comisiynu rhaglenni newydd gan amrywiaeth eang o gyflenwyr mewn sawl genre gwahanol a ni yw'r brif farchnad yn y DU ar gyfer radio llafar a gynhyrchir yn annibynnol.<br><br>Eleni byddwn yn darlledu:<br><br>• Drama wahanol bob dydd, boed yn sgriptiau gwreiddiol neu'n addasiadau.<br><br>• Cystadleuaeth stori fer genedlaethol, mewn partneriaeth â'r cylchgrawn *Prospect*. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 730 awr o ddrama a darlleniadau gwreiddiol yn y flwyddyn i ddod.<br><br>• Bydd o leiaf 25% o’r deunydd newydd ar *Afternoon Plays* yn gomisiynau cyntaf neu’n ail gomisiynau gan awduron sy'n newydd i'r byd radio.<br><br>• Byddwn yn darlledu o leiaf 180 awr o raglenni comedi gwreiddiol. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Ochr yn ochr â rhaglenni ysgolion a ddarlledir dros nos ar lwyfannau digidol, mae Radio 4 yn cyfrannu'n sylweddol at ddarpariaeth cyfleoedd addysgu anffurfiol y BBC, drwy sicrhau bod pynciau arbenigol yn hygyrch a darparu archwiliad trylwyr o amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys gwleidyddiaeth, busnes, y gyfraith, cyllid, iechyd, materion rhyngwladol, y celfyddydau, llenyddiaeth, crefydd, hanes, teithio a garddio.<br><br>Bydd rhaglenni dogfen wythnosol yn ymdrin â deall y gorffennol mewn ffyrdd newydd a nodi digwyddiadau o bwys. Byddwn yn parhau i weithio i greu effaith yn y ffordd y byddwn yn trin bywgraffiadau cyfoes a hanesyddol.<br><br>Bydd eleni'n cynnwys:<br><br>• Tymor pwysig ar atgofion, gyda dimensiwn rhyngweithiol eang.<br><br>• Hanes naratif 30 rhan ar blentyndod. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 200 awr o raglenni dogfen gwreiddiol. |

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod Radio 4 yw adlewyrchu amrywiaeth y DU trwy recordio llawer o raglenni gyda chynulleidfaoedd mewn lleoliadau ledled y DU. Bob wythnos darlledir gwasanaeth crefyddol, trafodaeth ar faterion cyfoes a rhaglen arddio o wahanol rannau o Brydain.<br>Byddwn yn parhau i ddarparu addoliad byw ac adroddiadau trylwyr ar faterion crefyddol yn cwmpasu'r prif gredoau. Bydd rhaglenni eraill fel *Sunday* a *Beyond Belief*, yn mynd y tu hwnt i ddadleuaeth i dreiddio i fyd crefydd, gan roi goleuni ar yr amrywiaeth o gredoau rhwng ac o fewn cymunedau ffydd.<br>Bydd dilynwyr selog criced yn parhau i allu dilyn *Test Match Special* ar Radio 4 Tonfedd Hir.<br>Eleni byddwn yn darparu:<br>• Dwy gyfres yn archwilio amrywiaeth bywyd a syniadau yn nhraddodiadau ffydd lleiafrifol Prydain. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 200 awr o raglenni crefyddol gwreiddiol. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae cynorthwyo pobl i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas yn rhan bwysig o raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol Radio 4. Bydd materion byd-eang yn cael eu harchwilio'n drylwyr gan gyfresi rheolaidd fel *Crossing Continents* a *From Our Own Correspondent*.<br>Eleni:<br>• Bydd cyfle i glywed *The Reith Lectures* gan Daniel Barenboim yn Llundain, Chicago, Berlin, a Jerwsalem.<br>• Byddwn yn nodi canmlwyddiant y rhaglen radio gyntaf gyda Diwrnod Radio'r Byd ym mis Rhagfyr. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Bydd Radio 4 yn manteisio ar botensial y rhyngrwyd a llwyfannau digidol eraill i sicrhau bod ei chynnwys ar gael i wrandawyr ar ffurfiau newydd.<br>Byddwn yn chwilio am ffyrdd newydd o annog gwrandawyr i ymateb i raglenni a chyfrannu eu cynnwys, syniadau a beirniadaethau eu hunain.<br>Ein nod hefyd yw dod i gysylltiad â phobl trwy ein cystadlaethau a'n harolygon rhyngweithiol.<br>Eleni byddwn yn:<br>• Creu profiadau rhyngweithiol deniadol i gyd-fynd â'r tymhorau Atgofion a Newid yn yr Hinsawdd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006, diwallodd neu rhagorodd Radio 4 ar y blaenoriaethau golygyddol allweddol a nodwyd. Er enghraifft, arweiniodd y broses gomisiynu fwy hyblyg ar gyfer materion cyfoes at bennod o *Analysis* yn sgil y bomio yn Llundain fis Gorffennaf lle aeth Edward Stourton ati i ddarganfod beth yn union y mae Islam yn ei ddweud yhnghylch ddefnyddio trais. O ran cynnwys wedi'i gynllunio yn y tymor hirach, roedd *This Sceptred Isle: Empire* yn uchafbwynt penodol - hanes naratif 90 rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig a oedd yn cynnwys gwefan a oedd yn gwahodd gwrandawyr i adrodd eu straeon eu hunain o sut y llywiwyd eu hanes teuluol gan yr ymerodraeth.

Mae'r heriau parhaus sy'n wynebu'r rhwydwaith yn cynnwys sicrhau bod rhaglenni drama yn cael mwy o effaith a bod y rhwydwaith yn cael y dylanwad mwyaf posib ar wrandawyr achlysurol. Yn 2006/2007 byddwn yn canolbwyntio ar:

- Ailflaenoriaethu adnoddau er mwyn **gwella effaith rhaglenni drama**, gan gynnwys addasiadau radio newydd o ddramâu llwyfan modern sy’n glasuron a chyfres ddrama amserol newydd.

- **Ehangu apêl y ddarpariaeth** drwy:

  - Ddarlledu cyfres **hanes naratif** estynedig ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys meddygaeth, *The Invention of Childhood* a pharhad y gyfres *Empire*.

  - Canfod ffyrdd mwy diddorol o greu gwell **ymdeimlad o achlysur** yn yr amserlen, fel darparu tymhorau pwysig ar bynciau fel atgofion a newid yn yr hinsawdd.

  - Canfod ffyrdd mwy ymatebol a hyblyg o **ymateb i ddigwyddiadau cyfoes**, nid yn unig mewn rhaglenni newyddion ond gydol yr amserlen.

## Ymrwymiadau statudol

Rydym yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i'n haddewid gwirfoddol y bydd o leiaf 10% o oriau cymwys ar ein rhwydweithiau radio analog cenedlaethol yn nwylo cynhyrchwyr annibynnol.

# BBC Radio Five Live

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Radio Five Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw 24 awr y dydd, gan gyflwyno digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd, mewn arddull fodern, fywiog a hwylus. Ein nod yw ymdrin â phynciau cenedlaethol a rhyngwladol yn drylwyr, gan ddefnyddio dadansoddiadau a thrafodaeth eang i hysbysu, diddanu a chynnwys dilynwyr newyddion a chwaraeon o bob oed, gyda phwyslais penodol ar rai 25 i 44 mlwydd oed. Rydym hefyd yn darparu darllediadau helaeth o ddigwyddiadau byw, gyda chymorth gwasanaeth casglu newyddion byd-eang y BBC a'n portffolio hawliau chwaraeon.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Newyddion yw asgwrn cefn rhaglenni Five Live. Rydym yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn gywir a diduedd, am ddigwyddiadau ym mhob cwr o'r DU a'r byd wrth iddynt ddigwydd, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos – a hynny mewn ffordd sy'n apelio at y gynulleidfa.<br><br>Mae ein hymrwymiad i ddarlledu'r newyddion yn golygu y gallwn ddatblygu, dadansoddi a rhoi straeon yn eu cyd-destun, yn lle cyflwyno bwletinau byrion yn unig. Ein nod yw annog a llywio trafodaeth, ac ymdrin â materion gwleidyddol mewn modd cynhwysol a hygyrch.<br><br>Mae rhaglenni *Victoria Derbyshire* a *Simon Mayo* yn rhoi cyfle i bobl ymuno â thrafodaethau sy'n codi o'r newyddion. Bydd Five Live yn parhau i ddefnyddio technolegau rhyngweithiol fel bod modd i'r gwrandawyr gyfrannu cymaint â phosib i'n rhaglenni ni.<br><br>Un o raglenni penodol eleni fydd:<br><br>• *Access All Areas – Scotland Yard*, a fydd yn treulio diwrnod cyfan yn Scotland Yard gan roi cyfle i'r gwrandawyr gael blas ar bob twll a chornel o'r sefydliad enwog hwn. | • Byddwn yn cynnig o leiaf 6,000 awr o newyddion rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol – tua 70% o'n rhaglenni. |

<table>
<tr><th>Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Bydd Five Live yn parhau i ymdrin â digwyddiadau pwysig yn y calendr chwaraeon cenedlaethol – digwyddiadau sy’n rhan o’n bywydau a’n diwylliant ni – gan gynnwys:<br>– cystadlaethau cwpan FA Lloegr<br>– tennis o Wimbledon<br>– pencampwriaeth rygbi’r Chwe Gwlad<br>– golff, gan gynnwys Pencampwriaeth Agored Royal Liverpool<br><br>Rydym hefyd yn sylwebu mewn llu o ornestau chwaraeon mawr rhyngwladol, sy'n uno cynulleidfaoedd o bob cwr o'r DU i gefnogi doniau chwaraeon cynhenid, yn enwedig ym mlwyddyn Cwpan y Byd FIFA, ynghyd â phencampwriaethau tennis Awstralia, Ffrainc ac UDA, a chystadlaethau golff. Rydym yn adlewyrchu holl angerdd ein gwrandawyr ym myd y campau, trwy gyfrwng cystadlaethau a dulliau rhyngweithiol.<br><br>Mae rhaglenni newyddion Five Live – gyda fersiynau rhyngweithiol trwy gyfrwng bbc.co.uk/fivelive – yn adlewyrchu elfennau o fywyd diwylliannol a dinesig gwledydd Prydain, gan roi sylw i ddigwyddiadau pwysig ym myd ffilm a theatr, celf a chân, llên, radio a theledu.<br><br>Eleni bydd Five Live yn:<br>• Rhoi sylw eang i gystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA 2006 - o safbwynt chwaraeon a newyddion chwaraeon.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
<tr><th>Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae pobl Prydain ar dân dros chwaraeon, ac mae Five Live yn cysylltu pobl yn ystod digwyddiadau chwaraeon a digwyddiadau allweddol yn y calendr chwaraeon, gan greu'r ymdeimlad arbennig o berthyn i'r cymunedau hyn a'r cymunedau ar-lein ehangach. Mae darllediadau allanol o gemau pêl-droed a digwyddiadau byw eraill yn rhan hanfodol o wasanaeth chwaraeon Five Live.<br><br>Mae newyddiadurwyr rhanbarthol Five Live – gan gynnwys rhai o ganolfan newyddion a chwaraeon newydd a sefydlwyd ym Manceinion y llynedd – yn sicrhau ein bod yn adrodd straeon a diddordebau cymunedau ac ardaloedd gwahanol.<br><br>Eleni, bydd Five Live yn:<br>• Parhau i gynnig cyfleoedd rhyngweithiol i'r gwrandawyr, gan gynnwys rhaglenni ffonio i mewn, trafodaethau byw ac anfon negeseuon testun ac e-bost i raglenni fel Breakfast, Worricker, 6-0-6 a Drive.<br>• Adeiladu ar ei berthynas gyda BBC Asian Network, gan roi llwyfan arall i rai o adroddiadau gwreiddiol y gwasanaeth hwnnw.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
</table>

| Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae Five Live yn defnyddio profiad ac arbenigedd y BBC wrth gasglu ac adrodd newyddion o bedwar ban. Fel gwasanaeth 24 awr, nid yw'r gwahaniaethau amser yn berthnasol – gallwn gyflwyno newyddion yn fyw ar yr awyr, pryd bynnag a lle bynnag mae'n digwydd.<br><br>Byddwn yn parhau i gyflwyno newyddion am ddigwyddiadau chwaraeon pwysig ym mhob cwr o’r byd, fel NFL Superbowl, rasio Fformiwla Un; a chystadleuaeth feicio Tour de France.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Adeiladu ar ein sylw byd-eang i bencampwriaeth Fformiwla Un, gan fanteisio ar ein hawliau darlledu ymhellach i feithrin cysylltiadau gyda'r tîm cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am ddarlledu'r rasys moduro. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae rhyngweithio â'r gynulleidfa wrth wraidd gwasanaeth Five Live - o gyfraniadau byw trwy gyfrwng rhaglenni ffonio i mewn, negeseuon testun ac e-bost, i wasanaeth ar-lein bywiog sy'n ategu cynnwys rhaglenni, yn rhoi cyfle i drafod ac yn awgrymu dolenni cyswllt eraill. Mae rhaglenni a sylwebaeth ar gael ar-lein, lle bo hawliau'n caniatáu hynny, ac mae Five Live yn cynnig rhaglenni ar-alw ac i'w lawrlwytho, fel y gall gwrandawyr ddewis pryd a sut yr hoffent wrando ar raglenni.<br><br>Bydd bbc.co.uk/fivelive yn datblygu gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, gan gynyddu gwerth y cynnwys a'i wneud yn fwy hygyrch i bawb.<br><br>Eleni, bydd y rhwydwaith yn:<br><br>• Hyrwyddo'r wefan ymhellach ar yr awyr i geisio cynyddu nifer y gwrandawyr sy'n gwrando drwy'r rhyngrwyd.<br><br>• Ceisio llywio gwrandawyr yn fwy effeithiol rhwng Five Live a Five Live Sports Extra fel eu bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl gampau a gemau sydd ar gael. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod Five Live yw archwilio ac egluro'r newyddion, rhoi gwybodaeth gefndir a dealltwriaeth arbenigol i'r gwrandawyr a chynnig safbwyntiau ffres ar faterion cyfoes.<br><br>Rydym yn cynnig cymysgedd o straeon newyddion, chwaraeon, busnes, gwleidyddiaeth, adloniant a'r newyddion diweddaraf mewn un rhaglen, gan gynnig amrywiaeth eang o bynciau i'n gwrandawyr – am bethau na fyddent yn clywed amdanynt fel arall.<br><br>Mae *Five Live Report,* dogfennau a rhaglenni arbennig yn bwrw golwg drylwyr ar y straeon newyddion a chwaraeon diweddaraf.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd *Sport on Five* yn adeiladu ar ei waith ymchwilio ym maes chwaraeon.<br><br>• Byddwn yn ail-lansio *Weekend News* dan ofal Jon Pienaar, gan roi pwyslais newydd ar wleidyddiaeth. | • Byddwn yn darlledu tua 50 awr o raglenni dogfen, a thrafodaethau wedi'u comisiynu'n arbennig ar ddigwyddiadau newyddion a chwaraeon o bwys. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Un o brif lwyddiannau Five Live yn 2005 oedd cydweithio gyda BBC Asian Network a 1Xtra adeg yr Etholiad Cyffredinol, gan esgor ar wasanaeth darlledu ar y cyd na welwyd erioed o'r blaen. Roedd ymateb y gynulleidfa'n profi ein bod ni wedi llwyddo i apelio at y rhai nad ydynt fel arfer yn ymddiddori yn y broses wleidyddol. Rydym hefyd wedi sefydlu ein tîm newyddion ym Manceinion fel rhan o'r broses o symud newyddiadurwyr y BBC allan o Lundain, a chyrraedd cynulleidfa ehangach ledled y DU.

Parhaodd ein hymrwymiad i fyd chwaraeon, gyda'r uchafbwyntiau'n cynnwys cyfres y Lludw, Cynghrair y Pencampwyr a mwy o sylw i rygbi'r undeb.

Mater parhaus i'r rhwydwaith yw ein presenoldeb ar y donfedd ganol (MW), a'r ffaith ein bod yn colli gwrandawyr oherwydd derbyniad gwael mewn ambell ran o'r DU. Y brif her, felly, yw cynyddu nifer y gwrandawyr drwy lwyfannau digidol, lle mae safon y sain o'r radd flaenaf.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd Five Live yn:

- Canolbwyntio **ar annog gwrandawyr y donfedd ganol i wrando drwy gyfrwng llwyfannau digidol**.
- **Defnyddio mwy o gynnwys ein timau newyddion ledled y DU** a meithrin cysylltiadau cryfach gyda BBC Asian Network, i geisio cyrraedd mwy o bobl ac ehangu amrywiaeth ein straeon.
- **Defnyddio hawliau chwaraeon y BBC i'r eithaf** trwy:
  - Roi sylw di-dor i bob gêm bêl-droed yng nghystadleuaeth **Cwpan y Byd FIFA** gyda mwy o adroddiadau a dadansoddiadau, ar lwyfannau analog a digidol.
  - Cydweithio gyda'r cynhyrchwyr annibynnol newydd sy'n gyfrifol am roi rhagor o sylw i bencampwriaeth **Fformiwla Un**.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# BBC Radio Five Live Sports Extra

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Estyniad rhan-amser i BBC Radio Five Live yw BBC Radio Five Live Sports Extra sy’n cynnig mwy o ddewis i ddilynwyr chwaraeon. Byddwn yn cynnig mwy o werth i’r sawl sy’n talu ffi’r drwydded gan ddefnyddio'r hawliau chwaraeon sydd eisoes ym meddiant y BBC trwy gynnig gemau a sylwebaethau gwahanol i’r rhai a ddarperir gan Five Live.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

<table>
<tr><th>Adeiladu Prydain ddigidol</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Fel rhwydwaith digidol cenedlaethol, mae Five Live Sports Extra'n cyflawni dwy swyddogaeth bwysig:<br>– Denu cynulleidfaoedd newydd i raglenni digidol.<br>– Arddangos mwy o’r hyn sydd gan raglenni digidol i’w gynnig i bobl sydd eisoes yn gwrando.<br>Caiff gwrandawyr ein chwaer sianel, Five Live, eu hannog i wrando ar ein rhaglenni, gan ein bod yn cynnig sylwebaethau gwahanol i Five Live yn ystod adegau prysur yn y byd chwaraeon. Rydym hefyd yn darparu sylwebaeth chwaraeon pan fo Five Live yn gorfod newid i fod yn wasanaeth newyddion er mwyn rhoi sylw i stori fawr sydd newydd ddigwydd.<br>Mae Five Live Sports Extra i’w gael ar-lein yn barhaus fel rhan o bbc.co.uk/fivelive, ac yn cyflwyno defnyddwyr i rannau eraill o wasanaeth ar-lein y BBC, gan gynnwys y cymunedau rhyngweithiol niferus, y gwasanaethau sain ar-alw a gwasanaethau ffrydio byw.<br>Eleni:<br>• Bydd ein sylwebaethau yn cael eu ffrydio’n fyw pan fo hawliau’n caniatáu hynny.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae Five Live Sports Extra yn cynnig sylwebaeth o gystadlaethau a digwyddiadau yn y calendr chwaraeon sy’n ategu’r rhai a geir ar BBC Radio Five Live, gan gynnwys:<br>– sylwebaeth ychwanegol o Uwch-Gynghrair Carling yr FA<br>– sylwebaeth griced estynedig ar gyfer dilynwyr Test Match Special<br>– sylwebaeth o Bencampwriaeth ac Adran Un a Dau Coca-Cola, Cwpan Carling ac Uwch-Gynghrair yr Alban<br>– sylwebaeth ychwanegol ar Rygbi’r Undeb a Rygbi’r Gynghrair<br>– rowndiau rhagbrofol Fformiwla Un<br>– sylwebaeth ychwanegol o’r cwrt yn Wimbledon a chystadlaethau agored yr UD, Awstralia a Ffrainc<br>Rydym yn meithrin doniau darlledu a chynhyrchu chwaraeon i’r diwydiant, gan roi profiad o weithio ar raglenni chwaraeon o safon uchel i’r staff.<br>Eleni:<br>• Ein nod yw cyflwyno mwy o sylwebaeth o gemau Prawf rhyngwladol, e.e. India a Phakistan, mewn ymgais i sicrhau cynulleidfa newydd, mwy amrywiol ar gyfer criced yn y DU.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
<tr><th>Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae Five Live Sports Extra yn dod â sylwebaeth chwaraeon i’r gwrandäwr o bob rhan o'r DU, gan ddwyn pobl o bob cwr o'r DU ynghyd i ddilyn yr un chwaraeon - o gêm bêl-droed rhwng dau dîm lleol i gystadleuaeth chwaraeon fawr genedlaethol.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
<tr><th>Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Pan fo angen, defnyddir Five Live Sports Extra i ddarparu sylwebaeth sain amgen o ddigwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon mawr os oes yna ddigwyddiad neu gystadleuaeth fawr arall yn cael ei darlledu ar Five Live. Mae’r sylwebaeth yn fyw bob amser, sy’n rhoi gwir ymdeimlad o’r achlysur a’r naws i’r gwrandäwr.</td><td>Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu.</td></tr>
</table>

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Y llynedd, gwnaeth Five Live Sports Extra ategu rhaglenni Five Live trwy ddarlledu gêm wahanol o'r Uwch-Gynghrair i'r un a ddarlledwyd ar Five Live ar y rhan fwyaf o benwythnosau yn ystod y tymor pêl-droed, a thrwy ddarparu gwasanaeth tebyg gyda gemau canol wythnos.

Llwyddodd yr orsaf i greu mwy o argraff ar bobl trwy gynnig darllediad di-dor o gemau Prawf criced a rowndiau cymhwyso Fformiwla Un, ac mae'n dechrau cael enw da am ei hamrywiaeth eclectig o chwaraeon. Oherwydd amrywiaeth yr hyn a gynigiwn, yr her barhaus i ni yw denu gwrandawyr at y rhwydwaith fel rhan o'u patrwm arferol.

Yn y flwyddyn i ddod bydd Five Live Sports Extra yn canolbwyntio ar:

- Ddod yn gartref darllediadau di-dor holl **gemau Prawf criced cartref tîm Lloegr**.

- Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwr annibynnol newydd i ddarlledu rasio ceir **Fformiwla Un**.

- Parhau i hyrwyddo Five Live Sports Extra ar Five Live a **datblygu ymwybyddiaeth o'r sylwebaeth amrywiol** sydd ar gael ar y rhwydwaith.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# 1Xtra

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, gyda phwyslais cryf ar ddarparu cerddoriaeth fyw o ansawdd a chefnogi artistiaid newydd o Brydain. Mae 1Xtra hefyd yn cynnig gwasanaeth newyddion arbennig, rhaglenni trafod rheolaidd a rhaglenni dogfen wedi'u comisiynu'n arbennig, ynghyd â'r wybodaeth a'r cyngor sy'n berthnasol i'r gynulleidfa ifanc a dargedir, yn arbennig – ond nid yn gyfyngedig – i rai o leiafrifoedd ethnig.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae amserlen 1Xtra yn cynnig cymysgedd o gerddoriaeth sydd â'r nod o roi adlewyrchiad dilys o ddiwylliant cerddoriaeth ddu gyfoes. Byddwn yn edrych am y ffurfiau diweddaraf o gerddoriaeth ddu ac yn eu cyflwyno i gynulleidfa ehangach. Bydd pob math o gerddoriaeth ddu berthnasol yn cael sylw yn ein rhaglenni dydd, a bydd amserlen yr hwyr yn canolbwyntio ar raglenni genre unigol ac yn cael eu cyflwyno gan y DJs mwyaf blaenllaw yn eu maes.<br><br>Mae cerddoriaeth fyw yn allweddol i'n syniadaeth, a byddwn yn darlledu digwyddiadau o leoliadau ledled y DU, yn ogystal ag archwilio'r sin gerddoriaeth ddu dramor trwy roi sylw i ddigwyddiadau fel World Clash yn Jamaica, y prif ddigwyddiad Dancehall rhyngwladol.<br><br>Mae 1Xtra yn cefnogi doniau cerddorol newydd i'r carn, yn enwedig rhai o'r DU, ac rydym yn ymroddedig i ddarganfod y genhedlaeth nesaf o gyflwynwyr cerddoriaeth drwy'r rhaglen wythnosol *X-Tra Talent*.<br><br>Yn benodol eleni, byddwn yn:<br>• Rhoi llwyfan i artistiaid newydd a rhai sydd heb eu harwyddo yn y sioe wythnosol *Homegrown*.<br>• Darparu cyfleoedd i gyfansoddwyr ddatblygu drwy bbc.co.uk/1xmusic. | • Bydd o leiaf 70% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn newydd (cyn ei rhyddhau neu lai na mis ers ei rhyddhau).<br>• Bydd o leiaf 40% o'r gerddoriaeth a chwaraeir yn deillio o'r DU.<br>• Byddwn yn darlledu o leiaf 50 o ddigwyddiadau cerddoriaeth byw. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | |
| Mae 1Xtra yn rhwydwaith digidol.<br><br>Byddwn yn parhau i ddatblygu ffyrdd o ryngweithio gyda'n cynulleidfaoedd ac i wrandawyr ryngweithio gyda'i gilydd drwy bbc.co.uk/1xtra.<br><br>Rydym hefyd yn defnyddio'r wefan i ddarparu cynnwys unigryw, gan ddod â mwy o ddyfnder ac amrywiaeth i'n rhaglenni radio.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br>• Ailgynllunio bbc.co.uk/1xtra er mwyn gallu ei chyrchu'n haws a rhyngweithio'n well. | |

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae *1Xtra* yn cynnig gwasanaeth newyddion arbennig drwy ei fwletinau *TX* bob awr a *TX Unlimited* am ddwy awr bob dydd yn ystod yr wythnos, sy'n cyflwyno a dadansoddi materion cenedlaethol a rhyngwladol er budd cynulleidfa nad yw o bosib yn clywed newyddion yn unman arall. | • Bydd tua 10% o'n rhaglenni'n newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni gweithredu cymdeithasol.<br>• Bydd tua 20% o'n rhaglenni'n ddeunydd llafar. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae 1Xtra yn darparu canolbwynt cenedlaethol i ddilynwyr cerddoriaeth ddu ledled y DU, gan ddod â chynulleidfaoedd gwahanol at ei gilydd trwy eu diddordeb angerddol mewn cerddoriaeth.<br>Bydd 1Xtra yn parhau i ddarparu amrywiaeth unigryw o genres cerddorol, gan alluogi llawer o ddilynwyr cerddoriaeth i rannu'r profiad o wrando am y tro cyntaf drwy raglenni fel *Vibrations* i ddilynwyr gospel stryd a *Panjabi Hit Squad* am y seiniau 'fusion' Asiaidd diweddaraf.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Darlledu taith Drwm a Bas genedlaethol o leoliadau ledled y DU, gyda deunydd rhyngweithiol trylwyr i gysylltu cefnogwyr y genre gyda'i gilydd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Tra bod 1Xtra yn ymroddedig i gerddoriaeth o'r DU, rydym hefyd yn ymrwymedig i gyflwyno'r gorau o gerddoriaeth ddu o'r tu allan i'r DU, yn enwedig genres o UDA sy'n berthnasol i'n gwrandawyr.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Darlledu diwrnod arbennig o raglenni o leoliadau amrywiol yn y DU gan ganolbwyntio ar artistiaid cartref.<br>• Darlledu o'r prif ddigwyddiadau cerddoriaeth ddu rhyngwladol, fel y World Clash a'r Hip Hop Summit.<br>• Darlledu tymor o raglenni o UDA i edrych ar boblogrwydd parhaus cerddoriaeth ddu Americanaidd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Rhwydwaith cerddoriaeth yw 1Xtra yn bennaf, ond rydym hefyd yn darparu rhai cyfleoedd i addysgu'n anffurfiol drwy raglenni dogfen pwrpasol, gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol i'n cynulleidfa darged ifanc.<br>Eleni:<br>• Byddwn yn annog llythrennedd cynyddol drwy amrywiaeth o raglenni i gefnogi ymgyrch *RaW* y BBC. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006, cynyddodd 1Xtra ei chanran o gerddoriaeth newydd a chwaraewyd, a oedd yn cynorthwyo i ategu cyfnod o gynnydd cyson yn y gynulleidfa gydol y flwyddyn. Ategwyd hyn gyda chynnydd yn nyfnder ac amrywiaeth y cynnwys llafar wrth i 1Xtra geisio annog trafodaeth am faterion sy'n effeithio ar fywydau'r gynulleidfa. Cafwyd cryn effaith drwy fentrau fel *Between the Sheets: a Month in Bed with 1Xtra*, ein hymgyrch gweithredu cymdeithasol a oedd yn rhoi sylw i faterion iechyd rhywiol.

Ein blaenoriaethau allweddol yn y flwyddyn nesaf yw:

- **Parhau i wella dyfnder ac amrywiaeth ein rhaglenni llafar**.
- **Gwella ymwybyddiaeth** o 1Xtra, yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd ifanc.
- **Cynyddu'r gynulleidfa**, gan fanteisio ar ymwybyddiaeth gynyddol a gwrando digidol.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# BBC 6 Music

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC 6 Music yn apelio at y rheiny sydd wrth eu bodd â cherddoriaeth boblogaidd, gan gynnig cerddoriaeth newydd nad yw'n brif ffrwd, traciau cyngerdd a sesiwn newydd a cherddoriaeth o Archif Sain y BBC. Rydym yn canolbwyntio ar gerddoriaeth ac artistiaid nad ydynt yn cael llawer o sylw ar orsafoedd radio eraill, ac rydym yn ymroddedig i ddarparu cyd-destun i'r gerddoriaeth a chwaraeir, trwy newyddion, rhaglenni dogfen, a thrafodaeth am gerddoriaeth ynghyd â chynnwys rhyngweithiol cyffrous.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae BBC 6 Music yn adlewyrchu esblygiad cerddoriaeth boblogaidd trwy ddefnydd helaeth o archif y BBC a'n cronfa ddata o dros 3,000 o draciau.<br><br>Bydd o leiaf hanner y gerddoriaeth y byddwn yn ei chwarae dros bedair oed, a byddwn yn darlledu cyngherddau a sesiynau rheolaidd o'r 1960au ymlaen.<br><br>Bydd dyddiau thema yn cynnwys recordiadau o'r archif ochr yn ochr â deunydd diweddaraf artistiaid penodol.<br><br>Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad cerddoriaeth newydd drwy restr chwarae hynod amrywiol a thrwy gymell artistiaid newydd a llai cyfarwydd i recordio mewn stiwdio.<br><br>Eleni:<br>• Bydd cerddoriaeth fyw'n parhau'n ganolog i'n rhaglenni gan gynnwys darlledu o wyliau gydol yr haf.<br>• Bydd 6 Music yn darlledu o stiwdios newydd o wanwyn 2006 a bydd artistiaid gwadd yn gallu manteisio ar well lleoliad perfformio, yr Hub. | • Byddwn yn darlledu dros 400 awr o berfformiadau cyngerdd o'r archif.<br>• Bydd 15% o'n cerddoriaeth yn draciau cyngerdd a sesiwn o archif gerddoriaeth y BBC.<br>• Byddwn yn darlledu dros 275 o sesiynau newydd. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae 6 Music yn rhwydwaith digidol. Rydym yn dod â chymunedau cerddorol o bob cwr o'r DU a thu hwnt ynghyd, gan ddarparu fforwm ar gyfer trafodaeth a rhoi cyfle i wrandawyr gyfrannu ar yr awyr ac ar-lein. Bydd defnyddwyr bwrdd negeseuon yn cael eu hannog i drafod gwahanol fathau o gerddoriaeth a chynnwys rhaglenni. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd ein rhaglenni'n parhau i archwilio datblygiad diwylliannol cerddoriaeth boblogaidd, a bydd gwybodaeth ar-lein a recordiadau ar-alw yn cyd-fynd ac yn ategu hyn.<br><br>Rydym yn darparu bwletinau newyddion cerddorol bob awr y rhan fwyaf o'r dydd yn ystod yr wythnos ac yn cynnig newyddion mwy trylwyr ar y rhaglen wythnosol awr o hyd *The Music Week*.<br><br>Rydym yn ailddarlledu rhaglenni dogfen o archif y BBC, ac yn comisiynu deunydd newydd sy'n rhoi cipolwg ar faterion cerddorol cyfredol.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd 6 Music yn parhau â'i raglenni *Lamacq's Library* lle mae llyfrau ar amrywiaeth eang o bynciau diwylliannol yn cael eu darllen a'u trafod mewn rhaglen oriau brig yn ystod y dydd. | • Byddwn yn cyflwyno dros 550 awr o ailddarllediadau a rhaglenni dogfen a thraethodau wedi'u comisiynu o'r newydd. |
| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Rhwydwaith cerddoriaeth yw 6 Music yn bennaf, ond rydym hefyd yn cynnig ambell gyfle i rannu barn ac adeiladu ymdeimlad o gymuned drwy ddarparu cyd-destun ar gyfer y gerddoriaeth a chwaraeir, drwy newyddion cerddoriaeth, rhaglenni dogfen a chynnwys rhyngweithiol.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd 6 Music yn archwilio etifeddiaeth ddiwylliannol ehangach y cyfnod pync, 30 mlynedd wedi iddo ymddangos gyntaf. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Ein nod yw adlewyrchu'r DU yn gyfan drwy ddarparu darllediadau yn ystod y dydd o leoliadau gwahanol bob mis. Er enghraifft, bydd digwyddiadau *Lamacq in the City* ledled y wlad yn rhoi cyfle i artistiaid newydd rannu'r un llwyfan ag artistiaid adnabyddus.<br><br>Mae'n hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol yn canolbwyntio ar roi cyfleoedd ymarferol ar gyfer datblygiad personol i gynulleidfaoedd.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd 6 Music yn trefnu tair ymgyrch o weithredu cymdeithasol, gydag adnoddau ar-lein i'w cefnogi. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae’r rhan fwyaf o’n cynnwys – yn enwedig o'r archif – yn tarddu o'r DU, ac mae llawer o'r sesiynau a ailddarlledir gydag artistiaid tramor wedi'u recordio'n wreiddiol yn y DU.<br>Eleni:<br>• Bydd 6 Music yn darlledu o ŵyl South by Southwest yn Austin, Texas, gan ohebu ar ddatblygiadau newydd yn y diwydiant ac arddangos y dalent o Brydain a gynrychiolir yno. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Y llynedd, cynorthwyodd cymysgedd unigryw BBC 6 Music o gyngherddau archif a cherddoriaeth fyw y rhwydwaith i gyflawni twf sylweddol flwyddyn ar flwyddyn o ran y gynulleidfa yr oedd yn ei chyrraedd - roedd cynnydd yn y cyfartaledd wythnosol o bron i 40% o'i gymharu â 2004. Fodd bynnag, er mai’r nod oedd apelio at bawb sy'n mwynhau cerddoriaeth, roedd cydbwysedd gwrywaidd/benywaidd gwrandawyr y gwasanaeth oddeutu 70:30.

Ein blaenoriaethau allweddol yn y flwyddyn nesaf yw:

- **Cynyddu'r gynulleidfa** drwy addasu'r amserlen ddarlledu a chyflwyno cyflwynwyr newydd i'r ddarpariaeth.
- **Ehangu apêl y rhwydwaith**, yn enwedig o ran cydbwysedd gwrywaidd/benywaidd gwrandawyr.
- Datblygu ymhellach amrywiaeth y ddarpariaeth sy'n **rhoi rhagor o sylw i artistiaid newydd o Brydain** sy'n cael eu chwarae’n llai cyson ar yr awyr ar orsafoedd eraill.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# BBC 7

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Gwasanaeth radio digidol llafar yw BBC 7 sy'n cynnig comedi, dramâu a darlleniadau, yn bennaf o archifau'r BBC. Mae'r rhwydwaith wedi'i rannu'n barthau sy'n seiliedig ar fathau o raglenni fel bod gwrandawyr yn gwybod y bydd math arbennig o raglen wastad ar gael ar adeg benodol o'r dydd. Mae BBC 7 hefyd yn hafan radio llafar i blant, gan ddarlledu rhaglenni byw ar eu cyfer yn rheolaidd.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Fel gorsaf radio ar gyfer Prydain gyfan sydd ond ar gael ar lwyfannau digidol, mae BBC 7 yn helpu i ddenu cynulleidfaoedd gwahanol i raglenni digidol, yn enwedig gwrandawyr sydd â diddordeb mewn rhaglenni plant, comedi a drama.<br><br>Mae cynnwys bbc.co.uk/bbc7 yn ategu'r gwasanaeth ar yr awyr, gan gynnwys adran benodol i blant, byrddau negeseuon, a nodweddion rhyngweithiol eraill sy'n rhoi cyfle i'r gwrandawyr iau gyfrannu a rhannu eu safbwyntiau. Rydym hefyd yn cynnig mynediad ar-alw wedi'r darllediad, i wrandawyr y rhyngrwyd.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn ceisio denu gwrandawyr newydd trwy ddarlledu tymor o raglenni *Doctor Who*.<br><br>• Byddwn yn datblygu bwrdd negeseuon *Big Toe* ymhellach er mwyn i'r gwrandawyr iau ryngweithio â chynnwys y rhaglen. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod BBC 7 yw cyflwyno'r gorau o archifau llafar y BBC a rhaglenni llafar newydd i'r gwrandawyr – yn gomedïau radio, dramâu, darlleniadau ac adloniant.<br><br>Mae BBC 7 hefyd yn ceisio hybu doniau newydd, a bydd ein partneriaeth gyda BBC writersroom yn ceisio datblygu awduron radio newydd.<br><br>Ar y cyd â BBC Talent, byddwn yn datblygu ac yn darlledu Gwobrau Comedi Newydd y BBC i hybu awduron a pherfformwyr comedi.<br><br>Byddwn yn gwella mynediad i raglenni ar-lein BBC 7 drwy hyrwyddo'r ffaith fod ein holl raglenni bellach ar gael drwy gyfrwng BBC Radio Player.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn cynnwys comedi o ddwy o brif wyliau Prydain - Caeredin ym mis Awst a Chaerlŷr ym mis Chwefror.<br>• Byddwn yn comisiynu dramâu byrion gan awduron radio newydd trwy gyfrwng menter BBC writersroom.<br>• Bydd straeon a dramâu i blant yn cynnwys drama newydd Stacey Stone ar gyfer *The Big Toe Radio Show*, a chyfres newydd *The Adventures of PG Woodlouse* ar *The Little Toe Radio Show*. | • Darlledu o leiaf 2,800 awr o gomedi, gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.<br>• Darlledu o leiaf 2,800 awr o ddrama, gan gynnwys ailddarllediadau a rhaglenni a brynir.<br>• Comisiynu a darlledu o leiaf 10 awr o raglenni comedi gwreiddiol newydd.<br>• Comisiynu a darlledu o leiaf 20 awr o raglenni drama gwreiddiol newydd. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae dysgu wrth wraidd rhaglenni plant BBC 7. Nod *Little Toe Radio Show*, sy'n cael ei ddarlledu'n ddyddiol i blant iau, yw cael plant ifanc i wirioni ar straeon syml trwy gyfrwng cerddoriaeth a chaneuon.<br><br>Rydym hefyd yn cyflwyno straeon i blant hŷn, yn ogystal â rhaglenni nodwedd, newyddion, cyfweliadau, adolygiadau a thrafodaethau am bob math o bynciau gan gynnwys seryddiaeth, llenyddiaeth, cerddoriaeth, byd natur a gwyddoniaeth. Ar ddydd Sul, pan fo gan blant fwy o amser i wrando ar y radio, rydym yn cyflwyno straeon a dramâu hirach - straeon â sawl ystyr iddynt, straeon sy'n deffro'r dychymyg ac annog gwrandawyr i ddysgu a deall.<br><br>Mae ein rhaglenni cylchgrawn byw yn rhoi cryn bwyslais ar ddysgu trwy brofiad, gan annog plant i gyfrannu iddynt, holi gwesteion a chyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau arbennig.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn gweithio gyda rhaglenni Radio 4 i gyd-fynd â thymor o raglenni ar blentyndod, gyda straeon ac eitemau arbennig ar gyfer y gynulleidfa iau.<br><br>• Bydd *The Big Toe Radio Show* yn datblygu rhagor o gystadlaethau i annog plant i ysgrifennu ar gyfer y radio, gan gynnwys cydweithio â *Reith Lectures* Radio 4. | • Byddwn yn cyflwyno dros 1,400 awr o raglenni i blant, yn cynnwys ailddarllediadau |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Nod BBC 7 yw bod yn gartref radio llafar i blant ac yn fodd iddynt ymgynnull, archwilio a rhannu gwybodaeth yn ddiogel trwy amrywiaeth o gyfleoedd rhyngweithiol ar yr awyr ac ar-lein.<br><br>Mae'r rhwydwaith hefyd yn adlewyrchu gwahanol rannau'r DU trwy gyflwyno darllediadau allanol o bryd i'w gilydd - ym maes plant a doniau comedi newydd yn bennaf.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn annog comedïwyr newydd o bob rhan o'r DU i gymryd rhan yn rowndiau lleol a rhanbarthol Gwobrau Comedi Newydd.<br><br>• Byddwn yn darlledu rhai o raglenni gorau gorsafoedd lleol a rhanbarthol y BBC, gan gynnwys *Ed Doolan Interviews* BBC WM, comedi gan Radio Leeds a *Comic to Comic* gan Radio Scotland. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Gwasanaeth adloniant yw BBC 7 yn bennaf, er ei fod hefyd yn darlledu rhaglenni cyfoes wedi'u teilwra'n arbennig i'r to iau fel rhan o *The Big Toe Radio Show*. Mae pecyn y wasg *The Big Toe* yn cynnwys adroddiadau gan blant o bob cwr o'r DU, ar bynciau mor amrywiol â'r GIG ac anifeiliaid anwes.<br>Eleni:<br>• Bydd pecyn y wasg *The Big Toe* yn parhau i roi cyfleoedd i blant gael ysgrifennu ar gyfer radio a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar yr awyr. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC 7 yn targedu cynulleidfa gartref. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Un o brif uchafbwyntiau llynedd oedd tair rhaglen yn ymwneud â *Doctor Who* a ddarlledwyd i gyd-fynd â'r gyfres newydd ar BBC One ym mis Ebrill. Rhoddodd y rhaglenni hyn gryn hwb i'r orsaf, yn ogystal â chreu ymdeimlad modern a chyfoes i rwydwaith archifol yn y bôn.

Llwyddwyd i ddenu'r nifer fwyaf o wrandawyr hyd yma yn ystod y flwyddyn, a byddwn yn dal ati i geisio denu gwrandawyr newydd.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd BBC 7 yn canolbwyntio ar:

- Geisio **denu cynulleidfaoedd newydd** trwy barhau i gynnig cymysgedd cyffrous o raglenni o'r archifau a rhaglenni newydd sbon, a'u hyrwyddo'n briodol.
- Paratoi rhaglenni **plant, comedi a drama newyddi**.
- Parhau i **gynnig ffyrdd ychwanegol i'r gwrandawyr wrando a rhyngweithio** â ni, ar yr awyr a thrwy bbc.co.uk/bbc7.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# BBC Asian Network

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod BBC Asian Network yw diddanu a hysbysu Asiaid Prydeinig ifanc gyda chymysgedd cyfoes o gerddoriaeth a llefaru. Er mai Asiaid Prydeinig dan 35 oed yw'r brif gynulleidfa darged, mae'r rhwydwaith yn ceisio apelio at bawb sy'n rhannu diddordeb mewn materion, cerddoriaeth a diwylliant Asiaidd Prydeinig.

Mae'r rhwydwaith yn ymroddedig i fod yn fforwm awdurdodol ar gyfer trafodaeth ddeallus am newyddion a materion sy'n berthnasol i Asiaid Prydeinig. Mae'n chwarae amrywiaeth eang o gerddoriaeth sydd â dylanwad De Asia, gyda phwyslais arbennig ar berfformiadau byw ac artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd. Darperir rhaglenni mewn amrywiaeth o ieithoedd De Asiaidd, i adlewyrchu'r dylanwadau ieithyddol ar Asiaid Prydeinig ifanc.

## Sut mae'r gwasanaeth yn diwallu pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae BBC Asian Network yn cynnig newyddion a materion cyfoes cyfredol, cywir a diduedd, gan ddarparu'r sylwebaeth ddiweddaraf ar ddigwyddiadau leded y DU a'r byd wrth iddynt ddigwydd, mewn arddull sy'n gwneud y rhaglenni'n hygyrch i'w cynulleidfa darged.<br><br>Mae mwyafrif rhaglenni Asian Network yn fwy ac yn gymysgedd o ddeunydd llafar a cherddoriaeth mewn fformat hynod hyblyg. Golyga hyn fod yr orsaf yn gallu cynnig mynediad uniongyrchol i newyddion wrth iddo ddigwydd a gwybodaeth sy'n berthnasol i Asiaid Prydeinig. Mae'r ymrwymiad i ddeunydd llafar gydol yr amserlen hefyd yn golygu nad yw straeon newyddion yn cael eu cyfyngu i fwletinau – cymerir amser i'w datblygu, eu dadansoddi a'u rhoi mewn cyd-destun drwy raglenni materion cyfoes.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn cyflwyno rhaglenni dogfen rheolaidd i ddarlledu straeon gwreiddiol ac i alluogi ymchwiliad ac esboniad manwl. | • Bydd oddeutu 50% o ddeunydd llafar a 50% o gerddoriaeth yn ein rhaglenni. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Fel gwasanaeth radio digidol i Brydain, mae’r Asian Network yn ceisio cyflawni swyddogaeth bwysig i gynyddu nifer y bobl sy’n gwrando ar y radio trwy lwyfannau digidol, yn enwedig ymhlith y gynulleidfa Asiaidd-Brydeinig iau. Mae’n hysbysu gwrandawyr ar amleddau analog AM y rhwydwaith yng Nghanolbarth Lloegr am y derbyniad gwell sydd i’w gael ar lwyfannau digidol ac yn rhan o ymgyrchoedd y BBC i hyrwyddo radio digidol DAB.<br><br>Caiff y rhaglenni eu hategu gan gynnwys rhyngweithiol cynhwysfawr ar bbc.co.uk/asiannetwork, gan gynnwys y defnydd o fideo ac elfennau gweledol eraill. Mae’r Asian Network hefyd yn darparu rhywfaint o fynediad ar-alw wedi'r darllediad i’w raglenni i wrandawyr y rhyngrwyd.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Cynnig cynnwys mewn dulliau newydd i’n gwrandawyr ifanc sy’n gyfarwydd â thechnoleg, gan gynnwys blogs a mwy o ryngweithio. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Ym maes cerddoriaeth, mae'r Asian Network yn arwain y blaen o ran cefnogi creadigrwydd, ac yn gweithredu fel llwyfan i arddangos artistiaid newydd ac artistiaid Asiaidd-Brydeinig ledled amrywiaeth eang of genres. Mae'n ceisio cyflwyno'r gerddoriaeth Asiaidd-Brydeinig newydd orau i'r gynulleidfa ehangaf bosib, gan feithrin a datblygu artistiaid newydd, tra'n annog gwrandawyr i herio ac ehangu eu chwaeth.<br><br>Mae drama yn rhan bwysig o amserlen genre cymysg Asian Network. Mae'r rhwydwaith yn comisiynu drama radio sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged, gan annog doniau ysgrifennu, cyfarwyddo a pherfformio newydd.<br><br>Yn ei ddeunydd llafar, mae Asian Network yn rhoi sylw i amrywiaeth eang o faterion artistig a diwylliannol sy'n ymwneud ag Asiaid Prydeinig, fel bwyd, ffasiwn, chwaraeon a ffilm.<br><br>Eleni:<br><br>• Bydd cerddoriaeth fyw yn cael cartref newydd rheolaidd yng nghanol yr amserlen. Bydd y sioeau prynhawn a phenwythnos newydd yn cyflwyno enwau mawr cerddoriaeth Asiaidd ochr yn ochr ag artistiaid arbrofol a heriol newydd.<br>• Byddwn yn cyflwyno enghreifftiau unigryw o gydweithio, artistiaid rhyngwladol, bandiau Prydeinig, gweithdai ar gyfer artistiaid Asiaidd-Brydeinig newydd a darllediadau o gyngherddau yn ein rhaglenni cerddoriaeth.<br>• Bydd yr opera sebon dyddiol *Silver Street* yn comisiynu awduron adnabyddus fel Meera Syal a Tanika Gupta i gyfarwyddo penodau unigol. Bydd y fenter hon yn cael ei hehangu wedyn trwy gyfrwng cystadleuaeth i ddod o hyd i dalent ysgrifennu newydd ymhlith gwrandawyr Asian Network. | • Bydd o leiaf 40% o'n rhestr gerddoriaeth yn artistiaid o'r DU. |

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Ein nod yw sicrhau bod ein rhaglenni yn adlewyrchu'r DU gyfan ac yn berthnasol ledled y DU, a'u bod yn cyflawni swyddogaeth allweddol o ran teilwra ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol y BBC i anghenion Asiaid Prydeinig.<br><br>Mae BBC Asian Network yn rhoi sylw i brif wyliau crefyddol Siciaid, Moslemiaid, Hindwiaid a Christnogion gyda'r nod o'u gwneud yn hygyrch i bob cymuned ffydd. Mae pob diwrnod yn ystod yr wythnos yn agor gydag awr o gerddoriaeth ddefosiynol.<br><br>Mae newyddion chwaraeon yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwasanaeth. Mae'r darllediadau'n adlewyrchu diddordebau a llwyddiannau Asiaidd gyda'r pwyslais ar gemau criced Prawf a gemau pêl-droed yr Uwch-Gynghrair.<br><br>Eleni ein nod yw:<br>• Mynychu Melas allweddol yn y DU a darlledu ohonynt.<br>• Adlewyrchu safbwyntiau cymunedau Asiaidd trefol yn bennaf ledled y DU.<br>• Cyflwyno lleisiau newydd i'r rhwydwaith trwy gomisiynu adolygiadau gan wahanol rannau o'r boblogaeth Asiaidd y DU, fel myfyrwyr prifysgol a dilynwyr y celfyddydau. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Er ein bod yn canolbwyntio'n bennaf ar fywydau Asiaid yn y DU, elfen bwysig o'n newyddiaduraeth fydd gohebu ynghylch De Asia ac Asiaid alltud.<br><br>Trwy fod y rhwydwaith ar gael ar-lein ledled y byd, rydym yn darparu llwyfan byd-eang i ddiwylliant a chyflawniadau Asiaid Prydain.<br><br>Eleni:<br>• Byddwn yn canolbwyntio mwy ar artistiaid Asiaidd Prydeinig newydd a'r rhai nad ydynt wedi cael cytundeb recordio, gan alluogi gwrandawyr ym mhob cwr o'r byd i glywed y gorau o ddiwylliant Asiaidd Prydeinig.<br>• Bydd ein rhaglen newyddion dyddiol newydd yn cynnwys newyddion diweddaraf o bedwar ban byd yn gyson. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod Asian Network yw bod mor hygyrch â phosib gyda'i deunydd llafar, gan weithio i wneud pynciau cymhleth yn hawdd eu deall. Mae hyn yn arbennig o wir am raglenni dogfen yr orsaf.<br><br>Yn aml, mae Asian Network yn cymysgu gwahanol genres gan gynnwys cerddoriaeth, newyddion, chwaraeon, busnes, gwleidyddiaeth, adloniant, drama a sgwrs mewn un rhaglen, gan gyflwyno amrywiaeth eang o bynciau i wrandawyr na fyddent wedi dod ar eu traws fel arall o bosib.<br><br>Mae rhaglenni iaith Asian Network wedi'u bwriadu ar gyfer gwrandawyr sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf mae'n debyg, ac felly'n helpu i gysylltu Asiaid Prydeinig gyda'u gwreiddiau ieithyddol ac yn eu gwahodd i ymddiddori yn ieithoedd De Asia mewn ffordd ddiddorol, ryngweithiol.<br><br>Eleni:<br><br>• Rydym am wneud rhaglenni iaith Asiaidd yn berthnasol a deniadol i Asiaid Prydeinig ifanc. | • Byddwn yn darlledu cyfartaledd o 3–5 awr o raglenni iaith bob dydd. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Llynedd, cynhaliodd BBC Asian Network adolygiad o fformat y rhan fwyaf o'i raglenni a chyflwynwyd newidiadau i rai ohonynt, gyda newidiadau pellach ar y gweill yn 2006/2007. Gwelwyd gwelliant yn amrywiaeth ac ansawdd ein rhaglenni, yn enwedig ym maes newyddion a materion cyfoes, gyda darllediadau sylweddol am y bomio yn Llundain fis Gorffennaf, daeargryn Pakistan a therfysg Birmingham.

Ym maes cerddoriaeth, tanlinellodd cyngerdd byw Asian Network o'r Symphony Hall yn Birmingham ein hymrwymiad i gerddoriaeth Asiaidd-Brydeinig ac i ddod o hyd i ddoniau newydd.

Yn 2006/2007 byddwn yn canolbwyntio ar:

- Gryfhau cysondeb ac ansawdd cyffredinol ein rhaglenni gydol yr amserlen, a **gwella uchelgais golygyddol y rhwydwaith** trwy:
  - Gyflwyno **rhaglenni dogfen rheolaidd newydd**.
  - Gwella'n perthynas â **BBC News**.
  - **Cyflwyno rhaglenni newydd** yn yr amserlen, fel diweddariad newyddion amser cinio yn cwmpasu agenda newyddion eang, yn ogystal â newyddion o fyd cerddoriaeth ac adloniant, busnes a chwaraeon.
  - Darlledu mwy o **gerddoriaeth fyw**.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# Cyfryngau newydd

# bbc.co.uk

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae gwefan bbc.co.uk yn ateb chwe phwrpas y BBC, gyda phwyslais ar werth democrataidd ac addysgol, trwy ddarparu cynnwys arloesol ac unigryw, sydd ar gael i bawb. Fel man cychwyn ar y rhyngrwyd a chanllaw i'r cyfrwng, mae bbc.co.uk yn hyrwyddo defnydd o'r rhyngrwyd i ddatblygu perthynas agosach gyda thalwyr ffi'r drwydded ac i gryfhau atebolrwydd y BBC.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae bbc.co.uk yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys digidol hygyrch o ansawdd uchel am ddim gan y BBC a chysylltiadau i gynnwys gan ddarparwyr eraill. Yn ein holl weithgareddau rydym yn ceisio gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu diwydiant rhyngrwyd cyfoethog yn y DU.<br><br>Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaethau a chynnwys ar gyfer defnyddwyr profiadol, tra ar yr un pryd yn darparu pwyntiau mynediad i'r rhyngrwyd i ddefnyddwyr newydd, gan eu hannog trwy brosiectau llythrennedd cyfryngau digidol prosiectau a rhoi mynediad iddynt i dechnolegau perthnasol.<br><br>Yn amodol ar unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol, eleni byddwn yn:<br>• Ehangu ein gwasanaethau dal i fyny teledu a radio yn ogystal â darlledu'n fyw ar-lein yr un pryd ag ar y teledu a'r radio.<br>• Gwella'n dulliau llywio, gan gynnwys gwasanaeth chwilio gwell sy'n cynnwys dull o chwilio lluniau llonydd a deunydd clywedol.<br>• Treialu archif gwasanaeth cyhoeddus gan ehangu'r archif bresennol o raglenni a chlipiau.<br>• Annog defnyddwyr i greu, ailgymysgu a rhannu eu cynnwys eu hunain trwy ddatblygu cynllun peilot Archif Creadigol y BBC yn barhaus. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae ein gwasanaeth newyddion a gwybodaeth yn ategu rhaglenni newyddion teledu a radio’r BBC ym mhob maes pwnc, gan gynnwys newyddion a chwaraeon lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br>Rydym yn darparu dulliau gwahanol i bobl ddefnyddio ein darpariaeth newyddion a rhyngweithio â hi gan gynnwys bbc.co.uk/newsround i ddefnyddwyr iau, sy’n cynnwys modiwl dysgu newyddiaduraeth sy’n annog a galluogi plant i ddysgu ynghylch materion penodol.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Datblygu gwasanaethau pellach wedi’u teilwra ar gyfer ffonau symudol a dyfeisiau llaw eraill, yn amodol ar unrhyw gymeradwyaeth angenrheidiol.<br>• Cyflwyno gwasanaeth newyddion testun i chwech o ranbarthau’r Alban ac ehangu’n darpariaeth newyddion fideo-ar-alw gyfredol.<br>• Cyflwyno amrywiaeth o blogs i alluogi darllenwyr i ryngweithio gyda BBC News<br>• Ehangu cynllun peilot Archif Creadigol y BBC. | • Byddwn yn lansio dau ganllaw rhyngweithiol newydd (Y Senedd a’r UE). |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae bbc.co.uk yn buddsoddi mewn cynnwys a chymwysiadau sy’n creu gwerth addysgol i blant, rhieni, athrawon ac oedolion sy’n dysgu trwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol.<br>Rydym yn darparu ar gyfer pob lefel gallu, a bydd ail-lansio *Boost* yn gyfraniad arwyddocaol i blant ag anghenion arbennig.<br>Byddwn hefyd yn lansio ein gwasanaeth iaith fideo rhyngweithiol cyntaf (yn Ffrangeg), gyda mwy o ddarpariaeth wedi’i chynllunio ar gyfer y tair blynedd nesaf.<br>Rydym yn parhau i gefnogi prosiectau allgymorth – fel bysys digidol y BBC – ac ymgyrchoedd dysgu eraill, gan gynnwys, eleni, ymgyrch gadwraeth *Breathing Places* a darpariaeth sgiliau sylfaenol i oedolion.<br>Eleni, yn arbennig, byddwn yn:<br>• Ailddatblygu ac uwchraddio bbc.co.uk/blast i alluogi pobl ifanc yn eu harddegau i ddatblygu, mynegi ac arddangos eu gallu creadigol.<br>• Ail-lansio bbc.co.uk/cbeebies gan ganolbwyntio mwy ar dargedau dysgu cynnar. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Rydym yn parhau i archwilio dulliau newydd o ddefnyddio'r rhyngrwyd i ddarparu fformatau adloniant newydd unigryw ac arloesol i ddatblygu cynnwys newydd ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau.<br>Bydd defnyddwyr yn cael cyfle ac yn cael eu hannog i wneud eu cyfraniadau eu hunain ac i gynhyrchu eu cynnwys eu hunain - gan gynnwys y cynllun peilot Archif Creadigol a'r *Film Network* a lansiwyd yn ddiweddar - cymuned lle gall talent newydd gynhyrchu ffilmiau ym Mhrydain arddangos eu gwaith a rhannu sgiliau a'r hyn maent wedi'i ddysgu.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Lansio o leiaf dau fformat adloniant ar-lein.<br>• Treialu fideo band eang gyda chyngherddau Radio 1. | • Datblygu'r *Film Network* fel y bydd yn gallu ffrydio o leiaf 300 o ffilmiau byr Prydeinig newydd. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Rydym wedi ymrwymo i annog cynulleidfaoedd i symud o ddefnydd goddefol i gymryd rhan yn weithredol – ble bynnag maent yn byw a beth bynnag fo'u cefndir.<br>Rydym yn cynnal y safleoedd *Where I Live* lleol a'r *Action Network* cymunedol, a fydd yn darparu cronfa ddata o brosiectau lleol yn ymgyrch gadwraeth *Breathing Places*.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi ymgyrchoedd eraill y BBC yn cynnwys *Sport Action*.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Gwella'n gwefan i'r gymuned anabl *Ouch!* ac yn gwneud cynnwys sain yn hygyrch.<br>• Ehangu cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr BBC Scotland y tu hwnt i wasanaeth cyfredol Island Blogging. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae bbc.co.uk yn gweithredu fel llwyfan i gynnwys byd-eang, gan ddarparu gwasanaeth newyddion rhyngwladol (wedi'i ariannu gan BBC World Service), a chynnig gwasanaeth newyddion o ansawdd uchel i gynulleidfa'r DU sy'n rhoi sylw manwl sylweddol i newyddion tramor ac yn ei ddadansoddi.<br>Rydym hefyd yn ceisio darparu fforwm byd-eang, i arddangos rhaglenni Prydeinig ac ysgogi trafodaeth rhwng pobl ledled y byd.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Buddsoddi ymhellach mewn cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr, sy'n ein galluogi i brosesu adroddiadau, lluniau a fideos o lygad y ffynnon gan ddarllenwyr o bob cwr o'r byd a'u rhannu ledled BBC News. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Llynedd, mewn marchnad sy'n ehangu'n barhaus, parhaodd bbc.co.uk i gynyddu ei chynulleidfa (mae dros hanner oedolion Prydain sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth) ac, yn bwysicach, llwyddwyd i gadw'r gynulleidfa honno wrth i lefelau defnyddio wella gyda chynnydd yn nifer yr ymweliadau â thudalennau a'r amser cyfartalog mae pob defnyddiwr yn ei dreulio ar-lein.

Yn 2005/2006 treialwyd nifer o wasanaethau 'cenhedlaeth nesaf', gan gynnwys y BBC iPlayer a Stapler, sydd angen cymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr cyn eu gweithredu'n llawn, ond sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y gynulleidfa ym maes ar-alw yn y dyfodol.

Yn 2006/2007, ein blaenoriaethau allweddol yw:

- **Parhau i geisio cael mwy o gynulleidfa** trwy wella'n newyddion, gwybodaeth a chynnwys addysgol, a thrwy ddarparu fformatau adloniant newydd ac arloesol. Byddwn yn ceisio cynyddu ein cynulleidfa fisol i 60% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU eleni.

- **Gwella ansawdd ac effaith** trwy ddatblygu'n gwasanaeth portffolio o offer a dulliau ymhellach i hwyluso ac arddangos cyfryngau cymdeithasol ac i alluogi defnyddwyr i lywio trwy wybodaeth sy'n gynyddol gymhleth.

## Ymrwymiadau statudol

Mae gan bbc.co.uk gwota cynhyrchu allanol gwirfoddol o 25%.

# BBCi

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBCi yn cynnig y newyddion diweddaraf, tywydd, addysg, adloniant a phob math o ddeunydd aflinol arall i holl gynulleidfaoedd teledu digidol. Nod y gwasanaeth yw gwella gwerth yr hyn sydd gan deledu'r BBC i'w gynnig i wylwyr digidol trwy fideo, sain, lluniau a thestun rhyngweithiol.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Nod BBCi yw bod yn ffynhonnell hanfodol ar gyfer newyddion uniongyrchol i wylwyr teledu digidol, gan roi sylw i'r prif newyddion, chwaraeon a thywydd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol, ar flaen bysedd y gwylwyr unrhyw bryd - yn llythrennol felly.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Parhau i dreialu prosiect teledu lleol.<br>• Gwella'r sylw di-dor i newyddion o bwys, gan gynnwys etholiadau lleol y DU ym mis Mai a chystadleuaeth Cwpan y Byd FIFA o'r Almaen yn yr haf.<br>Hefyd, byddwn yn cynyddu nifer y dolenni newyddion ar Freeview os yw hynny'n ymarferol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBCi yn ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau dysgu a'r cynnwys a ddarperir gan y BBC.<br>Eleni byddwn yn ehangu ein canllawiau adolygu TGAU ac yn cynnig mwy o wasanaethau rhyngweithiol i blant hŷn.<br>Byddwn yn parhau i ddatblygu gwasanaeth CBBC eXtra i blant iau, gan roi mwy o gyfle iddynt ryngweithio gyda gemau addysgiadol a'u hannog i gymryd mwy o ran mewn gwasanaethau testun a fideo.<br>Ar CBeebies byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau rhyngweithio yn fwy atyniadol a pherthnasol i rieni, cynhalwyr a phlant drwy gynnig straeon a gweithgareddau sy'n gwneud y gorau o'r dechnoleg sydd ar gael.<br>Yn benodol eleni, byddwn yn:<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau BBCi i blant trwy eu hyrwyddo ar sianeli llinol eraill a chydweithio â nhw. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae ein gwasanaethau rhyngweithiol wedi torri tir newydd, gan gefnogi datblygiad cymwysiadau a chynnwys ledled teledu digidol. Ein nod yw parhau i arloesi a meithrin cysylltiadau pellach gyda'r gymuned greadigol allanol, gan gynnwys cynyddu cyfran y cynhyrchion a gwasanaethau allanol.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Ehangu gwasanaeth BBCi i gynnwys sianeli radio ar lwyfannau cêbl. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Ein nod yw parhau i arbrofi ac arloesi gyda chyfraniadau'r defnyddwyr er mwyn hybu gwerth cymdeithasol ein gwasanaeth, a chynnwys mwy o sylwadau'r defnyddwyr ar brif bynciau newyddion y dydd.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Ailwampio'r gwasanaeth newyddion teithio presennol i gyflwyno mwy o wybodaeth ranbarthol.<br><br>• Ehangu *Your Stories*, gwasanaeth parhaus sy'n rhoi cyfle i bobl ymateb a chyfrannu at bynciau cyfoes ac ymgyrchoedd y BBC.<br><br>• Bwrw golwg ar 30 o gymunedau gwahanol y DU dros 30 diwrnod fel rhan o gyfres *Use Your Stories*. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae'n gwasanaeth newyddion yn cynnwys cyd-destun a chynnwys ategol ar gyfer straeon o bedwar ban byd, a rhoi gwybodaeth gefndir am faterion o bwys rhyngwladol.<br><br>Dim ond cynulleidfaoedd y DU sy'n gallu derbyn BBCi. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Dim ond ar deledu digidol mae BBCi ar gael, ac mae'n cynnig gwell profiad i wylwyr sydd eisoes wedi troi at wasanaeth digidol. Er mai gwasanaeth eilaidd ydym i wylwyr digidol, mae'n cyfoethogi profiad ein defnyddwyr.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Ehangu BBCi i wasanaeth FreeSat, yn amodol ar lansio'r llwyfan hwnnw.<br><br>• Dechrau a chwblhau arbrawf technegol ar gyfer teledu dal-i-fyny a chyrchu ar beiriannau recordio fideo personol(PVRs).<br><br>• Ehangu BBCi i gyrchu a defnyddio cynnwys ar-alw'r BBC (yn nhreialon fideo-ar-alw ntl). | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Dim ond i wylwyr teledu digidol y DU mae BBCi ar gael. Ein nod yw sicrhau bod gwylwyr yn gallu dod o hyd i'r cynnwys yn hawdd a hwylus, ar flaenau eu bysedd.

Cafodd y gwasanaeth ei ail-lansio'r llynedd.

Ein blaenoriaethau eleni yw:

- **Denu rhagor o gynulleidfa**, trwy barhau i wella ac ehangu cynnwys ein gwasanaeth.
- **Gwella ansawdd ac effaith y gwasanaeth** drwy ei wneud yn haws ei gyrchu, a chynnal neu wella amseroedd mynediad 2005/2006.
- Yn amodol ar gael y caniatâd angenrheidiol, **rhoi cyfle i gyrchu gwasanaethau-ar-alw'r BBC** trwy BBCi.

## Ymrwymiadau statudol

Dim.

# BBC jam

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC jam yn wasanaeth ar-lein am ddim sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan ddarparu adnoddau rhyngweithiol o ansawdd uchel y gellir eu defnyddio yn y cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned.  Mae’r gwasanaeth yn cyd-fynd ag elfennau allweddol y cwricwlwm ysgol ar gyfer disgyblion 5 i 16 oed, ac yn cynnig adnoddau a fydd yn ychwanegu gwerth at ddysgu i blant o bob gallu.

## Sut mae’r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

<table>
<tr><th>Hyrwyddo addysg a dysgu</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>
Gwasanaeth rhyngweithiol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yw BBC jam, sy’n seiliedig ar addysg ffurfiol, gwricwlaidd.
Bydd ein cynnwys - a ddatblygwyd ar ôl ymgynghori gydag arbenigwyr pwnc ac Asiantaeth Cyfathrebu a Thechnoleg Addysgol Prydain (BECTA) y Llywodraeth – yn esblygu i gwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ysgol sy’n targedu grwpiau oedran penodol. Mae'n rhoi lle canolog i’r dysgwr a’r nod yw helpu pontio’r bwlch rhwng yr ysgol a’r cartref . Ein nod yw cyflwyno pynciau newydd bob mis neu ddau yn ystod y flwyddyn.
Gan weithio'n unol â'r amodau a bennwyd gan y Llywodraeth ar gyfer y gwasanaeth, ni fyddwn yn cymryd agwedd ddidactig at ein pynciau, ond yn hytrach byddwn yn eu datblygu mewn ffordd sy'n annog hunan gymhelliant, archwilio a chreadigrwydd, gyda defnyddwyr yn rheoli eu dysgu eu hunain. Mae'n gwasanaeth wedi'i gynllunio i hwyluso eu dealltwriaeth, adeiladu cymwyseddau ac annog cydweithredu gyda dysgwyr eraill.
Eleni:
<ul>
<li>Gan weithio'n benodol i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i’r holl bynciau gwahanol er mwyn cyflawni, dros amser, amod yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gwotâu ar gyfer gwahanol gategorïau o bynciau.</li>
<li>Byddwn yn arbrofi gyda dulliau technolegol newydd, a byddwn hefyd yn cynnwys adnoddau sy'n arloesol yn addysgol.</li>
</ul>
</td><td>
<ul>
<li>Bydd BBC jam yn ymdrin ag unrhyw bwnc hyd at uchafswm o 50% o'r cwricwlwm.</li>
<li>Byddwn yn gwario o leiaf 50% o'r gyllideb ar gynnwys gwreiddiol gan gyflenwyr allanol.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | |
|---|---|
| Rydym yn gobeithio sbarduno, cefnogi ac adlewyrchu amrywiaeth y DU, gan gynnig deunydd o ansawdd uchel o bob math ar gyfer plant 5 i 16 oed o bob cefndir ac ym mhob cwr o'r wlad.<br><br>Byddwn yn darparu cynnwys gwreiddiol ac yn manteisio ar ddeunydd archif y BBC i ategu'r cwricwlwm unigryw yn y pedair gwlad.<br><br>Bydd ein gwasanaeth - sy'n amgylchedd diogel i ddefnyddwyr ifanc - yn hygyrch ar unrhyw adeg o'r dydd ac o unrhyw leoliad ledled y DU, cyhyd â bod cysylltiad rhyngrwyd ar gael.<br><br>Darperir cynnwys sy'n hygyrch i fyfyrwyr ysgol ar bob lefel, gan gynnwys amrywiaeth o adnoddau sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer unigolion ag anghenion arbennig.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn cynnig cynnwys i ddiwallu anghenion cwricwlaidd pedair gwlad y DU.<br>• Byddwn yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr i siaradwyr Cymraeg, a bydd rhywfaint o ddeunydd ar gael mewn Gaeleg a Gwyddeleg.<br>• Byddwn yn dechrau cyflwyno rhywfaint o gymorth mewn ieithoedd cymunedol. | |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | |
| Mae BBC jam yn wasanaeth rhyngweithiol sydd ar gael ar-lein. Mae wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio - drwy gysylltiad band eang yn ddelfrydol - yn y cartref neu yn yr ysgol gan genhedlaeth o fyfyrwyr sy'n deall y we. | |
| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | |
| Daw'n defnyddwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Byddwn yn annog a galluogi defnyddwyr i gydweithredu ar ein gwasanaeth, gan eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhannu ymdeimlad o gymuned a chyflawniad.<br><br>Bydd cynnwys yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo elfennau dinasyddiaeth y gwahanol gwricwlwm ysgol. | |

| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | |
|---|---|
| Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod amrywiaeth o ddarparwyr yn cael cyfle i ddarparu deunydd ar gyfer BBC jam.<br>Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn ategu darpariaeth gan eraill.<br>Yn benodol, byddwn yn:<br>• Cyhoeddi gwybodaeth ymlaen llaw yn gyson am gynlluniau ar gyfer y dyfodol. | |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | |
| Bydd dimensiwn byd-eang i rai pynciau yn unol â gofynion y cwricwlwm ysgol. Rydym yn gobeithio cyflwyno hyn mewn ffordd sy'n galluogi myfyrwyr i lunio'u barn eu hunain ar bobl, lleoedd a materion o bwys. | |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Lansiwyd BBC jam ym mis Ionawr 2006, ar ôl ymgynghori'n helaeth â holl brif gyrff cwricwlwm yn y DU, arbenigwyr pwnc a BECTA. Mae'r gwasanaeth wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd tan fis Medi 2008.

Yn y meysydd yr ydym yn ymdrin â nhw, rydym yn gobeithio cynnig cyfres o adnoddau cydlynol, cyflenwol ac arloesol ar gyfer myfyrwyr ysgol (5-16 oed), sy'n cynnig cyfoeth a dyfnder - a safbwynt gwahanol - i'r hyn sydd ar gael o ffynonellau ac oddi wrth ddarparwyr eraill. Mae gwasanaeth BBC jam yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cynnwys rhyngweithiol sy'n rhan hanfodol o'r cwricwlwm ysgol, gan gynorthwyo defnyddwyr i ddysgu'n fwy effeithiol, cynorthwyo athrawon ac annog rhieni a chynhalwyr i gymryd rhan.

Ein blaenoriaethau golygyddol yn y flwyddyn nesaf yw:

- **Darparu cynnwys unigryw o ansawdd uchel gydag effaith addysgol mewn amrywiaeth o fformatau** (fideo, clywedol, testun, animeiddio a gemau). Er enghraifft, bydd plant 5-7 oed yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau iaith drwy ddefnyddio elfennau amlgyfrwng y gwasanaeth i greu eu straeon, cerddi a chaneuon eu hunain; ac ym maes astudiaethau busnes, bydd plant 14-16 oed yn gallu archwilio holl elfennau swyddfa rithwir ffoto-realistig - casglu data a chyfweld cymeriadau - er mwyn mynd i'r afael ag aseiniad busnes go iawn a chwblhau cyflwyniad.

- **Ehangu'n amrywiaeth o gynnwys y tu hwnt i'r ddarpariaeth gynnar** - sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, daearyddiaeth, Ffrangeg ac astudiaethau busnes - gyda hyd at 20 o bynciau erbyn diwedd blwyddyn galendr 2006.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn adolygu BBC jam o fewn dwy flynedd i'w lansio.

# Newyddion

## BBC News 24

### Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC News 24 yn cyflwyno newyddion a'i ddadansoddi'n dreiddgar drwy'r dydd, bob dydd gydol y flwyddyn, gyda chymorth gwasanaeth casglu newyddion y BBC ledled y DU ac ym mhedwar ban byd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd, ac yn cynnig dadansoddiad arbenigol i roi'r newyddion yn ei gyd-destun.

### Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Nod BBC News 24 yw darparu newyddion a dadansoddiadau cywir, diduedd ac annibynnol, gan archwilio safbwyntiau amrywiol a rhoi llais iddynt er mwyn gwasanaethu pob cynulleidfa.<br><br>Rydym yn cwmpasu agenda amrywiol, yn mynd y tu hwnt i'r penawdau ac yn darlledu straeon pwysig, gan egluro'r rhain yn glir trwy ddefnyddio dadansoddiadau a graffeg arbenigol i wella dealltwriaeth gwylwyr.<br><br>Mae'n hadroddiadau seneddol yn cynnwys trafodaethau arwyddocaol a digwyddiadau seneddol, yn ogystal â darllediadau byw o Gwestiynau'r Prif Weinidog a chynhadledd i'r wasg fisol y Prif Weinidog. Y tu hwnt i San Steffan, rydym yn darlledu areithiau allweddol o gynadleddau'r pleidiau – nid y pleidiau mawr yn unig – sy'n arwyddocaol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. O ran gwleidyddiaeth Ewrop, ein nod yw egluro'r sefydliadau a'u gwaith.<br><br>I hyrwyddo trafodaeth genedlaethol, rydym yn annog gwylwyr i ryngweithio gyda'r sianel, i gyflwyno sylwadau ar faterion ac i holi arbenigwyr a phobl mewn awdurdod.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn cynnig trafodaeth fyw o bob cwr o'r DU ar drafodaethau polisi allweddol.<br><br>• Byddwn yn cyflwyno'n fyw o San Steffan pan fydd yna ddigwyddiadau gwleidyddol o bwys. | • Byddwn yn darlledu gwasanaeth newyddion cynhwysfawr bob awr, gan gynnwys y diweddaraf am chwaraeon a'r tywydd, a chrynodeb newyddion hanner awr wedi'r awr.<br><br>• Byddwn yn darlledu newyddion busnes bob awr rhwng 9am a 7pm ddyddiau'r wythnos. |

<table>
<tr><th>Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Ein nod yw bod yn unigryw trwy gynnig agenda sy’n cynnwys mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, felly mae straeon rhyngwladol yn nodwedd gref o BBC News 24. Wrth i ni roi sylw iddynt, rydym yn tynnu ar arbenigedd gohebwyr y BBC sydd wedi’u lleoli mewn swyddfeydd casglu newyddion ledled y byd.<br><br>Mae newyddion parhaus yn cael ei gyd-gyflwyno’n rheolaidd o leoliadau straeon mawr sy’n torri ym mhob cwr o’r byd, sy’n gwella'r sylw a rown iddynt.<br><br>Mae BBC News 24 yn cynnwys amrywiaeth o leisiau rhyngwladol ledled y ddarpariaeth, gan gynnwys cyfweliadau manwl gyda gwleidyddion rhyngwladol a phobl gyhoeddus.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn darlledu’n fyw o ddigwyddiadau rhyngwladol allweddol ac yn eu trafod.<br>• Byddwn yn darparu darllediadau cynhwysfawr o etholiadau canoldymor yr UD ac araith Cyflwr yr Undeb.</td><td>• Byddwn yn cynnwys mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU.</td></tr>
<tr><th>Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Mae BBC News 24 yn rhoi llawer o sylw i newyddion rhanbarthol, gan dynnu ar arbenigedd gohebwyr y BBC ledled y DU a cheisio cynnwys o leiaf un safbwynt rhanbarthol neu enghraifft ranbarthol y tu hwnt i Lundain mewn straeon mawr er mwyn dangos y gwahanol effaith ar wahanol rannau o’r wlad.<br><br>Rydym yn rhoi sylw i wleidyddiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol ar draws yr amserlen, gan gynnwys trafodaethau’r senedd a’r cynulliadau datganoledig a holl ymgyrchoedd a chanlyniadau isetholiadau’r DU.<br><br>Nid gwleidyddion yw’r unig rai a holwn. Byddwn yn holi pobl fusnes, academyddion, grwpiau pwyso a’r cyhoedd, ac yn rhoi cyfle i wylwyr ofyn cwestiynau i westeion y sianel.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn rhoi sylw cynhwysfawr i etholiadau lleol mis Mai.</td><td>• Byddwn yn cynnwys mwy o newyddion lleol a rhanbarthol na phrif sianel(i) newyddion parhaus eraill y DU, yn rhannol trwy roi safbwyntiau rhanbarthol i straeon cenedlaethol.</td></tr>
</table>

| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae BBC News 24 ar gael ar bob llwyfan teledu digidol, ac os oes stori newyddion fawr yn torri fe'i darlledir yn fyw ar wefan newyddion y BBC.  Mae ar gael ar amrywiaeth o ddyfeisiadau digidol i wylwyr felly.<br><br>Mae'n cyflwynwyr yn egluro'n gyson sut i gael mynediad i wasanaethau newyddion digidol y BBC, gan gynnwys gwefan newyddion y BBC a BBC News ar deledu rhyngweithiol.<br><br>Rydym yn ategu'n rhaglenni newyddion trwy ddarparu fideos, lluniau llonydd a negeseuon gan wylwyr, lle bo'n briodol, er mwyn cynnig adroddiadau gan lygad-dystion ac amrywiaeth eang o safbwyntiau. Ein nod yw ei gwneud hi mor rhwydd â phosib i gynulleidfaoedd allu cyfrannu fel hyn.<br><br>Mae darparu BBC News 24 ar BBC One ynteu BBC Two dros nos, ar benwythnosau a phan fo newyddion sy'n torri yn golygu bod gwylwyr analog yn gallu manteisio ar y gwasanaeth. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC News 24 yn darparu addysg anffurfiol i wylwyr trwy gyflwyno newyddion a gwybodaeth dibynadwy ar bynciau amrywiol, fel busnes ac economeg, gwyddoniaeth a thechnoleg, y celfyddydau a diwylliant.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn rhoi mwy o sylw i fusnes ar y sianel. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC News 24 yn rhoi sylw i ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol pwysig.<br><br>Mae'r sianel yn cynnig gwasanaeth newyddion chwaraeon cynhwysfawr, gan weithio gyda BBC Sport i ddarlledu'r prif ddigwyddiadau chwaraeon.<br><br>Rydym hefyd yn rhoi sylw i ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol uchel eu proffil.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn darlledu bwletin newyddion chwaraeon newydd, hirach min nos.<br>• Byddwn yn darparu darllediadau cynhwysfawr o Gwpan y Byd FIFA, mewn cydweithrediad â BBC Sport. | • Byddwn yn cyflwyno newyddion chwaraeon gydol y dydd, gan grynhoi prif straeon chwaraeon y dydd bob min nos, a darparu 100 awr o newyddion chwaraeon gydol y flwyddyn. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006, rhoddodd BBC News sylw cyflym ac awdurdodol i nifer o straeon newyddion mawr yn y DU ac ym mhob cwr o'r byd, gan ddarparu sylwebaeth ddifrifol a chynhwysfawr gyda dadansoddiad arbenigol i roi digwyddiadau yn eu cyd-destun. Cydnabuwyd llwyddiannau'r sianel pan enillodd wobr Sianel Newyddion y Flwyddyn oddi wrth y Gymdeithas Deledu Frenhinol.

O ran newyddion y DU, rhoddwyd sylw cynhwysfawr i'r Etholiad Cyffredinol, gan adlewyrchu materion rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd straeon rhyngwladol yn cynnwys ymrwymiad heb ei ail i roi sylw i ddaeargryn Pakistan gan adlewyrchu profiad y teuluoedd Prydeinig oedd yn gysylltiedig â'r drychineb.

Mae BBC News a BBC News 24 nawr yn edrych am gyfleoedd i ddefnyddio adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i gynulleidfaoedd o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr.

Yn 2006/2007, ein blaenoriaethau allweddol yw:

- Cynyddu buddsoddiad mewn **darllediadau mawr eu heffaith o ddigwyddiadau o bwys**, gan dynnu ar waith casglu newyddion byd-eang y BBC.

- Ar y cyd â gwefan newyddion y BBC, **sicrhau gwerth ychwanegol o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr**, trwy ei ddefnyddio i gynnig adroddiadau gan lygad-dystion o straeon newyddion neu i gyflwyno amrywiaeth eang o safbwyntiau.

- Defnyddio rhannau o'r amserlen y tu allan i'r oriau brig i arddangos ymhellach **y gorau o newyddiaduraeth y BBC, yn lleol, yn genedlaethol a rhyngwladol**.

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- 90% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd ac unrhyw ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus arall o eiddo'r BBC).

- Ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol*, sef 25% o'r oriau cynyrchiadau, y tu hwnt i'r M25.

*nid yw "rhaglen berthnasol" yn cynnwys newyddion

# BBC Parliament

## Cylch gwaith y gwasanaeth

BBC Parliament yw'r unig sianel yn y DU sy'n rhoi ei holl sylw i wleidyddiaeth. Caiff trafodaethau o'r ddau Dŷ yn San Steffan, gwaith siambrau seneddol datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a rhai o wrandawiadau'r Pwyllgorau Dethol eu darlledu'n ddi-dor gan y rhwydwaith. Mae'r sianel hefyd yn ymdrin â gwaith Senedd Ewrop.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

<table>
<tr><th>Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil</th><th>Ymrwymiadau mesuradwy</th></tr>
<tr><td>Nod BBC Parliament yw rhoi sylw cywir, diduedd ac annibynnol i drafodaethau aelodau gwleidyddol etholedig y DU, a bwrw golwg agosach ar ddemocratiaeth ar waith nad yw ar gael yn unman arall yn y DU.<br><br>Rydym yn cyflwyno darllediadau cynhwysfawr o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ac yn rhoi sylw sylweddol i wrandawiadau'r Pwyllgorau Dethol a thrafodaethau seneddol y gwledydd Celtaidd. Rydym hefyd yn archwilio ac egluro gwaith Senedd Ewrop.<br><br>Mae cyfran uchel o'r cynnwys yn fyrfyfyr, yn cael ei ddarlledu'n fyw neu fel petai'n fyw heb sylwadau wedi eu trosleisio. Mae'r sianel yn defnyddio graffeg a thestun ar y sgrin i gynnig esboniad a chyd-destun i'r cynnwys, gan adael i'r gwylwyr ddod i benderfyniad eu hunain ar faterion pwysig.<br><br>Mae BBC Parliament hefyd yn rhoi sylw eang i gynadleddau gwleidyddol Llafur, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal ag anerchiadau arweinwyr pleidiau â nifer arwyddocaol o aelodau etholedig.<br><br>Yn benodol eleni:<br><br>• Byddwn yn cynnig crynodeb o brif bwyntiau trafodaethau a gwrandawiadau allweddol trwy gyfrwng testun rhyngweithiol a fideo ar-alw.</td><td>• Byddwn yn darlledu 70 awr o raglenni o San Steffan mewn wythnos arferol, gan gynnwys 10 awr o drafodaethau'r Pwyllgorau Dethol.</td></tr>
</table>

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Parliament yn rhoi sylw eang i waith sefydliadau datganoledig y DU, gan gynnwys rhai trafodaethau yn eu cyfanrwydd o Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon (pan fo trafodaethau) a Chwestiynau'r Maer yng Nghynulliad Llundain, ynghyd ag uchafbwyntiau detholedig o drafodaethau eraill.<br><br>Mae'r sianel hefyd yn darlledu trafodaethau senedd Eglwys Loegr (Synod Cyffredinol) pan mae'n trin a thrafod materion o bwys cyfansoddiadol neu wleidyddol.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn darlledu gwrandawiadau Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon tra bod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn dal i fod yn anweithredol. | • Byddwn yn darlledu 100 awr o drafodion Senedd yr Alban.<br><br>• Byddwn yn darlledu 100 awr o drafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Parliament yn darlledu rhaglen wythnosol (yn ystod tymhorau seneddol) am waith sefydliadau Ewropeaidd, gan ganolbwyntio ar Senedd Ewrop.<br><br>Bydd BBC Parliament hefyd yn darlledu rhaglen wythnosol ar y cyd â darlledwr Americanaidd i roi blas o fyd gwleidyddol cartref a thramor UDA i wylwyr y DU. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 100 awr o raglenni o Frwsel a Strasbwrg (gan gynnwys ailddarllediadau ). |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Parliament yn helpu gwylwyr i ddysgu am wleidyddiaeth a'n democratiaeth. Mae'r holl sylw a rown i drafodaethau, gyda chymorth testun ar y sgrin, yn fodd i'r gwylwyr ddeall mwy am wleidyddiaeth a gweithdrefnau sefydliadau gwleidyddol cenedlaethol, y DU ac Ewrop.<br><br>Rydym hefyd yn manteisio ar archifau'r BBC i roi digwyddiadau hanesyddol yn eu cyd-destun. Mae hyn yn hybu ein dealltwriaeth ni o hanes gwleidyddol y DU ar ôl yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Eleni:<br><br>• Byddwn yn datblygu gwasanaethau rhyngweithiol a fideo ar bbc.co.uk/parliament i esbonio sut mae San Steffan yn gweithio. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Parliament ar gael ar bob llwyfan teledu digidol, er bod Freeview yn gyfyngedig i chwarter y sgrin ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau lled band cyn newid i deledu digidol.<br><br>Mae BBC Parliament ar gael yn ei chyfanrwydd ar wefan newyddion y BBC, lle mae modd ei gwylio fel ffrwd fyw. Gallwch gyrchu'r gwasanaeth hwn trwy gyfrwng amrywiaeth o wasanaethau digidol.<br><br>Eleni:<br><br>• Rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r sianel ar deledu Freeview. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Rydym yn rhoi digwyddiadau'r wladwriaeth a datblygiadau gwleidyddiaeth fodern yng nghyd-destun digwyddiadau o bwys ym Mhrydain yn ail hanner yr 20 ganrif, trwy ddefnyddio archifau'r BBC. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Ym mis Chwefror 2005, BBC Parliament oedd sianel gynta'r BBC i fod ar gael yn fyw a pharhaol trwy gyfrwng band-eang, gan sicrhau ei bod hi'n haws i'r gynulleidfa gael gafael ar y gwasanaeth hwylus hwn. Bellach, mae'r ffrwd fyw hon o'r sianel yn un o ddarpariaethau fideo mwyaf poblogaidd BBC News yn aml, yn enwedig ar ddiwrnodau pwysig yn San Steffan.

Lansiwyd dwy ffrwd band-eang pellach ym mis Hydref, gydag un ffrwd yn darlledu'n fyw am y tro cyntaf o Dŷ'r Arglwyddi a thrafodaethau San Steffan a'r Pwyllgor Dethol ar y llall.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynodd BBC Parliament wasanaeth ategol gwerthfawr i raglenni newyddion y BBC adeg ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol, gan gynnwys sylw llawn o gynadleddau newyddion. Am y tro cyntaf eleni hefyd, bu'r sianel yn darlledu'n fyw o Senedd yr Alban ac yn rhoi cryn sylw i drafodion Senedd Ewrop yn ystod llywyddiaeth Prydain. Roedd rhaglenni arbennig y sianel o'r archifau, gan gynnwys angladd gwladol Syr Winston Churchill ar achlysur 40 mlynedd ei farwolaeth, yn hynod boblogaidd.

Yn 2006/2007, ein blaenoriaethau yw:

- Crynhoi prif bwyntiau trafodaethau a gwrandawiadau allweddol trwy gyfrwng **testun rhyngweithiol a fideo ar-alw**.
- **Ymroi i wella ansawdd darpariaeth y sianel ar Freeview.**

## Ymrwymiadau statudol

Cytunir ar y targedau canlynol gydag Ofcom bob blwyddyn galendr:

- 90% o oriau yn rhaglenni newydd (cynyrchiadau gwreiddiol yn cynnwys unrhyw raglenni a gomisiynir gan y BBC, gan gynnwys rhaglenni newydd ac ailddarllediadau o raglenni a ddangoswyd gyntaf ar unrhyw sianel gwasanaeth cyhoeddus arall y BBC).

- Ar y cyd â gwasanaethau teledu rhwydwaith eraill y BBC, gwario o leiaf 30% o gyllidebau cynhyrchu rhaglenni perthnasol*, sef 25% o'r oriau cynyrchiadau, y tu hwnt i'r M25.

*nid yw "rhaglen berthnasol" yn cynnwys newyddion

# Gwledydd a rhanbarthau

# BBC English Regions

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod BBC English Regions yw bod y darlledwr cymunedol mwyaf creadigol a mwyaf dibynadwy yn Lloegr, gan ddarparu gwasanaeth i amrywiaeth eang o gymunedau trefol a gwledig. Mae'n darparu gwasanaeth newyddion, materion cyfoes, gwleidyddiaeth, celf a cherddoriaeth, crefydd, chwaraeon a thywydd hwylus ond awdurdodol ar deledu rhanbarthol, radio lleol ac ar-lein.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae arlwy BBC English Regions yn ganolog i genhadaeth y BBC sef meithrin ymdeimlad o gymuned, adlewyrchu bywyd lleol a dwyn cymunedau ynghyd i nodi digwyddiadau lleol allweddol. Mae'n rhwydwaith o weithrediadau aml-gyfrwng, sy'n gwasanaethu eu hardaloedd lleol, yn rym pwerus er cydlyniad lleol.<br><br>Mae radio lleol yn darparu gwasanaeth llafar unigryw ledled Lloegr, gan gynnig fforwm i drafod, ffocws ar gyfer materion lleol allweddol a llwyfan i bobl leol rannu eu straeon a'u profiadau.<br><br>Mae teledu rhanbarthol yn gweithredu fel rhaglen gofnod bob dydd ar gyfer y prif straeon a materion ym mob un o 12 rhanbarth Lloegr. Mae rhaglenni teledu wythnosol yn cynnig rhaglenni materion cyfoes a gwleidyddiaeth lleol a chryf ledled Lloegr, ochr yn ochr â rhaglenni pwysig yn rhoi sylw i ddigwyddiadau a materion allweddol.<br><br>Mae'n gwefannau *Lleol i Mi* a newyddion yn cynnig ffyrdd newydd o archwilio'n bröydd, gan ddarparu gwybodaeth, eitemau nodwedd a chyfle i ryngweithio.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Parhau i ddatblygu ein peilot teledu lleol, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2005, gan arbrofi gyda fformatau, cynnwys a thechnoleg a cheisio darparu hyd at 50 o wasanaethau lleol yn llawn, yn amodol ar gymeradwyaeth.<br><br>• Parhau i ddatblygu'n cynigion ar gyfer pedair gorsaf radio lleol arall yng Ngwlad yr Haf, Dorset, Sir Gaer a Bradford, a gweithio i gael cymeradwyaeth, safle a thechnoleg yn barod ar gyfer y lansio yng Ngwlad yr Haf a Dorset. | • Byddwn yn darlledu o leiaf 230,000 awr o radio lleol. Bydd llai na 2.5% o hyn yn ailddarllediadau.<br><br>• Byddwn yn darlledu o leiaf 3,500 awr o newyddion teledu rhanbarthol.<br><br>• Byddwn yn darlledu o leiaf 250 o oriau gwreiddiol o raglenni teledu lleol a rhanbarthol heblaw newyddion, gan gynnwys materion cyfoes.<br><br>• Bydd o leiaf 60% o oriau craidd, a 100% o oriau brig brecwast ar gyfartaledd yn gynnwys llafar |

| | |
|---|---|
| | ar radio lleol y BBC. |
| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae gwasanaethau BBC English Regions yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth egnïol a democratiaeth leol ym mhob un o’n cyfryngau, drwy ddarparu newyddion, gwybodaeth a phyrth i unigolion gymryd rhan.<br><br>Byddwn yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at hyrwyddo dinasyddiaeth a democratiaeth leol drwy fentrau fel *Groundswell*, sy'n annog trafodaeth leol, a'n cysylltiadau ag *Action Network.* Yn ogystal, byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol ac annog gwirfoddolwyr drwy'n perthynas barhaus â Gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cymunedol.<br><br>Yn benodol eleni, byddwn yn:<br><br>• Cryfhau'n cysylltiadau gyda'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol – yn bennaf drwy bartneriaeth hyfforddiant.<br>• Parhau i gyflwyno'r fenter ar y we *Junior Fotball*, sy'n cynnig cefnogaeth i chwaraeon plant ac annog sgiliau TG mewn teuluoedd.<br>• Cefnogi menter *Your Game* BBC Sport, sydd â'r nod o hyrwyddo chwaraeon mewn cymunedau difreintiedig sydd wedi'u hymyleiddio. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae gan BBC English Regions swyddogaeth hollbwysig wrth feithrin doniau a chreadigrwydd lleol, drwy raglenni rheolaidd a thrwy brosiectau a phartneriaethau, digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithdai.<br><br>Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sector annibynnol i gynorthwyo i sicrhau sylfaen cynhyrchu ffyniannus y tu allan i'r BBC yn y rhanbarthau. Yn 2005/2006 lansiwyd dwy gyfres newydd o’r *Politics Shows* yn defnyddio cwmnïau annibynnol lleol yn Ne Ddwyrain a Dwyrain Canolbarth Lloegr.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Ymestyn ein partneriaeth *Roots* gyda’r Cyngor Celfyddydau am flwyddyn arall.<br>• Datblygu ymhellach y prosiectau adrodd stori sain a fideo gan ein gwrandawyr a'n gwylwyr.<br>• Trefnu digwyddiadau gwobrau chwaraeon ledled Lloegr i ddathlu’r goreuon ymhlith doniau lleol a chymunedol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Rydym wedi cynnal cynulleidfa gadarn er gwaetha’r gystadleuaeth gynyddol gan wahanol sianeli - yn fwy felly yn Lloegr na’r cenhedloedd eraill.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Defnyddio'n peilot teledu lleol fel ffordd o ddenu cynulleidfaoedd i ddarpariaeth ddigidol ehangach y BBC.<br>• Parhau i ddefnyddio ein bysiau a chanolfannau agored i wneud technoleg newydd yn llai o ddirgelwch a darparu amgylchedd cefnogol i'r rheiny sy'n dechrau croesi'r ffin ddigidol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Yn gynyddol, mae BBC English Regions yn gweithredu fel cyswllt rhwng y gynulleidfa a chyfleoedd i ddysgu.<br>Mae'n bysiau a'n canolfannau agored yn rhoi cyfle i lawer ddysgu sgiliau cyfrifiadurol, ynghyd â bod yn llwybr i bosibiliadau addysgol eraill drwy'n partneriaid addysg bellach ac uwch. Mae'n perthynas agos â’n cynulleidfa, sy’n seiliedig ar ymddiriedaeth, yn golygu eu bod yn ein gweld fel ffordd ddiogel o gael gafael ar gyfleoedd a allai ymddangos yn ormod o her fel arall.<br>Byddwn yn parhau gyda'n gwaith dysgu a llythrennedd cyfryngau gydag ysgolion, colegau, oedolion a grwpiau cymuned – er enghraifft drwy'r prosiect *All2gether Now* yn Leeds a'n gwaith gydag ysgolion yn Hull.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Darparu cynnwys lleol perthnasol a deniadol ar gyfer prosiectau ledled y BBC sy'n meithrin dysgu fel *Breathing Places* a *RaW*.<br>• Parhau i gynnig profiad gwaith o ansawdd uchel gan ganolbwyntio’n benodol ar ddatblygu diddordeb yn y cyfryngau ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig.<br>• Cyflwyno dau fws newydd yn Surrey/Sussex a Gwlad yr Haf. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Dod â’r byd i Brydain a Phrydain i’r byd | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Prif nod BBC English Regions yw darparu gwasanaeth ar gyfer diddordebau cymunedau lleol.<br><br>Fodd bynnag, mae gan nifer o'r grwpiau ethnig amrywiol a wasanaethwn â'n cynnyrch lleol ddiddordebau y tu allan i'r DU, ac mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i ddarparu ar gyfer y rhain.<br><br>Caiff holl orsafoedd radio lleol y BBC eu ffrydio ar y rhyngrwyd erbyn hyn a byddwn yn parhau i ddarganfod dulliau newydd o ddefnyddio’r dechnoleg hon i gysylltu unigolion a chymunedau yn fyd-eang.<br><br>Yn benodol eleni, byddwn yn:<br><br>• Datblygu'r cysylltiadau y mae radio lleol wedi'u hadeiladu â BBC World Service yn ystod tymor Affrica 2005. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Nid mater hawdd i BBC English Regions yw bodloni holl ofynion ei chynulleidfa, ac yn 2005/2006 bodlonwyd archwaeth ein cynulleidfa am fwy o ddeunydd lleol, rhagor o gynnwys ar-alw, ac ymateb cryf a rhagweithiol i ddatblygiadau technolegol newydd.

Yn ddiweddar rydym wedi lansio peilot ar gyfer teledu lleol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr sy'n cwmpasu chwe ardal ar loeren ddigidol a band eang, ac rydym wedi dechrau paratoi (yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethwyr y BBC) ar gyfer y ddwy orsaf radio lleol 'rithwir' gyntaf - wedi'u lleoli mewn safleoedd llai, gan ddefnyddio technoleg newydd a stiwdio bws symudol.

Ein blaenoriaethau golygyddol allweddol ar gyfer 2006/2007 yw:

- Cwblhau’n llwyddiannus ein peilot o deledu lleol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a chychwyn asesu’r ffordd ymlaen ar gyfer darparu’r gwasanaeth i ardaloedd eraill.

- Gweithio i lansio **gorsafoedd radio lleol newydd yng** Ngwlad yr Haf a Dorset.

## Ymrwymiadau statudol

Nid oes gan BBC English Regions ymrwymiadau statudol ond mae'n gweithio gyda rhwydweithiau radio a theledu a gwasanaethau rhyngweithiol y BBC i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yn Lloegr a ledled y DU.

# BBC Scotland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Scotland yn cynhyrchu amrywiaeth eang a chyfoethog o raglenni radio a theledu a deunydd ar-lein unigryw o ansawdd uchel i bobl o bob oed, gan adlewyrchu natur amrywiol yr Alban a dathlu pob agwedd ar ddiwylliant a threftadaeth yr Alban i gynulleidfaoedd yn yr Alban a ledled y DU.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Bydd *Reporting Scotland* yn parhau'n rhan ganolog o'n darpariaeth newyddion wrth i BBC Scotland barhau i ddarparu gwasanaeth newyddion a materion cyfoes aml-gyfrwng mwyaf cynhwysfawr yr Alban yn y Saesneg a'r Aeleg.<br><br>Bydd rhaglenni gwleidyddol yn parhau i adrodd o Senedd Holyrood, yn ogystal ag o San Steffan a Brwsel, tra'n ceisio ennyn diddordeb pob rhan o'r gynulleidfa ym mhrosesau sifil a gwleidyddol a materion neilltuol i'r Alban. O ran yr Aeleg, byddwn yn darlledu cyfres arall o'r rhaglen materion cyfoes wythnosol *Eòrpa*, ar y cyd â Gaelic Media Services.<br><br>Ar radio, byddwn yn cyfuno adroddiadau a dadansoddiadau o bob math gyda chyfraniadau gan unigolion a chymunedau. Bydd cynnwys a ffurf rhaglenni'n datblygu wrth i'n gwasanaethau barhau i gynnwys cynulleidfaoedd.<br><br>Bydd rhaglenni ffeithiol yn rhoi cipolwg arloesol ar faterion cyfoes yr Alban.<br><br>Byddwn hefyd yn mynd ati i gyflwyno cynllun peilot newyddion a gwybodaeth ranbarthol ar-alw ac yn paratoi i'w rhoi ar waith fesul rhanbarth. | • Byddwn yn cynhyrchu dros 500 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu, a bydd o leiaf 100 o'r oriau hynny yn faterion cyfoes a rhaglenni gwleidyddol.<br><br>• Byddwn yn cynhyrchu o leiaf 2,200 awr o newyddion a materion cyfoes ar y radio. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd BBC Scotland yn parhau i gynhyrchu cyfresi ffeithiol sy'n codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o bob agwedd ar fywyd yr Alban ddoe a heddiw. Mae potensial addysgol rhaglenni a chynnwys arbenigol ar y celfyddydau a gweithgareddau hamdden, hanes, gwyddoniaeth a diwylliant yn elfen allweddol o'r broses gomisiynu<br><br>Bydd *River City* yn parhau i drafod pynciau o bwys cymdeithasol mewn ffurf hawdd ei deall a chaiff y gynulleidfa ei llywio at gyngor a chymorth lle'n briodol.<br><br>Yn fwy ffurfiol, bydd agweddau unigryw ar gwricwlwm yr Alban yn cael eu hadlewyrchu mewn adnoddau ychwanegol ar gyfer BBC jam, gan gynnwys adnoddau dysgu trwy gyfrwng y Gaeleg. Byddwn hefyd yn datblygu gwefan aml-gyfrwng i ddysgwyr y camau cynnar fel rhan o fenter 3–18 oed Gweithrediaeth yr Alban.<br><br>Bydd rhaglenni BBC Scotland ar gyfer CBBC a CBeebies yn cynnwys cyfres newydd sy'n defnyddio sgiliau ymchwilio i feithrin sgiliau meddwl, a chyfresi newydd o hen ffefrynnau fel *Raven* sydd wedi ennill gwobrau.<br><br>Bydd Cerddorfa Symffoni BBC Scotland, sydd wedi ymgartrefu yn Neuadd y Ddinas Glasgow bellach, yn hyrwyddo gwaith newydd o'r Alban, yn cyflwyno cerddoriaeth fyw ar lawr gwlad, ac yn ehangu ei gweithgareddau addysgol.<br><br>Eleni, byddwn yn datblygu'n harlwy Gaeleg fel rhan o'n darllediadau aml-gyfrwng ym Mlwyddyn Diwylliant Ucheldiroedd yr Alban 2007. | • Yn ogystal â rhaglenni newydd i ysgolion yr Alban ar deledu daearol, digidol a radio, byddwn yn dyblu nifer y pynciau yr ydym yn cyfrannu deunydd amlgyfrwng atynt ar gyfer BBC jam. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd BBC Scotland yn parhau i feithrin a datblygu gwerthfawrogiad o ddiwylliant traddodiadol a chyfoes yr Alban a rhoi llwyfan i greadigrwydd a doniau gorau'r wlad.<br><br>Bydd rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau fel *Artworks Scotland* ar y teledu yn rhoi llwyfan i ddoniau, ac yn helpu i gyfoethogi gwerthfawrogiad ein cynulleidfaoedd o ddiwylliant yr Alban.<br><br>Ym myd comedi, byddwn yn adeiladu ar lwyddiannau'r llynedd ar y radio ac yn ymrwymo i gynnig cyfle i ddoniau comedi newydd yr Alban ar y teledu.<br><br>Byddwn yn parhau i gynnig cyfle i ddoniau creadigol yr Alban i hogi'u sgiliau yn eu milltir sgwâr wrth gynhyrchu cyfres ddrama *River City*.<br><br>Ar y radio, rydym yn cynnig llwyfan i bobl a diddordebau'r Alban, ac yn chwilio am leisiau newydd a chanfod a hybu doniau ysgrifennu, canu ac adloniant newydd. Ni yw prif brynwyr rhaglenni radio llafar gan gynhyrchwyr annibynnol yr Alban.<br><br>Bydd bbc.co.uk/scotland yn parhau i ehangu cynnwys gwasanaeth blogio ledled yr ynysoedd i gynnwys cyfraniadau sain, fideo a lluniau gan ein cynulleidfa.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Darlledu cyfres deledu o fri am draddodiadau crefyddol yr Alban.<br>• Cynhyrchu cynnwys arloesol i'r cynulleidfaoedd iau trwy gyfrwng band-eang a ffonau poced. | • Yn ogystal â rhaglenni cerddoriaeth arbenigol wythnosol ar y radio, byddwn yn darlledu o leiaf 200 awr o raglenni celfyddydau a cherddoriaeth wreiddiol ar y radio a'r teledu, ac yn darlledu 200 awr arall o eitemau'r celfyddydau trwy ailddarlledu naratif y sioe gelfyddydau ddyddiol.<br>• Unwaith eto, byddwn yn ceisio bod yn brif gyfrannwr creadigol ar rwydweithiau'r BBC, gan ddarparu cyfran sylweddol o raglenni plant y rhwydwaith – o leiaf 18% – ac yn cyflwyno dros 200 awr o raglenni ffeithiol, adloniant a'r celfyddydau a drama newydd i'r rhwydwaith. |

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Scotland yn darlledu i'r Alban gyfan, gan gynnwys yr ynysoedd, o rwydwaith o ganolfannau darlledu a stiwdios ym mhob cwr o'r wlad. Byddwn yn parhau i uno cynulleidfaoedd yr Alban gyda digwyddiadau cenedlaethol ar deledu, radio ac ar-lein, sy'n apelio at y gynulleidfa brif ffrwd, fel yn achos *Live8: Edinburgh* yn 2005.<br><br>Byddwn yn rhyngweithio mwy gyda'n cynulleidfaoedd ar lawr gwlad gyda mentrau radio a sesiynau blogio ar bbc.co.uk/scotland.<br><br>Yn 2005/2006, roedd the adnodd dysgu Gaeleg ar-lein *Colin and Cumberland* yn boblogaidd tu hwnt. Yn 2006/2007, bydd rhaglenni teledu Gaeleg, BBC Radio nan Gaidheal a bbc.co.uk/alba yn parhau i geisio ennyn diddordeb y gynulleidfa iau.<br><br>Bydd rhaglenni'n adlewyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau o bob cwr o'r wlad, o leisiau amrywiol *Tales From the Edge* i Bencampwriaethau Bandiau Pibau'r Byd 2006.<br><br>Eleni byddwn yn:<br><br>• Darlledu cyfres deledu o bwys yn trin a thrafod materion cymdeithasol cyfoes yng nghefn gwlad yr Alban. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae cyfresi BBC Scotland fel *Shoebox Zoo* a *Monarch of the Glen* yn cyflwyno'r Alban i'r byd ehangach. Bydd BBC Scotland yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddangos a chyflwyno doniau a rhaglenni'r Alban i'r farchnad ryngwladol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd BBC Scotland yn parhau i ddatblygu ei bortffolio aml-gyfrwng, amlffurf ar draws llwyfannau sy'n prysur ehangu, gan gynnig mwy o fynediad i gynulleidfaoedd.<br><br>Mae gwasanaethau BBC Scotland ar gael ar deledu digidol daearol, digidol lloeren a digidol cebl, ac rydym wrthi'n gweithio i wella gwasanaeth digidol band eang. Mae rhaglenni radio ar gael trwy gyfrwng digidol, ac yn cael eu ffrydio'n fyw ar y rhyngrwyd - gyda chyfran helaeth ar wasanaeth ar-lein Listen Again am 7 diwrnod wedi'r darllediad gwreiddiol. Mae ein gwefannau - bbc.co.uk/scotland a bbc.co.uk/alba - yn denu cynulleidfa ryngweithiol ac yn cyflwyno defnyddwyr i wasanaethau a dolenni cyswllt.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Darlledu mwy o raglenni amrywiol ar wasanaeth Listen Again.<br><br>• Datblygu portffolio mwy o gynnwys gan ddefnyddwyr, o ffynonellau ar-lein a thrwy ddigwyddiadau allanol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006, llwyddodd BBC Scotland i gynnig rhaglenni unigryw Albanaidd o'r radd flaenaf i gynulleidfaoedd cenedlaethol a'r rhwydwaith ar deledu, radio ac ar-lein.

Llwyddodd amrywiaeth o raglenni Gaeleg, o brosiect aml-gyfrwng *Colin and Cumberland* i gomedi newydd ar BBC Two Scotland, i ehangu apêl rhaglenni Gaeleg i'r gynulleidfa iau.

Creodd BBC Radio Scotland fwy o gyfleoedd i ryngweithio gyda chynulleidfaoedd mewn prosiectau fel *The Nation's Favourite Scottish Poem*, a chomisiynu cyfresi comedi newydd gan awduron newydd.

Yn 2006/2007:

- **Bydd BBC One Scotland yn ceisio cynnal nifer y gwylwyr** yn yr holl fathau gwahanol o raglenni.

- **Bydd BBC Radio Scotland yn datblygu ei arlwy gerddorol** i gyd-fynd â'r datblygiadau diweddaraf yn y sin gerddoriaeth fyw, gan gynyddu'r gwahanol fathau o gerddoriaeth a chynnig pob math o seiniau ar wasanaeth Listen Again y we.

- **Bydd BBC Scotland yn rhoi llwyfan i awduron comedi newydd yr Alban ar y teledu.**

- **Bydd BBC Scotland yn datblygu gwasanaeth newyddion rhanbarthol**, i gynnwys pynciau cymunedol eraill.

## Ymrwymiadau statudol

Nid oes gan BBC Scotland unrhyw ymrwymiadau statudol ond mae'n gweithio gyda rhwydweithiau teledu a radio a gwasanaethau rhyngweithiol y BBC i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yr Alban a'r DU i gyd.

Yn ystod 2006/2007 bydd Radio Scotland yn ymrwymo i gomisiynu o leiaf 10% o'i horiau cymwys oddi wrth gynhyrchwyr annibynol.

# BBC Cymru Wales

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Mae BBC Cymru Wales yn ymroddedig i gynhyrchu gwasanaethau unigryw o ansawdd uchel sy’n adlewyrchu diwylliant a hanes unigryw Cymru, a’i thirwedd gymdeithasol a gwleidyddol. Ein prif nod yw meithrin perthynas gynhwysol a chyfranogol â chynulleidfaoedd yng Nghymru trwy’n gwasanaethau amrywiol.

## Sut mae’r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Newyddion yw conglfaen cynnyrch BBC Cymru Wales yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n cynnwys newyddion aml-lwyfan, materion cyfoes, rhaglenni gwleidyddol a *Newyddion* ar S4C.<br><br>Ochr yn ochr â thrafodaeth wleidyddol byddwn yn darparu ymdriniaeth wleidyddol helaeth ac yn nodi deng mlwyddiant y refferendwm datganoli gyda rhaglenni arbennig.<br><br>Bydd menter addysg ar-lein ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed yn defnyddio dramâu Groegaidd clasurol i archwilio a thrafod dinasyddiaeth fodern. | • Darlledu dros 1,500 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Wales.<br>• Darlledu o leiaf 1,000 awr o newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Cymru.<br>• Darlledu o leiaf 460 awr o newyddion a materion cyfoes yn Saesneg ar y teledu.<br>• Darlledu tua 180 awr o newyddion ar S4C, gan gynnwys bwletin dyddiau'r wythnos i blant a chrynodeb newyddion wythnosol sy'n addas ar gyfer dysgwyr y Gymraeg.<br>• Parhau i ddarlledu dros 500 awr o |

| | |
|---|---|
| | drafodaethau'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2. |
| **Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Bydd BBC Cymru Wales yn dod â’r genedl ynghyd gyda chyfres ffeithiol nodedig, a rhaglenni comedi, drama, hanes a chrefyddol. Bydd chwaraeon yn parhau i fod yn ganolog i’n rhaglenni.<br><br>Byddwn yn annog cyfranogiad cymunedau a llythrennedd digidol trwy wasanaethau ar-lein fel *Action Network*, ac yn annog defnyddwyr i greu cynnwys ar wefannau *Where I Live* a *Lleol i Mi*, a thrwy'n Strategaeth Gymunedol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Hyrwyddo addysg a dysgu** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae gennym ymrwymiad parhaus i’r gyfres aml-lwyfan gyn-ysgol *Bobinogs.*<br><br>Bydd BBC Cymru Wales yn darparu fersiynau Cymraeg o adnoddau perthnasol BBC jam ac yn cynhyrchu adnoddau Hanes 7–11, Cymraeg Iaith Gyntaf 5–7 a Chymraeg Ail Iaith 5–7 i’r gwasanaeth cyfan.<br><br>Byddwn yn cyfrannu at brosiect *RaW* cyffredinol y BBC ac at ddysgu Cymraeg ar amrywiaeth o lwyfannau.<br><br>Bydd rhaglen addysg Corws a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn cynnal digwyddiadau cymunedol gan gynnwys gweithdai, prosiectau a chyngherddau i’r teulu.<br><br>Bydd *Iolo’s Wildlife Safari* a *Iolo’s Young Wildlife Safari* yn ceisio denu ysgolion a theuluoedd. Cynhyrchir cyfres ar hanes meddygaeth yng Nghymru. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Yn ogystal ag amrywiaeth o raglenni celfyddydol ar y teledu, byddwn yn rhoi sylw i ddigwyddiadau diwylliannol lleol a chenedlaethol yng Nghymru a chanmlwyddiant Amgueddfa Genedlaethol Cymru.<br><br>Byddwn yn cynhyrchu drama i rwydweithiau'r BBC gan gynnwys *Doctor Who* a'r gyfres sy'n cyd-fynd â hi, *Torchwood*. Byddwn hefyd yn parhau â'n prosiectau rhyngweithiol arloesol gyda phenodau byr o *Doctor Who* ar gyfer ffonau poced.<br><br>Byddwn yn darparu rhaglenni ar gyfer Radio 3, a pherfformiadau cerddorol a rhaglenni dogfen o bwys i rwydweithiau teledu'r BBC. Byddwn yn darlledu Cystadleuaeth Canwr y Byd ar S4C yn fyw o Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd.<br><br>Bydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn gwneud dros 85 o raglenni ar gyfer Radio 3, Radio Wales, Radio Cymru a BBC Four a bydd yn rhoi dros 75 o gyngherddau cyhoeddus, 57 ohonynt yng Nghymru.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod Archif Greadigol y BBC ar gael yng Nghymru, gan gynnwys rhywfaint o gynnwys yn y Gymraeg. | • Darlledu dros 6,200 awr o gynnyrch heblaw newyddion a materion cyfoes ar BBC Radio Cymru (ac eithrio rhaglenni penodol i Gymru'n unig).<br>• Darlledu dros 5,300 awr ar BBC Radio Wales, ac eithrio newyddion a materion cyfoes (ac eithrio rhaglenni penodol i Gymru'n unig).<br>• Comisiynu a darlledu o leiaf 780 awr o gynnyrch teledu gwreiddiol, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, yn Saesneg.<br>• Darparu o leiaf 520 awr (gan gynnwys newyddion) o raglenni teledu Cymraeg ar gyfer S4C, gan gynnwys y ddrama ddyddiol *Pobol y Cwm*. |

| Adeiladu Prydain ddigidol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd BBC Cymru'n cyfoethogi ei raglenni gyda chynnwys ar-lein a rhyngweithgarwch. Byddwn yn darparu gwasanaethau gwell i wylwyr digidol sy'n defnyddio'r botwm coch i gynnig, er enghraifft, sylwebaeth chwaraeon yn y Gymraeg, gwybodaeth ychwanegol am raglenni, a gemau rhyngweithiol fel gem ryngweithiol *Doctor Who - Attack of the Graske.*<br><br>Mae ein gwefannau – bbc.co.uk/wales a bbc.co.uk/cymru – yn annog y gynulleidfa i ryngweithio ac yn cyflwyno defnyddwyr i gynnwys a gwasanaethau cysylltiedig. Mae'r ddwy wefan yn parhau i fod yn hynod boblogaidd. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae BBC Cymru Wales yn adlewyrchu Cymru, y DU a'r byd ehangach i Gymru o safbwynt Cymreig ac yn darparu gwasanaethau am Gymru ac i Gymru. Rydym hefyd yn ymwybodol o'n cynulleidfa fyd-eang, a bod y ffaith fod ein gwasanaethau radio i'w cael ar y rhyngrwyd yn galluogi gwrandawyr ledled y byd i wrando a chysylltu â ni. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Yn 2005/2006 cryfhaodd BBC Cymru Wales ei pherthynas â'i chynulleidfaoedd yn sylweddol trwy gael presenoldeb tri mis mewn pedair cymuned fel rhan o'i Strategaeth Gymunedol. Uchafbwynt chwaraeon y flwyddyn oedd darlledu buddugoliaeth Cymru ym Mhencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad. Cafodd rhaglenni eraill ganmoliaeth gan y beirniaid a chroeso cynnes gan y gynulleidfa - gan gynnwys y rhaglen ddwy ran ar fywyd y diweddar Gwynfor Evans, *Yr Aelod dros Gymru*, a *Wales at War* a gyflwynwyd gan John Humphrys - a chafodd cyfresi newydd o *High Hopes* a *Belonging* groeso brwd hefyd.

*Doctor Who* oedd yr uchafbwynt ar deledu'r BBC mewn blwyddyn o gyfraniadau arwyddocaol i'r rhwydweithiau radio a theledu.

Rhaglenni a gynhyrchir gan BBC Cymru Wales yw'r rhai sy'n derbyn y ffigurau gwylio uchaf ar S4C o hyd, ac roedd y rhain yn cynnwys darllediadau helaeth o'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol ym mis Awst, a gafodd dderbyniad gwresog.

Yn 2006/2007 byddwn yn:

- Darparu o leiaf 520 awr o **raglenni teledu Cymraeg** o bob math i S4C dan gytundeb Partneriaeth Strategol newydd gyda'r sianel.
- Cynhyrchu **rhaglenni teledu Saesneg** o bob math, gan ddarparu dros 780 awr ar BBC One Wales a BBC Two Wales yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhau **adolygiadau o Radio Cymru a Radio Wales**, gyda'r nod o godi cyfran a chynulleidfa pob gwasanaeth.
- Atgyfnerthu ac **adeiladu ar lwyddiannau diweddar** cyfraniadau BBC Cymru Wales i'r rhwydweithiau radio a theledu.

## Ymrwymiadau statudol

Nid oes gan BBC Cymru Wales unrhyw ymrwymiadau statudol ond mae'n gweithio gyda rhwydweithiau teledu a radio a gwasanaethau rhyngweithiol y BBC i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yng Nghymru a ledled y DU.

Yn ystod 2006/2007 bydd Radio Cymru a Radio Wales ill dau yn ymrwymo i gomisiynu o leiaf 10% o'i horiau cymwys oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol.

# BBC Northern Ireland

## Cylch gwaith y gwasanaeth

Nod BBC Northern Ireland yw darparu rhywbeth o werth i bawb yn y gymuned trwy amrywiaeth eang o raglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu ac ysgogi trafodaeth, dathlu a chefnogi bywyd diwylliannol a chwaraeon, ac adlewyrchu diddordebau a phrofiadau lleol ar gyfer cynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon ac yng ngweddill y DU.

## Sut mae'r gwasanaeth yn ateb pob un o ddibenion y BBC

| **Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
|---|---|
| Mae newyddion a materion cyfoes yn elfen ganolog o'n gwasanaeth i'r gynulleidfa. Rydym yn darparu newyddion unigryw a hygyrch ar y radio a'r teledu, sy'n trafod bywyd gwleidyddol a sifil trwy raglenni fel *Good Morning Ulster, BBC Newsline* a *Spotlight*.<br><br>Byddwn yn parhau i ategu hyn gyda rhaglenni eraill sy'n hybu trafodaeth ac yn darparu cyd-destun ar gyfer datblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol ac yn rhoi llais i'r safbwyntiau amrywiol yng Ngogledd Iwerddon.<br><br>Ategir ein rhaglenni gan bbc.co.uk/ni.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Darlledu nifer o raglenni dogfen a rhaglenni materion cyfoes sy'n archwilio materion yn ymwneud â rhaniadau ac amrywiaeth yn ein cymdeithas a rhoi cyfle i drafod a myfyrio ar y themâu hyn.<br>• Darlledu nifer o raglenni dogfen a darparu cyfleoedd rhyngweithiol sy'n ymdrin â materion crefyddol a moesol.<br>• Lansio ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ym meysydd iechyd meddwl, iechyd dynion a'r amgylchedd. | • Bydd BBC Radio Ulster yn darlledu dros 1,550 awr, a BBC Radio Foyle dros 380 awr, o newyddion a materion cyfoes.<br>• Ar y teledu byddwn yn darlledu 325 awr o newyddion a materion cyfoes, ac yn cynhyrchu 100 awr o raglenni ffeithiol i BBC One Northern Ireland. |

| Hyrwyddo addysg a dysgu | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Northern Ireland yn ategu portffolio gwasanaeth ehangach y BBC ar deledu, radio ac ar-lein, ac yn helpu i ddiwallu anghenion dysgu unigryw Gogledd Iwerddon.<br>Byddwn yn mynd i'r afael â gwahaniaethau lleol yng nghwricwlwm ysgolion, yn cynnwys hanes ac iaith, ac yn darparu mentrau llythrennedd cyfryngau a hybir gan fws y BBC ledled y rhanbarth. Bydd BBC Northern Ireland hefyd yn cynhyrchu deunyddiau dysgu digidol newydd i BBC jam ac yn gweithio i ddatblygu ei ddarpariaeth yn y maes hwn. Byddwn yn gwella a datblygu'n hadnoddau dysgu rhyngweithiol, gan gynnwys gwaith diweddaru sylweddol ar brosiect *State Apart*.<br>Rydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd meithrin gwybodaeth ehangach i gynulleidfaoedd prif ffrwd trwy raglenni ffeithiol am bynciau fel hanes, busnes, crefydd, cerddoriaeth a'r celfyddydau, a byd natur.<br>Byddwn yn gwneud defnydd mwy arloesol o bartneriaethau, cyfleoedd rhyngweithiol a chysylltiadau rhwng ac oddi mewn i wasanaethau lleol a'r rhwydwaith.<br>Eleni, byddwn yn:<br>• Darlledu digwyddiad teledu rhyngweithiol mawr i deuluoedd gael cymryd rhan mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.<br>• Lansio menter hanes fawr ar gyfer y flwyddyn gyfan a fydd yn cynnwys cyfres hanes a rhaglenni dogfen ar y teledu a'r radio a'u hategu trwy ryngweithgarwch a digwyddiadau cymunedol.<br>• Darparu modiwl cerddoriaeth ar gyfer plant 7–11 oed i BBC jam. | • Bydd BBC Northern Ireland yn darlledu 16 awr o raglenni ar gyfer ysgolion ar y radio a'r teledu. |

| Sbarduno creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Bydd BBC Northern Ireland yn parhau i archwilio ac adlewyrchu agweddau amrywiol ar ein treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol ac ym myd chwaraeon ar bob llwyfan.<br><br>Byddwn yn parhau i arddangos bywyd diwylliannol trwy raglenni fel *Arts Extra* ar BBC Radio Ulster ac ar-lein, rhaglenni dogfen yn rhoi sylw i fywyd creadigol a meithrin mwy o bartneriaethau.<br><br>Byddwn yn darparu llwyfannau ar gyfer doniau cerddorol amrywiol ar y teledu a'r radio yn cwmpasu amrywiaeth eang o genres cerddorol.<br><br>Byddwn yn parhau i feithrin doniau newydd, datblygu rhaglenni comedi a drama newydd ar gyfer y radio a'r teledu, ac yn ceisio datblygu cyfleoedd ar gyfer comisiynau rhwydwaith yn y maes hwn.<br><br>Bydd BBC Northern Ireland yn parhau i ymdrin â diddordebau chwaraeon o bob math trwy'r rhaglen chwaraeon*, Season Ticket,* a thrwy ddarlledu rhaglenni byw ar y teledu ac ar BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle lle mae'r hawliau yn caniatáu hynny*.*<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Darlledu mwy o gomedïau newydd gan gynnwys *On the Line*, a chyfres animeiddio newydd.<br><br>• Byddwn yn dathlu pen-blwydd *Across the Line* yn 21 oed, pen-blwydd Cerddorfa Ulster yn 40 oed, swyddogaeth deunyddiau diwylliannol yng nghymdeithas heddiw, a hanes y Field Day Theatre Company. | • Bydd BBC Northern Ireland yn cynhyrchu a darlledu tair awr o raglenni dogfen celfyddydol ar y teledu.<br><br>• Bydd BBC Northern Ireland yn darparu mwy o berfformiadau cerddorol ar y teledu na'r llynedd - 12 awr i ategu'r gwasanaeth cerddoriaeth arbenigol nosweithiol ar BBC Radio Ulster.<br><br>• Bydd BBC Northern Ireland yn darparu 20 awr o gomedi newydd ar BBC Radio Ulster a 10 awr ar y teledu. |

| Adlewyrchu gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae cymdeithas Gogledd Iwerddon yn un hynod amrywiol, ac eto bydd rhai rhaglenni a digwyddiadau penodol, ac ymdeimlad cyffredinol o le, yn dwyn y gynulleidfa gyfan at ei gilydd. Mae BBC Northern Ireland mewn sefyllfa unigryw i ddarparu profiadau y gall pobl eu rhannu ac i gysylltu cynulleidfaoedd â'i gilydd.<br><br>Byddwn yn parhau i greu a rhoi sylw i ddigwyddiadau cymunedol fel *Proms in the Park*, ac yn chwilio am ffyrdd newydd i bobl rannu'u hanesion eu hunain. Byddwn yn creu dulliau newydd o adlewyrchu'r ymdeimlad hwn o le ac yn portreadu bywyd cyfoes yn ddeinamig ac yn ei holl amrywiaeth.<br><br>Byddwn yn parhau i gynnig ffocws poblogaidd ar fywyd cymunedol, ac i gynhyrchu rhaglenni a fydd o ddiddordeb i bawb gan archwilio hanes lleol, hanesion unigolion i ysbrydoli'r gynulleidfa a byd natur. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni a chyfres ar fywyd cefn gwlad Gogledd Iwerddon, ein treftadaeth forwrol, traddodiad Albanwyr Ulster, hanes Belfast a hanes cymdeithasol y 40 mlynedd diwethaf.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Cynyddu perthnasedd lleol ein darpariaeth gan ddefnyddio partneriaethau a chyfleoedd digidol. | • Bydd BBC Northern Ireland yn darlledu o leiaf 640 awr o deledu lleol a 8,400 awr o radio lleol. Bydd hyn yn cynnwys 20 rhaglen ddogfen unigol a chyfres o 40 ar gyfer y teledu yn adlewyrchu bywyd cyfoes a threftadaeth Gogledd Iwerddon.<br><br>• Byddwn yn datblygu'n gwasanaethau i gynulleidfaoedd Gwyddelig ac Albanwyr Ulster, gan gynnwys cynyddu'n cyfres radio ar gyfer Albanwyr Ulster i 40 o raglenni gydol y flwyddyn, a thrwy gyfres deledu bedair rhan newydd yn adlewyrchu diwylliant Albanwyr Ulster a 13 awr o raglenni Gwyddeleg ar y teledu. |

| Dod â'r byd i Brydain a Phrydain i'r byd | Ymrwymiadau mesuradwy |
|---|---|
| Mae BBC Northern Ireland yn adlewyrchu Gogledd Iwerddon, y DU a'r byd ehangach i gynulleidfa Gogledd Iwerddon, ond o safbwynt Gogledd Iwerddon. Rydym yn ymwybodol o'n cynulleidfa fyd-eang ac yn sensitif iddi, ond nid ydym yn ei thargedu. Yn bennaf, mae BBC Northern Ireland yn darparu gwasanaethau gan, ar gyfer ac am gymunedau Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn adlewyrchu swyddogaeth pobl o Ogledd Iwerddon mewn cyd-destun rhyngwladol. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |
| **Adeiladu Prydain ddigidol** | **Ymrwymiadau mesuradwy** |
| Mae ein cynnyrch teledu ar gael ar lwyfannau digidol ac analog. Fodd bynnag, mae BBC Radio Ulster hefyd ar gael ar-lein ac ar radio digidol DAB a DSat. Mae'r holl raglenni a bwletinau newyddion ar gael ar-lein ar gais am gyfnod penodol ar ôl darlledu.<br><br>Mae gan Radio Ulster a Radio Foyle wefannau eu hunain, gyda'r cynnwys yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r pynciau a drafodwyd mewn rhaglenni diweddar a rhaglenni cyfredol. Byddwn yn parhau i ddarparu cynnwys lleol, newydd ac yn defnyddio rhyngweithgarwch i gysylltu pobl ar draws gwasanaethau radio, teledu ac ar-lein.<br><br>Mae bws y BBC yn trefnu ei ymweliadau i gyd-daro â darllediadau allanol a gynlluniwyd ac yn darparu cyfleoedd i gynulleidfaoedd ddysgu am dechnoleg cyfryngau digidol.<br><br>Eleni, byddwn yn:<br><br>• Darparu'n cynnyrch i gynulleidfa ehangach trwy ddarlledu newyddion a chynnwys arall ar wasanaeth band eang. | Nid oes unrhyw ymrwymiadau meintiol penodol wedi'u pennu. |

## Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2006/2007

Cynyddodd BBC Northern Ireland ei hamrywiaeth o raglenni teledu ar gyfer cynulleidfaoedd lleol yn ystod 2005/2006 i adlewyrchu hanes, bywyd a diwylliant amrywiol Gogledd Iwerddon yn llawnach.

Darparodd BBC Northern Ireland wasanaeth newyddion cynhwysfawr, ac arweiniodd buddsoddiad ychwanegol mewn comedi at amrywiaeth o brosiectau newydd ar y teledu a'r radio.

Ein nod yw cynnal y momentwm hwn, a defnyddio cyfleoedd digidol newydd i wella perthnasedd ac effaith ein cynnwys ledled ein gwasanaethau.

Y blaenoriaethau ar gyfer 2006/2007 yw:

- Darparu rhaglenni **comedi, cerddoriaeth, hanes a ffeithiol/materion cyfoes newydd**.
- Cynllunio **camau gweithredu cymdeithasol/prosiectau dinasyddiaeth sy'n cael effaith sylweddol** ar rai o'r materion sy'n fwyaf perthnasol i ddinasyddion Gogledd Iwerddon.
- Cefnogi **digwyddiadau dweud stori a chreadigrwydd** yn y gymuned hon i alluogi pobl i gael budd gwirioneddol o gymryd rhan yn ein rhaglenni a'n digwyddiadau.
- Sicrhau bod ein **cynnwys ar gael yn ehangach** gan ddefnyddio technolegau digidol, ehangu'r gwasanaeth newyddion a gwneud yr archif yn fwy hygyrch.

## Ymrwymiadau statudol

Nid oes gan BBC Northern Ireland unrhyw ymrwymiadau statudol ond mae'n gweithio gyda rhwydweithiau teledu a radio a gwasanaethau rhyngweithiol y BBC i ddarparu cynnwys i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon a ledled y DU.

Yn ystod 2006/2007 bydd Radio Ulster yn ymrwymo i gomisiynu o leiaf 10% o'i horiau cymwys oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol.

# Ymrwymiadau pellach

## Ymrwymiadau rhaglenni pellach

### Gwasanaethau mynediad

Mae'r BBC yn cyflawni'n well na thargedau cyfredol Ofcom ar gyfer isdeitlo, darparu iaith arwyddion a llun-ddisgrifio, ac rydym wedi ymrwymo i isdeitlo holl raglenni BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBeebies, Sianel CBBC a BBC News 24 erbyn 2008. Yn ogystal, darperir isdeitlau ar gyfer rhai adrannau o BBC Parliament hefyd.

Dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 rydym wedi'n rhwymo gan god Ofcom o ran darparu ar gyfer pobl fyddar a phobl â nam ar eu golwg. Mae mynediad i wasanaethau yn cael ei gwmpasu hefyd gan Ran 3 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Rydym wedi cytuno ar bolisïau ac wedi llunio Llawlyfr Cynhyrchu sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer cynhyrchwyr rhaglenni. Mae gennym Ganllawiau ar gyfer Cynulleidfaoedd Teledu sydd â Nam ar eu Golwg hefyd. Caiff ein polisïau ar hygyrchedd gwefannau eu cyhoeddi ar-lein yn bbc.co.uk/commissioning/newmedia/websites.shtml.

## Ymrwymiadau pellach y BBC

Mae ymrwymiad y BBC i'n cynulleidfaoedd yn mynd y tu hwnt i'r polisi rhaglenni ar gyfer gwasanaethau unigol. Rydym hefyd yn gwneud ymrwymiadau sylweddol sy'n berthnasol i'n gwasanaethau i gyd.

### Amrywiaeth

Nod y BBC yw adlewyrchu amrywiaeth gwirioneddol yn ei rhaglenni a chynnig rhywbeth i bawb yn y DU trwy gyfrwng gwasanaethau prif ffrwd a gwasanaethau wedi'u targedu, waeth beth fo'u hoedran, dosbarth, rhyw, anabledd, cefndir diwylliannol neu eu lleoliad.

Fodd bynnag, mae yna rai grwpiau mewn cymdeithas o hyd y dylai'r BBC gael agwedd fwy rhagweithiol atynt – fel darlledwr a chyflogwr – o ran y ffordd yr ydym yn cynrychioli ac yn adlewyrchu eu bywydau.

Byddwn yn parhau i weithio i gynyddu cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig sy'n gweithio i'r BBC. Ein targed yw cynyddu'r gyfran hon i 12.5% yn gyffredinol ac i 7% ymysg uwch-reolwyr erbyn Mawrth 2008.

Mae gan y BBC darged yn nodi isafswm y staff anabl y dylid eu cyflogi, a'n targed yw cynyddu hyn i 4% erbyn Mawrth 2008.

Mae pob cynnig newydd am raglenni yn cynnwys datganiad amrywiaeth yn nodi sut bydd y rhaglen, lle bo'n briodol, yn cyflawni ymrwymiad y BBC i adlewyrchu'n llawn amrywiaeth y cyhoedd sy'n talu ffi'r drwydded, ar ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i asesu pa mor effeithiol y mae hyn yn ein galluogi i gyflawni'r addewid hwn.

## Mynediad

Mae'r BBC yn un o aelodau gwreiddiol Rhwydwaith Anabledd y Darlledwyr ac wedi ymrwymo i:

- gynyddu nifer y bobl anabl ar yr awyr ac ar y sgrîn
- cynyddu nifer y bobl anabl yn y gweithlu drwyddo draw
- cynyddu mynediad i wasanaethau, ar ac oddi ar yr awyr
- sicrhau mynediad i'r adeiladau

## Gwasanaethau'r BBC i bawb

Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein holl wasanaethau ar gael i bawb ac yn cael eu darlledu am ddim a bod pobl sy'n talu ffi'r drwydded yn gallu cael mynediad iddynt trwy gyfryngau newydd wrth i dechnolegau perthnasol ddatblygu. Mae'n gwasanaethau digidol ar gael ar Freeview, lloeren a chebl i'r graddau ac yn y ffordd y mae pob llwyfan yn ei ganiatáu.

## Hyfforddi

Bydd y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu sgiliau ei gweithwyr. Byddwn hefyd yn neilltuo amser, arbenigedd ac arian fel cyfraniad at fentrau hyfforddi ledled y diwydiant ac yn parhau i gynnal cynlluniau penodol i ddenu pobl newydd i'r diwydiant darlledu.

## Atebolrwydd

Mae'r BBC yn sefydliad agored a thryloyw sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd y mae'n ei wasanaethu. Byddwn yn trafod â'n cynulleidfaoedd ac yn dysgu ganddynt ac yn ymateb yn onest i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym.

Mae ein gwasanaeth gwybodaeth ar gael i gynulleidfaoedd 24 awr y dydd trwy'r flwyddyn ac mae'n ymdrin â thua 2.5 miliwn o gysylltiadau dros y ffôn, e-bost a thrwy lythyr bob blwyddyn. Mae'r cysylltiadau hyn yn amrywio o ymholiadau cyffredinol i gwynion penodol am gynnwys rhaglenni. Caiff ansawdd ein hymateb i bryderon y gynulleidfa ei archwilio'n flynyddol i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal.

Rydym newydd sefydlu proses ymdrin â chwynion sy'n ei gwneud hi'n hawdd i'r cyhoedd wneud cwyn ffurfiol a chael ymateb cyflym. Mae yna broses apelio dau gam i unrhyw un sy'n anfodlon â'r ymateb cychwynnol. Pwyllgor Cwynion Rhaglenni y Llywodraethwyr yw cam olaf y broses yn y BBC. (Gweler bbc.co.uk/feedback.)

Mae'r BBC yn trefnu ymgynghoriadau cyhoeddus rheolaidd ac yn cynnal ymchwil eang i safbwyntiau pobl sy'n talu ffi'r drwydded. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau ad hoc o ddiddordebau ac anghenion gwahanol rannau o'r gynulleidfa neu ddefnydd a gwerth gwasanaeth arbennig, yn ogystal ag arolwg misol parhaus sy'n cael barn y gynulleidfa am y sefydliad a'i raglenni. Hefyd, mae rhwydwaith o ymgynghorwyr annibynnol gwirfoddol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn rhoi adborth uniongyrchol ar wasanaethau'r BBC.

Bydd Ymddiriedolaeth y BBC – sydd yn disodli Bwrdd Llywodraethwyr y BBC flwyddyn nesaf – yn monitro perfformiad y BBC gan gyhoeddi ei asesiad flwyddyn nesaf.